



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 30 Tachwedd 1999

Tuesday 30 November 1999

Cynnwys Contents

- 3 Anerchiad gan yr Anrhydeddus Roy MacLaren, Uchel Gomisiynydd Canada
 Address by the Honourable Roy MacLaren, the High Commissioner for Canada
- 14 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
 Questions to the First Secretary
- 31 Datganiad ar y Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn
 Statement on the Beef on the Bone Ban
- 34 Datganiad Busnes
 Business Statement
- 36 Rhan 1 Blaen-raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth
 The Government's Forward Legislative Programme Part 1
- 92 Dadl Fer: Tuag at Drafnidiaeth Integredig
 Short Debate: Towards Integrated Transport

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Anerchiad gan yr Anrhydeddus Roy MacLaren, Uchel Gomisiynydd Canada
Address by the Honourable Roy MacLaren, the High Commissioner for Canada

Y Llywydd: Mae'n bleser arbennig gennyf heddiw groesawu Uchel Gomisiynydd Canada, yr Anrhydeddus Roy MacLaren, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i wahodd i annerch yr Aelodau.

The Hon Roy Maclaren: Bonjour! C'est un grand plaisir d'être ici cet après-midi. Bore da! What a pleasure and an honour it is to be with you. I am delighted to return to the Assembly. I was here on that great day in May when it all began, and it is gratifying to see the progress that has been made in the few months since then. Wales and Canada share links that go back centuries to the very beginning of Canada, a fact recorded in the stone of our Parliament Buildings in Ottawa where the Welsh daffodil is represented alongside the fleur-de-lis of France and the several symbols for Ireland, Scotland and England. In Canada, academics have debated whether it was the Cambrian Prince Madog who was the first European to visit North America in 1170. Certainly the great Welsh wizard and cartographer extraordinaire John Dee did much to make known the east coast of the new continent. Less happily, it was the notorious pirate Bartholomew Roberts who, using those same maps, plagued the east coast of north America a little while later.

Our Foreign Minister was interested to learn of my visit here today. His great-great-grandfather went from Wales to Patagonia in Argentina, which might have been better called New South Wales if someone else had not already thought of that. From Patagonia, his family went to Saskatchewan where they flourished through hard work and, no doubt, an occasional heartfelt hymn of praise.

Today, the ties between Wales and Canada continue to grow, but no tie remains as durable as the memory of shared service in two World Wars. It is for that reason that I was especially pleased to participate in a

The Presiding Officer: It gives me great pleasure today to welcome the High Commissioner of Canada, the Honourable Roy MacLaren, to the National Assembly for Wales and to invite him to address the Members.

Yr Anrhydeddus Roy Maclaren: Bonjour! C'est un grand plaisir d'être ici cet après-midi. Bore da! Pleser ac anrhydedd mawr yw bod gyda chi. Yr wyf yn falch iawn o ddychwelyd i'r Cynulliad. Yr oeddwn yma ar y diwrnod mawr hwnnw ym mis Mai pan ddechreuodd y cwbl, a braf yw gweld y cynnydd a wnaethpwyd yn yr ychydig fisoedd ers hynny. Mae Cymru a Chanada yn rhannu cysylltiadau sydd yn mynd yn ôl ganrifoedd at ddechrau cyntaf Canada, ffaith a gofnodir ar garreg ar adeiladau ein Senedd yn Ottawa lle y dangosir cenhinen Bedr Cymru ochr yn ochr â fflwr-dy-lis Ffrainc a'r gwahanol symbolau ar gyfer Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Yng Nghanaada, mae academyddion wedi trafod ai'r Tywysog o Gymro, Madog, oedd yr Ewropead cyntaf i ymweld â Gogledd America yn 1170. Yn sicr, gwnaethpwyd llawer gan y dewin a'r mapiwr rhyfeddol o Gymro John Dee i roi gwybod am arfordir dwyreiniol y cyfandir newydd. Yn llai ffodus, y môr-leidr drwg-enwog Bartholomew Roberts a blagiodd arfordir dwyreiniol gogledd America ychydig wedyn, gan ddefnyddio'r un mapiau.

Yr oedd yn ddifyr gan ein Gweinidog Tramor wybod am fy ymweliad yma heddiw. Aeth ei orhendaid o Gymru i Batagonia yn yr Ariannin, y buasai De Cymru Newydd wedi gallu bod yn enw gwell arni oni bai i rywun arall feddwl am hynny'n barod. O Batagonia, aeth ei deulu i Saskatchewan lle y bu iddynt ffynnu drwy waith caled ac, mae'n siwr, drwy ganu ambell emyn yn galonnog.

Heddiw, mae'r dolennau rhwng Cymru a Chanada yn dal i dyfu, ond ni fydd yr un ddolen mor gadarn â'r cof am gydwasaethu mewn dau Ryfel Byd. Dyna pam yr oeddwn yn arbennig o falch o gymryd rhan mewn

ceremony three years ago at Brecon Cathedral to commemorate the Battle of the Somme. On the terrible first day of that battle, the South Wales Borderers and the Royal Newfoundland Regiment stood and died shoulder to shoulder. During the First World War, two Canadian-born politicians Bonar Law and Max Aitken, who later became Lord de Beaverbrook, played leading roles in making Lloyd George Prime Minister. Lloyd George, incidentally, was much taken with Canada, which he visited twice, in 1899 and again in 1923. He thought that our climate was

‘sunny, bracing, invigorating, a climate to make men, a climate that compels work and also rewards it, not a climate for idlers and wasters, but a climate that represents industry and abundance.’

Perhaps he had in mind Keir Hardie’s report about seeing ‘help wanted’ signs in Canada, which specified that no Englishman need apply—only Welsh and Scots.

Instead of offering additional anecdotes and recollections, I will first talk about systems of government that are decentralised and bilingual, and then about the flourishing cultural, academic and commercial links between Wales and Canada.

As some of you may know, not long ago, like you, I was a parliamentarian. I feel at home here today. Although your Assembly is a young institution, its very existence is based on one of the most solid principles of Government today—devolved democratic representation. I would like to share a few thoughts about our experience in Canada of a decentralised system of Government—a federal state. It is not my intention to offer recipes, although some of our experiences have been reflected in your devolved system, with your predominantly executive role. What has taken us 132 years to develop—longer still if you include responsible government in Canada—has helped to shape the powers devolved to Wales, Scotland and

seremoni dair blynedd yn ôl yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu i goffâu Brwydr y Somme. Ar ddiwrnod cyntaf ofnadwy y frwydr honno, bu i Gyffinwyr De Cymru a Chatrawd Frenhinol y Tir Newydd sefyll a marw ochr yn ochr â’i gilydd. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, bu i ddau wleidydd a aned yng Nghanaada Bonar Law a Max Aitken, a ddaeth wedyn yn Arglwydd de Beaverbrook, chwarae rhan flaenllaw wrth wneud Lloyd George yn Brif Weinidog. Yr oedd Lloyd George, gyda llaw, yn hoff iawn o Ganada, a bu ar ymweliad yno ddwywaith, yn 1899 ac eto yn 1923. Credai fod ein hinsawdd

‘yn heulog, yn iachus, yn fywhaol, hinsawdd i wneud dynion, hinsawdd sydd yn cymell gwaith ac yn ei wobrwyo, nid hinsawdd i segurwyr ac oferwyr, ond hinsawdd sydd yn cynrychioli diwydrwydd a digonedd.’

Efallai mai’r hyn oedd ganddo dan sylw oedd adroddiad Keir Hardie am weld arwyddion ‘cymorth yn eisiau’ yng Nghanaada oedd yn nodi na ddylai’r un Sais ymgeisio—dim ond Cymry ac Albanwyr.

Yn hytrach na chynnig ychwaneg o hanesion ac atgofion, fe siaradaf yn gyntaf am systemau llywodraeth sydd yn ddatganoledig ac yn ddwyieithog, ac wedyn am y cysylltiadau diwylliannol, academaidd a masnachol llewyrchus rhwng Cymru a Chanada.

Fel y gŵyr rhai ohonoch efallai, yr oeddwn i, ychydig yn ôl, yn seneddwr fel chithau. Teimlaf yn gartrefol yma heddiw. Er mai sefydliad ifanc yw’ch Cynulliad, mae ei fodolaeth ynnddi’i hun wedi ei seilio ar un o egwyddorion cadarnaf Llywodraeth heddiw—cynrychiolaeth ddemocrataidd ddatganoledig. Hoffwn rannu ychydig feddyliau am ein profiad yng Nghanaada o system Llywodraeth ddatganoledig—gwladwriaeth ffederal. Nid yw’n fwriad gennyf gynnig ryseitiai, er bod rhai o’n profiadau ni wedi eu hadlewyrchu yn eich system ddatganoledig chi, yn y rôl weithredol gan mwyaf sydd gennych. Mae’r hyn a gymerodd 132 mlynedd i ni ei ddatblygu—mwy byth os cynhwyswch lywodraeth

Northern Ireland.

This is a time of major constitutional change in Britain, hitherto one of the most centralised of states. Power and sovereignty in Britain are becoming more dispersed and diffused. Allegiances are multiplying as globalisation proceeds. The principle of subsidiarity, that political decision-making should be moved downwards to the most local level possible, has been familiar to Canadians for 132 years since an Act of the British Parliament called Canada into existence. Here in Britain, that same principle of subsidiarity has contributed to the recent decision to devolve powers, however asymmetrically. Regions of England now have development agencies. London is to have an elected mayor and assembly. Other regions and cities may follow suit. This constitutional change and the introduction in Wales and Scotland of elections by proportional representation and the reform of the second chamber at Westminster, come at a time when the European Union is being assigned more powers to set pan-European standards and co-operative programmes. It is a time of major constitutional change.

Much of this change appears to have come suddenly and perhaps, to a few, even unnoticed. Not surprisingly, to some of those who have taken note, it seems to have involved a loss of sovereignty. No doubt it does, if one thinks merely in terms of traditional sovereignty. However, if one attempts to think in terms of a globalised world, then sovereignty and allegiances take on new meanings. Allegiances today are more multifaceted than they were a century ago. For example, one can, without contradiction, feel an allegiance to Quebec and Canada, while recognising that a growing global allegiance in peacekeeping, international justice and environmental protection express a global recognition.

gyfrifol yng Nghanada—wedi helpu i lunio'r pwerau a ddatganolwyd i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae hwn yn gyfnod o newid cyfansoddiadol mawr ym Mhrydain, a fu hyd yn hyn yn un o'r gwladwriaethau mwyaf canoledig. Mae pŵer a sofraniaeth ym Mhrydain yn cael eu gwasgaru a'u lledaenu'n helaethach. Mae teimladau o deyrngarwch yn amlhau wrth i'r byd gael ei gymathu fwyfwy. Mae egwyddor is-reolaeth, sef y dylid symud penderfynu gwleidyddol i lawr i'r lefel fwyaf lleol bosibl, yn gyfarwydd i Ganadiaid ers 132 mlynedd pan grewyd Canada drwy Ddeddf yn Senedd Prydain. Yma ym Mhrydain, mae'r un egwyddor o is-reolaeth wedi cyfrannu at y penderfyniad diweddar i ddatganoli pwerau, er mor anghymesur y gwnaethpwyd hynny. Bellach mae gan ranbarthau Lloegr asiantaethau datblygu. Mae Llundain i gael maer a chynulliad etholedig. Mae'n bosibl y bydd rhanbarthau a dinasoedd eraill yn gwneud yr un peth. Mae'r newid cyfansoddiadol hwn a chyflwyno etholiadau drwy gynrychiolaeth gyfrannol yng Nghymru a'r Alban a diwygio'r ail siambr yn San Steffan, yn dod ar adeg pan drosglwyddir mwy o bwerau i'r Undeb Ewropeaidd i sefydlu safonau a rhaglenni cydweithredol i Ewrop gyfan. Mae'n gyfnod o newid cyfansoddiadol mawr.

Ymddengys bod llawer o'r newid hwn wedi digwydd yn sydyn ac efallai'n ddi-sylw hyd yn oed, i rai. Nid yw'n syndod ei bod yn ymddangos, i rai o'r rheini a gymerodd sylw, fod hyn wedi golygu colli sofraniaeth. Mae'n siwr bod hynny'n wir, os yw rhywun ond yn meddwl yn nhermau sofraniaeth draddodiadol. Fodd bynnag, os bydd rhywun yn meddwl yn nhermau byd cymathedig, mae sofraniaeth a theyrngarwch yn magu ystyron newydd. Mae teimladau o deyrngarwch yn fwy amlweddog heddiw nag yr oeddent ganrif yn ôl. Er enghraifft, gall rhywun deimlo teyrngarwch i Quebec ac i Ganada, heb groes-ddweud, gan gydnabod yr un pryd fod teyrngarwch byd-eang cynyddol mewn cadw heddwch, cyfiawnder rhyngwladol a diogelu'r amgylchedd yn mynegi cydnabyddiaeth o'r byd cyfan.

In Europe, it also seems that this multi-allegiance, arising in part from globalisation, has made it possible to feel, at the same time, an allegiance to Wales, the United Kingdom, Europe and, ultimately, to an evolving global ethic. The recognition that a higher degree of government centralisation no longer accords with the demands of globalisation is reflected in the adage, think globally, act locally. In Canada, this thinking has contributed to the assignment to our 10 provinces of powers far beyond those envisaged in 1867 at the time of the birth of Canada. More recently, the idea of thinking globally but acting locally has contributed to Canada's readiness to participate in various forms of transnational co-operation, all if you wish, derogations from traditional sovereignty, but all responding directly to that massive change encompassed in that single word—globalisation. Although globalisation may be unwelcome to some, technology alone will make certain that it is here to stay.

Permit me to take one example of how globalisation accords well with subsidiarity. In the work programme of your Assembly, I have noted the major emphasis that you have placed—if I may say so as an outsider—on quality of education and lifelong learning. In our Federation, that responsibility resides with our 10 provinces, there being in Canada no national ministry of education. Local teaching reflects local needs, but also international needs, the recognition that the new global economy is knowledge-based. Think globally, act locally.

We in Canada have followed with interest the workings of this Assembly during its first six months. There have been a few rough patches, but one does not create a new Assembly overnight. What has been achieved since the decision of the Welsh people to create this Assembly, and the politics of consensus, commands wide interest and respect. The Memorandum of Understanding

Yn Ewrop, mae hefyd yn ymddangos bod yr amldeyrngarwch hwn, sydd yn ganlyniad yn rhannol i gymathu byd-eang, wedi ei gwneud yn bosibl i deimlo, ar yr un pryd, deyrngarwch i Gymru, i'r Deyrnas Unedig, i Ewrop ac, yn y pen draw, i foeseg fyd-eang sydd yn datblygu. Gwelir y gydnabyddiaeth nad yw canoli helaeth ar lywodraeth yn cydfynd bellach â gofynion cymathu byd-eang yn y dywediad, meddyliwch yn fyd-eang, gweithredwch yn lleol. Yng Nghanada, mae'r meddylfryd hwn wedi cyfrannu at drosglwyddo llawer mwy o bwerau i'n 10 talaith nag a ragwelwyd yn 1867 ar enedigaeth Canada. Yn ddiweddarach, mae'r syniad o feddwl yn fyd-eang ond gweithredu'n lleol wedi cyfrannu at barodrwydd Canada i gyfranogi mewn gwahanol ffurfiau o gydweithredu rhyngwladol, bob un ohonynt, os mynnwch, yn lleihad ar sofraniaeth draddodiadol, ond pob un yn ymateb yn uniongyrchol i'r newid anferth hwnnw a gwmpasir yn yr un ymadrodd hwnnw—cymathu byd-eang. Er nad yw cymathu byd-eang yn dderbyniol i rai, efallai, bydd technoleg ar ei phen ei hun yn sicrhau ei fod yma i aros.

Caniatewch imi roi un enghraifft o'r modd y mae cymathu byd-eang yn cydfynd yn dda ag is-reolaeth. Yn rhaglen waith eich Cynulliad, nodais y pwyslais mawr a roesocho—os caf ddweud hynny fel un o'r tu allan—ar ansawdd addysg a dysgu ar hyd eich oes. Yn ein Ffederasiwn ni, mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n perthyn i'n 10 talaith, gan nad oes yng Nghanada weinyddiaeth addysg genedlaethol. Mae dysgu lleol yn adlewyrchu anghenion lleol, a hefyd anghenion rhyngwladol, y gydnabyddiaeth bod yr economi byd-eang newydd yn seiliedig ar wybodaeth. Meddyliwch yn fyd-eang, gweithredwch yn lleol.

Yr ydym ni yng Nghanada wedi ymddiddori yng ngwaith y Cynulliad hwn yn ystod ei chwe mis cyntaf. Aethpwyd drwy ychydig o gyfnodau gwael, ond ni chrëir Cynulliad newydd dros nos. Mae'r hyn a gyflawnwyd ers penderfyniad pobl Cymru i greu'r Cynulliad hwn a gwleidyddiaeth gonsensws, yn hawlio diddordeb a pharch ymysg llawer. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r

and the concordats regarding relations between Westminster, the Scottish Parliament, the Northern Ireland Assembly and the Welsh Assembly, including the innovative Council of the Isles, are complex documents but they are certainly an excellent starting point in multi-level Government, assisting in the day-to-day operation of the respective jurisdictions. Your Joint Ministerial Committee, whose mandate is to examine the various responsibilities at all levels, parallels in a way our own periodic federal-provincial conferences.

As part of our public affairs programme at the Canadian High Commission, we are launching 'Canada and Britain Today: Forum on Comparative Issues'. These round tables on government themes will begin in Cardiff in March and will be held throughout Britain. They should help us all to explore further, along with academics, legislators and officials, the issues central to good governance by examining the evolution and administration of both our systems.

Legislators, whether in Cardiff or London or Ottawa or Winnipeg, realise that there is a partnership between voters and several levels of government. Prime Minister Chrétien summed this up well in a recent international conference on federalism when he said

'the idea of partnership is central to our approach. The problems of modern government do not fall into the neat boxes of constitutional jurisdiction. While we must respect each other's jurisdictions and powers, we need to work together.'

As is stated in article 7 of your Memorandum of Understanding

'the administrations recognise the importance of co-operation across a range of areas. They also recognise that it may be appropriate for them to undertake activities on each other's behalf.'

cytundebau ynghylch cysylltiadau rhwng San Steffan, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru, gan gynnwys Cyngor arloesol yr Ynysoedd, yn ddogfennau cymhleth ond maent yn sicr yn fan cychwyn rhagorol mewn Llywodraeth aml-lefel, gan helpu yng ngwaith beunyddiol y gwahanol awdurdodaethau. Mae Cydbwyllgor y Gweinidogion, a'i fandad i edrych ar y gwahanol gyfrifoldebau ar bob lefel, yn adlewyrchu rywfodd ein cynadleddau ffederal-taleithiol cyfnodol ni.

Fel rhan o'n rhaglen materion cyhoeddus yn Uchel Gomisiwn Canada, yr ydym yn cychwyn 'Canada a Phrydain Heddiw: Fforwm ar Faterion Cymharol'. Bydd y cyfarfodydd bord gron hyn ar themâu llywodraeth yn dechrau yng Nghaerdydd ym mis Mawrth ac fe'u cynhelir ym mhob cwr o Brydain. Dylent fod yn gymorth i bob un ohonom edrych ymhellach, ynghyd ag academyddion, deddfwyr a swyddogion, ar y materion sydd yn hanfodol i drefn llywodraeth dda drwy ystyried datblygiad a gweinyddiaeth ein systemau ni ein dau.

Sylweddola'r deddfwyr, boed yng Nghaerdydd neu Lundain neu Ottawa neu Winnipeg, fod partneriaeth rhwng etholwyr a sawl lefel o lywodraeth. Crynowyd hyn yn dda gan y Prif Weinidog Chrétien mewn cynhadledd ryngwladol ddiweddar ar ffederaliaeth pan ddywedodd

'mae'r syniad o bartneriaeth yn ganolog i'n dull o weithredu. Nid yw problemau llywodraeth fodern yn disgyn i flichau taclus awdurdodaeth gyfansoddiadol. Er bod yn rhaid inni barchu awdurdodaeth a phwerau ein gilydd, mae angen inni gydweithio.'

Fel y dywedir yn erthygl 7 eich Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

'mae'r gweinyddiaethau yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu ar draws amrediad o feysydd. Maent hefyd yn cydnabod y gall fod yn briodol iddynt ymgymryd â gweithgareddau ar ran ei gilydd.'

This co-operation, flexibility and high level of maintenance is essential for effective government at all levels. The mechanisms for formal discussions set out in your Memorandum of Understanding do not include the innumerable informal contacts among politicians and officials, which take place naturally on a daily basis. This co-operation is the lubricant for the machinery of government. In Canada, this dispute-resolution process is often more efficient when representatives of the various levels talk to each other informally. Much more can be resolved when the lines are not drawn in the sand. As Canada's Intergovernmental Affairs Minister said

'It is true that our federation sometimes produces friction between governments, and headaches for federal and provincial politicians and bureaucrats. In the long run, however, it produces a synergy which allows us to promote more effectively the economic, cultural and other interests of all Canadians, within Canada and around the world.'

This same synergy should emerge gradually from the devolution of powers in the United Kingdom and, if applied properly, can be a force for the benefit of Wales in particular and Britain in general.

As a practitioner of international affairs and a representative of a friendly country, I will say a few words on provincial involvement in international affairs. In Canada this matter can sometimes become delicate. In Wales there are certain areas where, presumably, British foreign policy is of great interest, especially in ensuring, for example, that Wales derives maximum benefit from United Kingdom membership of the European Union. As a former Minister of Trade, I know that specific areas of a country seek to be consulted on aspects of foreign policy in light of possible local or regional impact. However, foreign policy and international trade policies are not devolved areas in Britain or Canada. Our experience in Canada and my personal experience is that Canadian foreign policy does reflect the interest of our

Mae'r cydweithrediad a'r hyblygrwydd a'r lefel uchel o gynhaliath o'r fath yn hollbwysig ar gyfer llywodraethu effeithiol ar bob lefel. Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer trafodaethau ffurfiol a nodir yn eich Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys y cysylltiadau anffurfiol dirifedi ymysg gwleidyddion a swyddogion, sydd yn digwydd yn naturiol bob dydd. Y cydweithrediad hwn sydd yn iro peirianwaith llywodraeth. Yng Nghanada, bydd y broses datrys anghydfod hon yn fwy effeithlon yn aml pan fydd cynrychiolwyr o'r gwahanol lefelau yn siarad â'i gilydd yn anffurfiol. Gellir datrys llawer mwy pan na osodir terfynau. Fel y dywedodd Gweinidog Materion Rhynglywodraethol Canada

'Mae'n wir bod ein cyfundeb ar adegau yn creu drwgdeimlad rhwng llywodraethau, ac anawsterau ar gyfer gwleidyddion a biwrocratiaid ffederal a thaleithiol. Yn y tymor hir, fodd bynnag, mae'n creu synergedd sydd yn ein galluogi i hyrwyddo yn fwy effeithiol fuddiannau economaidd, diwylliannol ac eraill pob Canadiad, yng Nghanada a ledled y byd.'

Fe ddylai'r un synergedd ddod i'r golwg yn raddol oddi wrth ddatganoli pwerau yn y Deyrnas Unedig ac, os defnyddir ef yn briodol, gall fod yn rym er lles Cymru yn benodol a Phrydain yn gyffredinol.

Fel un sydd yn trin materion rhyngwladol ac yn cynrychioli gwlad gyfeillgar, dywedaf ychydig eiriau ar ran y taleithiau mewn materion rhyngwladol. Gall y mater hwn fod yn sensitif weithiau yng Nghanada. Yng Nghymru ceir rhai meysydd lle y mae polisi tramor Prydain o ddiddordeb mawr, yn ôl pob tebyg, yn enwedig, er enghraifft, wrth sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf posibl o aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Fel cyn-Weinidog Masnach, gwn y bydd rhanbarthau neilltuol o wlad yn gofyn am ymgynghori ar agweddau ar bolisi tramor yng ngoleuni'r effaith bosibl ar ardal neu ranbarth. Fodd bynnag, nid yw polisi tramor a pholisiau masnach ryngwladol yn feysydd a ddatganolwyd ym Mhrydain nac yng Nghanada. Y profiad a gawsom yng Nghanada a'm profiad personol i yw bod

10 provinces. We have mechanisms for formal consultations but, as I know through experience, the informal network can operate vigorously when necessary. Representatives from provincial governments are regularly invited to participate in Canadian delegations. If there are no provincial representatives present, the national representatives keep the provinces informed and consulted on Canada's negotiating positions. It is a co-operative, pragmatic, balanced approach which, generally, has served us well.

Equally, in the new global economy, successful societies will be those that can adapt and take advantage of rapid change, that are flexible and creative and that manage change rather than being overwhelmed by it. We are witnessing a fundamental shift in our economies and societies. For example, coal and steel are no longer the cornerstones of our industries, and the fishing and agriculture industries are declining. The cornerstone of the new economy is knowledge, which frequently finds expression in innovative small enterprises. The most valuable assets of the new economy are the creative skills of our people, a factor which has played a major part in Canadian economic relations with Wales. The fact that Canadian investment in Wales focuses primarily on the high-tech sector is testimony to the way in which Canada and Wales have positioned themselves to thrive in the new knowledge-based, globalised economy. European Union grants to much of Wales, when matched by local funding, can offer the opportunity to help transform Wales's economy, as they have, for example, helped to transform the economy of Ireland.

Today, 75 Welsh manufacturing companies export to Canada. A good half of them are in the high-technology sector. Canadian companies, including small enterprises that seek joint ventures, recognise Wales's competitiveness as a location for manufacturing and service industries. Wales is a gateway to the European Union for

polisi tramor Canada yn adlewyrchu buddiannau ein 10 talaith. Mae gennym fecanweithiau ar gyfer ymgynghoriadau ffurfiol ond, fel y gwn o brofiad, gall y rhwydwaith anffurfiol weithio'n egniol pan fo angen. Bydd cynrychiolwyr o lywodraethau taleithiol yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i fod yn rhan o ddirprwyaethau o Ganada. Os nad oes cynrychiolwyr taleithiol yn bresennol, bydd y cynrychiolwyr cenedlaethol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r taleithiau ac yn ymgynghori â hwy ar safbwyntiau trafod Canada. Mae'n ddull gweithredu cydweithredol, ymarferol, cytbwys y bu'n dda inni wrtho, ar y cyfan.

Yn yr un modd, yn yr economi byd-eang newydd, y cymdeithasau llwyddiannus fydd y rhai hynny sydd yn gallu ymaddasu a manteisio ar newid cyflym, sydd yn hyblyg ac yn greadigol ac sydd yn rheoli newid yn hytrach na chael eu llethu ganddo. Yr ydym yn gweld symudiad sylfaenol yn ein heconomiâu a'n cymdeithasau. Er enghraifft, nid glo a dur yw conglfeini'n diwydiannau erbyn hyn, ac mae'r diwydiannau pysgota ac amaethu'n dirywio. Conglfaen yr economi newydd yw gwybodaeth, ac amlygir hynny'n aml drwy fentrau bychain arloesol. Asedau mwyaf gwerthfawr yr economi newydd yw medrau creadigol ein pobl, ffactor a chwaraeodd ran bwysig yng nghysylltiadau economaidd Canada â Chymru. Mae'r ffaith bod y buddsoddiad o Ganada yng Nghymru'n canolbwyntio'n bennaf ar y sector technoleg uwch yn brawf o'r modd y mae Canada a Chymru wedi ymbaratoi i ffynnu yn yr economi byd-eang newydd sydd yn seiliedig ar wybodaeth. Bydd grantiau'r Undeb Ewropaidd i ran helaeth o Gymru, pan geir cyllid lleol cyfatebol, yn gallu cynnig cyfle i helpu i drawsnewid economi Cymru, fel y maent wedi helpu i drawsnewid economi Iwerddon, er enghraifft.

Heddiw, mae 75 o gwmnïau cynhyrchu Cymreig yn allforio i Ganada. Mae cryn hanner ohonynt yn y sector technoleg uwch. Mae cwmnïau o Ganada, yn cynnwys busnesau bychain sydd yn ceisio dechrau mentrau ar y cyd, yn cydnabod mor gystadleuol yw Cymru fel lleoliad ar gyfer diwydiannau cynhyrchu a gwasanaethu. Mae

world-class Canadian companies such as Nortel, Mitel, Newbridge, Corel, INCO and Alcan. Today, more than half of all Canadian investment in Europe is in Britain. As part of that substantial investment, 18 plants are operated by 12 Canadian-owned companies in Wales. That makes Canada the third largest foreign investor in Wales.

I want to mention Canada's experience as a bilingual country. Canada and Wales face the challenge of nourishing bilingualism in a multi-cultural society. Language is the interpreter of culture, which in turn is so much a part of self-definition. That is why bilingualism is an integral part of our society's character. Protecting and enhancing both language groups are the essence of bilingualism. In Canada, education is in two languages. I am not suggesting that we are all bilingual—I wish that we were—but I mean that the fostering of language and, by extension, culture, is best done in a nation state where many powers, including those of education, are devolved. Traditions and understandings that benefit the state as a whole, and that can reinforce subsidiarity as powers, are passed up to supranational institutions and are thereby nourished. I do not offer Canada as an example in this regard—we have made many errors in the past. However, our experience of a functioning bilingual state may be of continuing interest to you, as it was when your Assembly elections were approaching and there were exchanges with federal officials and officials from the province of New Brunswick.

Bearing in mind difficulties that are often related to distance and number, Canada's bilingual policy is an asset and a reflection of our cultural diversity. The recognition given to the Welsh language in your institutions is a sign of a society that is tolerant with the expression of difference. It is an asset that must be cherished and promoted.

Cymru'n fynedfa i'r Undeb Ewropeaidd i gwmnïau byd-eang o Ganada fel Nortel, Mitel, Newbridge, Corel, INCO ac Alcan. Heddiw, mae mwy na hanner holl fuddsoddiad Canada yn Ewrop ym Mhrydain. Fel rhan o'r buddsoddiad sylweddol hwnnw, gweithredir 18 gwaith gan 12 cwmni dan berchnogaeth Ganadaidd yng Nghymru. Golyga hynny mai Canada yw'r trydydd buddsoddwr tramor mwyaf yng Nghymru.

Yr wyf am sôn am brofiad Canada fel gwlad ddwyieithog. Mae Canada a Chymru'n wynebu'r her o feithrin dwyieithrwydd mewn cymdeithas amlddiwylliannol. Iaith yw dehonglydd diwylliant, sydd yn ei dro'n gymaint rhan o hunaniaeth. Dyna pam y mae dwyieithrwydd yn rhan hanfodol o gymeriad ein cymdeithas. Diogelu a hyrwyddo'r ddau grŵp ieithyddol yw hanfod dwyieithrwydd. Yng Nghanada, ceir addysg mewn dwy iaith. Nid wyf yn awgrymu bod pawb ohonom yn ddwyieithog—byddai'n dda gennyf pe baem felly—ond yr hyn a olygaf wrth hynny yw y meithrinir iaith orau, a diwylliant o ganlyniad i hynny, mewn cenedl-wladwriaeth lle y mae llawer o bwerau, gan gynnwys rhai sydd yn ymwneud ag addysg, wedi eu datganoli. Bydd traddodiadau ac amgyffrediaid sydd o fudd i'r wladwriaeth gyfan, ac sydd yn gallu atgyfnerthu is-reolaeth fel pwerau, yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau rhyngwladol gan eu maethu drwy hynny. Ni chynigaf Ganada yn esiampl yn hyn o beth—gwnaethom lawer o gamgymeriadau yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ein profiad o wladwriaeth ddwyieithog weithredol yn parhau i fod o ddiddordeb i chi, fel yr oedd pan oedd etholiadau'ch Cynulliad yn nesáu pan gafwyd cysylltiadau â swyddogion ffederal a swyddogion o dalaith New Brunswick.

Gan gofio'r anawsterau sydd mor aml yn gysylltiedig â phellter a niferoedd, mae polisi dwyieithog Canada yn gaffaeliad ac yn adlewyrchu ein hamrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r gydnabyddiaeth a roddir i'r iaith Gymraeg yn eich sefydliadau'n arwydd o gymdeithas sydd yn oddefgar o'r mynegiant o wahaniaeth. Mae'n gaffaeliad y dylid ei drysori a'i hyrwyddo.

Recalling my years in Parliament, I was about to address you as Mr Speaker. I shall try to be more correct and say, Mr Presiding Officer, I thank you very much for inviting me to be with you today. Through our High Commission in London and with the able assistance of our honorary consul here in Wales, Dan Clayton-Jones, the Government of Canada is ready to do all that it can to contribute to the Assembly's success in fulfilling its important mandate, and to the strengthening of the growing Wales-Canada ties in all their productive diversity.

Y Prif Ysgrifennydd: Diolch ichi, Uchel Gomisiynydd, am eich diddordeb yng Nghymru ac yn ein Cynulliad newydd. Croeso unwaith eto i Gymru.

I said 'once more' because, High Commissioner Roy MacLaren, this is not the first time that you have been to Wales. You have shown a great interest in us over a period of time. Roy is a man who knows whose side he is on. If Canada and Scotland are not playing, he supports Wales, especially when we are playing against England. We know where we are with you, Roy.

You see before you a very young democracy. The National Assembly for Wales was set up only six months ago. It has been a long six months for some of us, but it is a milestone in the history of our country and—as you remarked—that of the United Kingdom. When I visit another parliament or assembly it always strikes me that we are the same in so many ways, yet different in others. In your House of Commons you see the confrontational configuration of the House of Commons in London, but spread over a much bigger area. You suggested that this might be so that missiles could not be thrown from one side to another. Certainly nothing indicating two swords' lengths between. It is disappointing to realise that, with the size of that legislature, you would not be able to see the whites of the eyes of those on the other side.

We have a different type of configuration

Gan ddwyn i gof y blynyddoedd a gefais yn y Senedd, yr oeddwn ar fin eich cyfarch fel Mr Llefarydd. Ceisiaf fod yn gywirach a dweud, Mr Llywydd, fy mod yn diolch yn fawr ichi am fy ngwahodd i fod gyda chi heddiw. Drwy ein Huchel Gomisiwn yn Llundain a chyda chymorth medrus ein his-gennad mygedol yma yng Nghymru, Dan Clayton-Jones, mae Llywodraeth Canada'n barod i wneud popeth yn ei gallu i gyfrannu at lwyddiant y Cynulliad wrth iddo gyflawni ei fandad pwysig, ac at gryfhau'r cysylltiadau sydd yn tyfu rhwng Cymru a Chanada yn eu holl amrywiaeth gynhyrchiol.

The First Secretary: Thank you, High Commissioner, for your interest in Wales and in our new Assembly. Welcome once more to Wales.

Dywedais 'unwaith eto', Uchel Gomisiynydd Roy MacLaren, oherwydd nid hwn yw'r tro cyntaf ichi fod yng Nghymru. Yr ydych wedi ymddiddori'n fawr ynom dros gyfnod o amser. Mae Roy yn ddyn sydd yn sicr ynghylch pa ochr y mae'n ei chefnogi. Os nad yw Canada na'r Alban yn chwarae, bydd yn cefnogi Cymru, yn enwedig pan ydym yn chwarae yn erbyn Lloegr. Yr ydym yn deall ein gilydd i'r dim, Roy.

Mae'r hyn a welwch o'ch blaen yn ddemocratiaeth ifanc iawn. Nid oes ond chwe mis er pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bu'n chwe mis hir i rai ohonom, ond mae'n garreg filltir yn hanes ein gwlad ac—fel y bu ichi nodi—hanes y Deyrnas Unedig. Pan ymwelaf â senedd neu gynulliad arall, mae'n fy nharo bob amser ein bod yr un peth mewn llawer ffordd, ond yn wahanol mewn eraill. Yn eich Tŷ'r Cyffredin gwelir y cyfluniad cyfwynebiadol a geir yn Nhŷ'r Cyffredin yn Llundain, ond mewn lle ehangach o lawer. Awgrymasoch mai'r rheswm am hynny, efallai, oedd er mwyn sicrhau na ellid taflu pethau o un ochr i'r llall. Yn sicr, nid oes dim i nodi dau hyd cleddyf rhyngddynt. Siom yw sylweddoli, mewn deddfwrfa o'r maint hwnnw, na allech weld gwyn llygaid y rhai ar yr ochr arall.

Mae gennym gyfluniad o fath gwahanol yma

here and we are trying to develop a new approach to politics in our young Assembly—a partnership approach and, as you said, a consensual approach. We believe that this is what the people of Wales want, and that this is the way to make progress. However, your initiative to stimulate debate is welcomed because we have much to learn. Learning from others who are engaged in the same endeavours of trying to make democracy work is among the best ways of making progress.

As a small nation, we look to our friends across the globe—and we have many friends. We do not always treat them well. Knowing that you have an expert knowledge of the lives of wizards and an esoteric knowledge of action by Canadians behind enemy lines, we have not treated you as we did the Premier of New South Wales. He spent a day in the Brecon Beacons with rain pouring down his face. However, we look to Canada for friendship, cultural links and collaboration on social programmes. We seek to learn and share the lessons of good government and hope to strengthen our economic links, which are vital to both our countries.

On my visit to Canada in March of this year, I was struck by the similarities and the common interests of our two countries, particularly in Ontario—our partner region—but also in other regions. I was also struck by the enthusiasm for Wales and the number of people who revealed a contact, an experience or an ancestry that gave them an interest in Wales. I first went to Canada as a member of a Commonwealth Parliamentary Association delegation, and formed a strong friendship with David Warner, the then Speaker of the Ontario Parliament. His daughter came to work for me in the House of Commons for a while. As a reward for that, we gave him the unique experience of speaking to the plenary session of the Cardiff South and Penarth Labour Party.

As you visit some of our communities and business successes, you will find that some are joint successes. Canadian companies are

ac yr ydym yn ceisio datblygu ymagwedd newydd at wleidyddiaeth yn ein Cynulliad ifanc ni—gweithredu drwy bartneriaeth ac, fel y dywedasoeh, drwy gonsensws. Credwn mai hynny yw dymuniad pobl Cymru, ac mai hon yw'r ffordd i symud ymlaen. Fodd bynnag, mae'ch menter i symbylu trafodaeth i'w chroesawu oherwydd mae gennym lawer i'w ddysgu. Dysgu oddi wrth eraill sydd yn ymwneud â'r un ymdrechion i geisio cael democratiaeth i weithio yw un o'r dulliau gorau i symud ymlaen.

Fel cenedl fechan, yr ydym yn dibynnu ar ein ffrindiau drwy'r byd—ac mae gennym lawer o ffrindiau. Ni fyddwn bob amser yn eu trin yn dda. Gan wybod bod gennych wybodaeth arbenigol am hanes dewiniaid a gwybodaeth esoterig am yr ymladd gan Ganadiaid y tu ôl i rengoedd y gelyn, nid ydym wedi'ch trin yn yr un modd â Phrif Weinidog De Cymru Newydd. Treuliodd ddiwrnod ym Mannau Brycheiniog a'r glaw'n diferu i lawr ei wyneb. Fodd bynnag, yr ydym yn dibynnu ar Ganada am gyfeillgarwch, cysylltiadau diwylliannol a chydweithio ar raglenni cymdeithasol. Ceisiwn ddysgu a rhannu gwersi llywodraeth dda a gobeithiwn gryfhau ein cysylltiadau economaidd, sydd yn hanfodol i'n dwy wlad.

Ar fy ymweliad â Chanada ym mis Mawrth eleni, fe'm trawyd gan y cyffelybiaethau a'r diddordebau sydd yn gyffredin i'n dwy wlad, yn enwedig yn Ontario—y rhanbarth sydd yn bartner inni—ond hefyd mewn rhanbarthau eraill. Cefais fy nharo gan y brwdfrydedd ynghylch Cymru a'r nifer a ddatgelodd fod ganddynt ryw gysylltiad, profiad neu dras a olygai fod ganddynt ddiddordeb yng Nghymru. Euthum gyntaf i Ganada yn aelod o ddirprwyaeth o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a ffurfio cyfeillgarwch cadarn â David Warner, oedd yn Llefarydd Senedd Ontario ar y pryd. Daeth ei ferch i weithio i mi yn Nhŷ'r Cyffredin am ychydig. Yn wobwr am hynny, rhoesom y profiad unigryw iddo o siarad yng nghyfarfod llawn Plaid Lafur De Caerdydd a Phenarth.

Pan ymwelwch â rhai o'n cymunedau a'n busnesau llwyddiannus, fe welwch fod rhai ohonynt yn llwyddiannau ar y cyd. Mae

investing in Wales. We have a shared interest in economic success. We are looking forward to the twenty-first century with a new optimism and a strong sense of our place in the world. I hope that you and your wife Lee, or Aletha if we are being formal, will take back to the people and regions of Canada greetings from the National Assembly for Wales and a message of friendship and goodwill. Thank you for your continued interest in Wales. Long may it continue.

cwmnïau o Ganada'n buddsoddi yng Nghymru. Mae gennym gyd-ddiddordeb mewn llwyddiant economaidd. Edrychwn ymlaen at yr unfed ganrif ar hugain gyda gobaith newydd ac ymdeimlad cryf o'n lle yn y byd. Gobeithiaf y byddwch chi a'ch gwraig Lee, neu Aletha i fod yn ffurfiol, yn dychwelyd â chyfarchion i bobl a rhanbarthau Canada oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru a neges o gyfeillgarwch ac ewyllys da. Diolchaf i chi am eich diddordeb parhaol yng Nghymru. Hir y parhaed.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2.09 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2.09 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Mynediad i Adeilad Newydd y Cynulliad (Ymgynghori) Access to the New Assembly Building (Consultation)

Q1 Carwyn Jones: What consultation will take place before the building of the new Assembly building to ensure access for all? (OAQ2264)

The First Secretary: I have given a clear commitment that the new Assembly building will be exemplary in terms of providing access and facilities, particularly for disabled people. That view has been expressed by Members right across the parties in this Assembly, and that is a priority for all of us. We will comply with all building regulations relating to disability and access issues, but we must go beyond the stated level of provision.

Comments were invited from Disability Wales and others in order to understand concerns about the original design concept and to inform the later stages of design work. That process will continue, with the design being developed to address the problems raised. Further discussions with those organisations will be held shortly on the ideas that have been brought forward. The high level concerns already expressed by Assembly Members and disability interest groups about the concept design are being addressed and the Richard Rogers Partnership has been working on revised options to address those concerns. Those options will be put to the party leaders and the Presiding Officer shortly through the Policy Steering Group and then brought to the attention of the full Assembly.

Carwyn Jones: Recently, a meeting was held in the Assembly building with representatives from the Royal National Institute for the Blind. The problems faced by blind and partially sighted people in this building are remarkable. There is a lack of

C1 Carwyn Jones: Pa ymgynghori a geir cyn codi adeilad newydd y Cynulliad er mwyn sicrhau mynediad i bawb? (OAQ2264)

Y Prif Ysgrifennydd: Rhoddais ymrwymiad pendant y bydd adeilad newydd y Cynulliad yn batrwm o ran darparu mynediad a chyfleusterau, yn enwedig i bobl anabl. Mynegwyd y farn honno gan Aelodau ar draws y pleidiau yn y Cynulliad hwn, ac mae hynny'n flaenoriaeth i bawb ohonom. Byddwn yn cydymffurfio â'r holl reoliadau adeiladu mewn cysylltiad â materion anabledd a mynediad, ond rhaid inni fynd ymhellach na'r lefel ddarpariaeth a nodwyd.

Gofynnwyd am sylwadau oddi wrth Anabledd Cymru ac eraill er mwyn deall y pryderon ynghylch y cysyniad dylunio gwreiddiol ac i oleuo camau diweddarach yn y gwaith dylunio. Bydd y broses honno'n parhau, a datblygir y dyluniad i ymdrin â'r problemau a godir. Cynhelir trafodaethau pellach â'r mudiadau hynny cyn hir ynghylch y syniadau a gyflwynwyd. Mae'r pryderon lefel uchel a fynegwyd eisoes gan Aelodau'r Cynulliad a'r grwpiau diddordeb ar anabledd ynghylch cysyniad y dyluniad yn derbyn sylw a bu'r Richard Rogers Partnership yn gweithio ar ddewisiadau diwygiedig i ymdrin â'r pryderon hynny. Rhoddir y dewisiadau hynny gerbron arweinyddion y pleidiau a'r Llywydd cyn hir drwy'r Grŵp Llywio Polisi a'u cyflwyno wedyn i sylw'r Cynulliad cyfan.

Carwyn Jones: Cynhaliwyd cyfarfod, yn ddiweddar, yn adeilad y Cynulliad gyda chynrychiolwyr o Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion. Mae pobl ddall a rhannol ddall yn wynebu problemau nodedig yn yr adeilad hwn. Ceir diffyg cyferbyniad

colour contrast and absence of luminous lines on the steps, making it difficult for visually impaired people to use them. There are also difficulties with the fire doors. Is it possible to make a commitment at this stage that consultation will take place with as many groups representing the disabled as possible?

The First Secretary: Yes. I recently had the opportunity to visit the RNIB offices and discuss some of those issues informally. At my request, officials are talking to the RNIB and other groups about how this building can be improved. Even more importantly, as there are constraints on the adaptation of an existing building, those issues will be taken into account in the design of the new building. We will have more information for the Assembly shortly.

Helen Mary Jones: Is the First Secretary aware that, despite the consultations that he has outlined, there is continuing disquiet among disabled groups in Wales about the design of the new building? Have the discussions with the Richard Rogers Partnership addressed the symbolic significance of the steps, which not only present practical difficulties to disabled people but are perceived by them as a symbol of their oppression? Would he consider allowing the Committee on Equality of Opportunity also to have direct contact, in whatever form he and his colleagues feel is appropriate, with the building's designers in order to ensure that the symbolic issues as well as the practical ones of access are considered?

The First Secretary: We ought to understand that we do not yet have a finished design. I am sure that Helen Mary Jones would accept that when a building is designed in public, sequentially and openly, the design sometimes develops ahead of people's perception of it. I accept that the last public design available for people to look at appears impenetrable. That point has been raised by disability groups. Since the initial discussions, the architects have been considering options. As I said earlier, those

rhwng lliwiau ac nid oes llinellau golau ar y grisiau, sydd yn ei gwneud yn anodd i rai â nam ar eu golwg eu defnyddio. Mae problemau hefyd ynglŷn â'r drysau tân. A oes modd gwneud ymrwymiad ar hyn o bryd y bydd ymgynghori â chynifer ag y bo modd o grwpiau sydd yn cynrychioli'r anabl?

Y Prif Ysgrifennydd: Oes. Cefais gyfle yn ddiweddar i ymweld â swyddfeydd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a thrafod rhai o'r materion hynny'n anffurfiol. Ar fy nghais, mae swyddogion yn siarad â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a grwpiau eraill ynghylch sut y gellir gwella'r adeilad hwn. Yn bwysicach fyth, gan fod cyfyngiadau ar addasu adeilad sydd eisoes yn bod, cymerir y materion hynny i ystyriaeth wrth ddylunio'r adeilad newydd. Cawn fwy o wybodaeth i'r Cynulliad cyn hir.

Helen Mary Jones: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol bod anniddigrwydd o hyd ymysg grwpiau'r anabl yng Nghymru, er gwaethaf yr ymgynghori a amlinellodd, ynghylch dyluniad yr adeilad newydd? A roddwyd sylw yn y trafodaethau â'r Richard Rogers Partnership i arwyddocâd symbolaidd y grisiau, sydd nid yn unig yn codi anawsterau ymarferol i bobl anabl ond a welir ganddynt hefyd yn symbol o'r gorthrwm sydd arnynt? A fyddai'n ystyried caniatáu i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal gael cysylltiad uniongyrchol hefyd, ar ba bynnag ffurf y mae ef a'i gydweithwyr yn teimlo sydd yn briodol, â dylunwyr yr adeilad er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r materion symbolaidd yn ogystal â rhai ymarferol mynediad?

Y Prif Ysgrifennydd: Dylem ddeall nad oes gennym gynllun gorffenedig eto. Yr wyf yn sicr y byddai Helen Mary Jones yn derbyn, pan gynllunir adeilad yn gyhoeddus, yn ddilyniannol ac yn agored, y bydd y cynllun weithiau'n datblygu o flaen amgyffrediad pobl ohono. Derbyniaf fod y cynllun cyhoeddus diwethaf a oedd ar gael i'w weld gan bobl yn ymddangos yn anrheiddiadwy. Codwyd y pwynt hwnnw gan grwpiau anabledd. Ers y trafodaethau cyntaf, mae'r penseiri wedi bod yn ystyried dewisiadau.

options will come to the Presiding Officer and the party leaders shortly, as soon as they are in a form that will show us precisely what is proposed. With the Policy Steering Group's agreement, it would then be my intention to bring the proposals forward for wider discussion by all Assembly Members. It may well be helpful for the Committee on Equality of Opportunity, if it so wishes, to look at them. Jane Hutt is nodding. If the two of you are in agreement, that strikes me as a good starting point.

Glyn Davies: I was reassured by the First Secretary's original answer to Carwyn Jones. However, I ask about the cost of the Assembly. The last time I asked him about this issue—

The Presiding Officer: Order.

Glyn Davies: The cost of the new building, I am sorry. This is about the design and equal opportunities. I would not dream of asking a question that was not productive. The last time I asked a question on this, the First Secretary was a little evasive—

The First Secretary: Shame on you.

Glyn Davies: Will you reassure us that any changes to the building, including designs to allow for access for the disabled, will not take the cost above the estimated £17-20 million?

The First Secretary: It would be unwise to make absolute predictions or give absolute guarantees on the construction of any building. I assure Glyn that the matter will be addressed, as promised, by the group that we set up for that purpose. It is currently waiting to view some design work. The Assembly will be informed on the process. One of my priorities is to ensure that we do not waste any money on the building. However, it is important to get access right, in terms of practicalities and perception.

Fel y dywedais yn gynharach, daw'r dewisiadau hynny gerbron y Llywydd ac arweinyddion y pleidiau cyn hir, cyn gynted ag y byddant ar ffurf a fydd yn dangos inni beth yn union sydd yn cael ei gynnig. Gyda chytundeb y Grŵp Llywio Polisi, fy mwrriad wedyn fyddai cyflwyno'r cynigion i'w trafod ymhellach gan holl Aelodau'r Cynulliad. Mae'n ddigon posibl y byddai o gymorth i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal edrych arnynt, os yw'n dymuno. Mae Jane Hutt yn nodio. Os yw'r ddwy ohonoch yn cytuno, mae hynny'n ymddangos yn fan cychwyn da.

Glyn Davies: Cefais fy nghalonogi gan ateb gwreiddiol y Prif Ysgrifennydd i Carwyn Jones. Fodd bynnag, gofynnaf ynghylch cost y Cynulliad. Y tro diwethaf imi ei holi am y mater hwn—

Y Llywydd: Trefn.

Glyn Davies: Cost yr adeilad newydd, mae'n ddrwg gennyf. Mae hyn yn ymwneud â'r cynllun a chyfle cyfartal. Ni freuddwydiwn am ofyn cwestiwn nad oedd yn gynhyrchiol. Y tro diwethaf imi ofyn cwestiwn ar hyn, yr oedd y Prif Ysgrifennydd braidd yn ochelgar—

Y Prif Ysgrifennydd: Rhag cywilydd ichi.

Glyn Davies: A fyddwch yn rhoi sicrwydd inni na fydd unrhyw newidiadau i'r adeilad, gan gynnwys cynlluniau i ganiatáu mynediad i'r anabl, yn codi'r gost yn uwch na'r amcangyfrif o £17-20 miliwn?

Y Prif Ysgrifennydd: Annoeth fyddai gwneud proffwydoliaethau diamod neu roi gwarantau diamod ynghylch codi unrhyw adeilad. Rhoddaf sicrwydd i Glyn y caiff y mater ei drafod, fel yr addawyd, gan y grŵp a sefydlwyd gennym i'r diben hwnnw. Ar hyn o bryd mae'n disgwyl i weld gwaith cynllunio. Rhoddir gwybod i'r Cynulliad am y broses. Un o'm blaenoriaethau yw sicrhau na wastraffwn unrhyw arian ar yr adeilad. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael mynediad yn iawn, yn ymarferol ac o ran y modd y'i gwelir.

Adroddiad ar Garchar y Parc (Trafodaethau)
Report on Parc Prison (Discussions)

Q2 Jenny Randerson: What discussions has the First Secretary had with the Minister responsible for prisons about issues relating to Wales that were raised in the report on Parc Prison, Bridgend by Sir David Ramsbotham? (OAQ2273)

The First Secretary: It is for Her Majesty's Prison Service and the Home Office to address the issues raised in the inspection report, not this Assembly. I have not discussed this matter with Paul Boateng as the Minister of State whose portfolio includes prisons and probation. However, I have asked officials to study the report in case it touches on wider issues that may inform the Assembly's work. I understand that the prison authorities are taking steps to address the concerns raised by Sir David Ramsbotham.

Jenny Randerson: The report referred to the need for a Welsh prisons strategy, which I accept is not a direct responsibility of this Assembly. However, we should take an interest in this matter because there are only four prisons in Wales, and none for women. We are at a disadvantage in Wales because Welsh families have to travel long distances to reach relatives in English prisons. Furthermore, are you aware that there is ongoing concern about inadequate secure accommodation for juvenile offenders in Wales?

The First Secretary: These issues are important, but I am sure Jenny would accept that prison operations or strategies are not our direct responsibility. However, issues do overlap with our responsibilities. Rehabilitating prisoners and helping them back into the community is a matter for the wider community. That is why I have asked officials to look at the report to see if there are issues that impinge on our responsibilities and priorities.

C2 Jenny Randerson: Pa drafod a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a'r Gweinidog sydd yn gyfrifol am garchardai ynghylch y materion yn ymwneud â Chymru a godwyd yn adroddiad Syr David Ramsbotham ar Garchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr? (OAQ2273)

Y Prif Ysgrifennydd: Mater i Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Gartref yw ymdrin â'r materion a godwyd yn adroddiad yr archwiliad, nid y Cynulliad hwn. Ni thrafodais y mater hwn gyda Paul Boateng fel y Gweinidog Gwladol y mae ei bortffolio'n cynnwys carchardai a phrofiannaeth. Fodd bynnag, yr wyf wedi gofyn i swyddogion astudio'r adroddiad rhag ofn ei fod yn crybwyll materion ehangach a allai oleuo gwaith y Cynulliad. Deallaf fod awdurdodau'r carchar yn cymryd camau i ateb y pryderon a fynegwyd gan Syr David Ramsbotham.

Jenny Randerson: Cyfeiriodd yr adroddiad at yr angen am strategaeth garchardai i Gymru, y derbyniaf nad yw'n gyfrifoldeb uniongyrchol i'r Cynulliad hwn. Fodd bynnag, dylem ymddiddori yn y mater hwn oherwydd nid oes ond pedwar carchar yng Nghymru, a'r un ohonynt i fenywod. Yr ydym dan anfantais yng Nghymru oherwydd rhaid i deuluoedd o Gymru deithio'n bell i gyrraedd perthnasau sydd mewn carchardai yn Lloegr. Yn ogystal â hynny, a ydych yn ymwybodol bod pryder parhaus ynghylch y llety cadw annigonol i droseddwr ifainc yng Nghymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r materion hyn yn bwysig, ond yr wyf yn sicr y byddai Jenny yn derbyn nad yw gwaith neu strategaethau carchardai'n gyfrifoldeb uniongyrchol i ni. Fodd bynnag, mae materion yn gorgyffwrdd â'n cyfrifoldebau. Mae ailsefydlu troseddwr a helpu i ddod â hwy yn ôl i'r gymuned yn fater i'r gymuned ehangach. Dyna pam yr wyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar yr adroddiad i weld a oes materion sydd yn effeithio ar ein cyfrifoldebau a'n blaenoriaethau.

Janet Davies: Have you had any discussions with the appropriate Minister about transferring the responsibility for prisons in Wales to this Assembly?

The First Secretary: No, I have not. That would not be sensible. The management and operation of the Prison Service, which I have observed over the years, is extremely complex in terms of meeting the requirements throughout England and Wales, particularly given the nature of our geography. A Welsh prison service could create an enormous number of problems. Some responsibilities are better dealt with on an England-Wales or UK-wide basis. The Prison Service can be managed more sensibly across England and Wales as long as the issues affecting Welsh individuals and communities are addressed sensitively and properly.

Alun Pugh: Many of us are concerned about overcrowding in British prisons. Will you, as First Secretary, call for the early release of Jonathan Aitken to make room in the cells for Jeffrey Archer? [*Laughter.*]

The First Secretary: I have noticed that Alun Pugh wants to see symmetry in all things. Clearly, this issue is one of those, but it is not appropriate for me to comment on his suggestion.

Janet Davies: A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau â'r Gweinidog priodol ynghylch trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros garchardai yng Nghymru i'r Cynulliad hwn?

Y Prif Ysgrifennydd: Naddo. Ni fyddai hynny'n ddoeth. Mae rheolaeth a gwaith y Gwasanaeth Carchardai, yr wyf wedi sylwi arnynt dros y blynyddoedd, yn gymhleth iawn o ran ateb y gofynion drwy Gymru a Lloegr, yn enwedig oherwydd natur ein daearyddiaeth. Gallai gwasanaeth carchardai Cymreig greu nifer anferth o broblemau. Mae'n well trin rhai cyfrifoldebau ar sail Cymru-Lloegr neu ar draws y DU. Gellir rheoli'r Gwasanaeth Carchardai'n fwy synhwyrol ar draws Cymru a Lloegr cyn belled ag y bydd y materion sydd yn effeithio ar unigolion a chymunedau yng Nghymru yn cael eu trafod yn sensitif ac yn briodol.

Alun Pugh: Mae llawer ohonom yn bryderus ynghylch gorlenwi yng ngharchardai Prydain. Fel Prif Ysgrifennydd, a fyddwch yn galw am ryddhau Jonathan Aitken yn gynnar er mwyn cael lle yn y celloedd i Jeffrey Archer? [*Chwerthin.*]

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wedi sylwi bod Alun Pugh yn dymuno gweld cymesuredd ym mhob dim. Mae'n amlwg bod y mater hwn yn un o'r rhain, ond nid yw'n briodol imi wneud sylw am ei awgrym.

Yr Egwyddor Ychwanegedd (Trafodaethau) The Additionality Principle (Discussions)

C3 Elin Jones: Pa drafodaethau a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a Llywodraeth y DU ynghylch y gofyniad sydd yn rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd i weithredu'r egwyddor o ychwanegedd wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer cael gafael ar gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ2285)

Q3 Elin Jones: What discussions has the First Secretary had with the UK Government regarding the requirement in European Commission regulations to implement the additionality principle when preparing the budget for accessing European Union funds? (OAQ2285)

2:19 p.m.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae ychwanegedd yn cael ei drafod a'i ddatblygu mewn modd technegol gan ystyried gwariant cyhoeddus ar Amcan 1 ym mhob rhan o'r DU gyda'i

The First Secretary: Additionality is being developed and dealt with in a technical way by looking at public expenditure on Objective 1 in every part of the UK, taken

gilydd. Mae'r gwiriad ex-ante yn cael ei ddatblygu gan yr Adran Fasnach a Diwydiant. Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda swyddogion yr Adran honno i baratoi'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer mynd ymlaen â'r gwaith. Bydd y cydweithio yn parhau gam wrth gam drwy'r rhaglen. Yr ydym yn delio â hyn yn unol â rheolau'r Comisiwn.

Elin Jones: Deallaf y rheolau technegol, ond a yw'r Prif Ysgrifennydd yn credu bod pobl Cymru yn haeddu gwybod a gweld bod yr arian Ewropeaidd a gawn drwy Amcan 1 yn mynd i fod yn gyfan gwbl ychwanegol i gyllideb Cymru ac y dylai cyfrifon y Cynulliad allu dangos a phrofi bod yr arian Ewropeaidd yn gyfan gwbl ychwanegol? Hyn o gofio bod Rhodri Morgan, yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, wedi dweud yr wythnos diwethaf yn y Siambr hon na fyddai'n broblem i ddangos ychwanegedd ar lefel Gymreig.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hwnnw'n bwynt hollol wahanol. Mae'n bwysig inni sicrhau y defnyddir yr arian sydd ar gael i Gymru o'r Comisiwn Ewropeaidd yn y ffordd orau i ddatblygu'r economi. Mae materion cyllid a'r ffordd y bydd Amcan 1 yn symud ymlaen yn hollol agored yn y Cynulliad.

Dafydd Wigley: A ydych yn derbyn bod ychwanegedd yn digwydd pan mae'r arian y mae Ewrop yn ei ddarparu ar gyfer datblygu rhanbarthol ar wahân ac yn gyffelyb i'r gwariant yn y rhanbarth? Sut y gall hyn fod? Sut y mae'n bosibl gwario'r arian y teilyngir ei wario yng Nghymru yn y flwyddyn nesaf, 2000-01, pan nad oes cynnydd yn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf o gymharu â'r gyllideb y penderfynwyd arni cyn i'r arian Amcan 1 fod ar gael?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae dau bwynt yma. Un yw'r egwyddor o ychwanegedd, ac mae rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn ag ychwanegedd yn glir. Rhywbeth technegol yw sicrhau y cydymffurfir â hwy.

Ar y llaw arall, wrth edrych ar ychwanegedd ynglŷn â Chymru, yr ydym yn sicr y bydd

together. The ex-ante verification is being developed by the Department of Trade and Industry. Assembly officials are working closely with officials from that Department to prepare the information required to take the work forward. The co-operation will continue stage by stage throughout the programme. We are dealing with this in accordance with the Commission's regulations.

Elin Jones: I understand the technical rules, but does the First Secretary believe that the people of Wales deserve to know and to see that the European funding that we will receive through Objective 1 will be completely additional to the Welsh budget and that the Assembly's accounts should be able to show and prove that the European funding is completely additional? This is bearing in mind that Rhodri Morgan, the Secretary for Economic Development, said last week in this Chamber that it would not be a problem to show additionality at a Welsh level.

The First Secretary: That is a completely different point. It is important that we ensure that the funding available to Wales from the European Commission is used in the best way to develop the economy. Funding issues and the way Objective 1 will move forward are completely open in the Assembly.

Dafydd Wigley: Do you accept that additionality happens when the funding that Europe provides for regional development is separate and similar to the expenditure in the region? How can this be? How is it possible to spend the merited expenditure in Wales in the next year, 2000-01, when there is no increase in our budget for next year compared to the budget that was decided upon before the Objective 1 funding became available?

The First Secretary: There are two issues here. One is the principle of additionality, and the European Commission regulations on additionality are clear. Ensuring that they are complied with is a technical matter.

On the other hand, looking at additionality with regard to Wales, we are certain that

arian i sicrhau ein bod yn gallu mynd ymlaen a llwyddo gyda'r holl gynlluniau yn y flwyddyn gyntaf. Dywedais hynny eisoes. Yr her fwyaf yw sicrhau bod pawb yn ymroi'n egniol i'r cynlluniau er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r arian yn iawn.

Nick Bourne: The Welsh Conservative Party has been proved right in its statement that Wales would follow in England's slipstream on lifting the beef on the bone ban. Will the First Secretary now take seriously our warnings about the need to secure full match funding from Westminster, over and above the Barnett formula, particularly now that we have a convert in the unlikely shape of Val Feld, the Chair of the Economic Development Committee, who has spoken of a serious problem on match funding?

The First Secretary: It is difficult to know where to start on a question like that. First, the Conservatives have been proved wrong. In relation to beef on the bone, the Assembly has gone through a process in which the four Chief Medical Officers—with our own Chief Medical Officer acting with complete integrity and honesty throughout, and I believe that most Assembly Members would wish to pay tribute to her for the way she has undertaken a very difficult job—have come to a conclusion which allows us to do what all of us in this Chamber wished to see. That is the ban on the retail sale of beef on the bone lifted. There is a process to go through but we can now see the light at the end of a short tunnel.

We should be proud of the Assembly's processes. I pay tribute to the serious way in which the Agriculture and Rural Development Committee has dealt with this matter during a difficult period. It would be better, Nick, if you paid tribute to the work that has been done on this issue, rather than trying to insult or misrepresent Assembly Members such as Val Feld, who has tried to represent the views of her Committee—not party political views—as honestly and clearly as possible.

there will be funding to ensure that we are able to proceed and succeed with all the schemes in the first year. I have already said that. The greatest challenge is to ensure that we all apply ourselves energetically to the schemes to ensure that we use the funding properly.

Nick Bourne: Profwyd bod Plaid Geidwadol Cymru'n gywir yn ei datganiad y byddai Cymru'n dilyn yn sgilwynt Lloegr wrth godi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn. A fydd y Prif Ysgrifennydd bellach yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'n rhybuddion am yr angen i sicrhau cyllid cyfatebol llawn oddi wrth San Steffan, uwchlaw fformwla Barnett, yn enwedig am fod rhywun wedi cael tröedigaeth atom bellach ar ffurf annhebygol Val Feld, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd, a soniodd am broblem ddifrifol ynghylch cyllid cyfatebol?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n anodd gwybod ym mha le i ddechrau ar gwestiwn fel hwnnw. Yn gyntaf, profwyd y Ceidwadwyr yn anghywir. Mewn perthynas â chig eidion ar yr asgwrn, mae'r Cynulliad wedi dilyn proses lle y mae'r pedwar Prif Swyddog Meddygol—a'n Prif Swyddog Meddygol ein hunain yn gweithredu'n gwbl unplyg a gonest o'r dechrau i'r diwedd, a chredaf y bydd y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yn dymuno talu teyrnged iddi am y modd yr ymgwymerodd â gwaith anodd iawn—wedi dod i gasgliad sydd yn caniatáu inni gyflawni dymuniad pawb yn y Siambr hon. Hynny yw, codi'r gwaharddiad ar adwerthu cig eidion ar yr asgwrn. Mae proses i'w dilyn ond bellach gallwn weld y golau ym mhen draw twnnel byr.

Dylem ymfalchïo ym mhrosesau'r Cynulliad. Talaf deyrnged i ymdriniaeth ddifrifol y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig â'r mater hwn yn ystod cyfnod anodd. Byddai'n well, Nick, pe baech yn talu teyrnged i'r gwaith a wnaethpwyd ar y mater hwn, yn hytrach na cheisio diffrïo neu gamddarlunio Aelodau Cynulliad fel Val Feld, a geisiodd gynrychioli barn ei Phwyllgor—nid barn bleidiol—mor onest ac eglur ag yr oedd modd.

Michael German: If you accept that the problem facing us is finding additional money for Wales in order to draw down the European money, would it not be sensible to ensure that the money that is provided is additional over and above the Barnett formula? If you agree, what talks have you had with Ministers to ensure that the system is altered to recognise the urgent need to achieve that for Wales?

The First Secretary: This goes beyond the original question about additionality within the European Commission regulations. However, I assure Mike that I do all that I can at every opportunity to explain to colleagues at Westminster, including colleagues in the Treasury, the challenge we face in making the most of Objective 1 and the discussions that will be necessary during the spending review to ensure that the Assembly can do what we all want it to be able to do.

Val Feld: Do you agree that in order to make the most effective use of European funds, we must debate issues in an atmosphere of maturity, looking at the real issues that need to be tackled? There is an issue that arises out of the public expenditure rules that we must all work together to overcome so that we achieve the best results. If the Welsh Affairs Select Committee seeks to carry out its role in Westminster on behalf of the people of Wales, and a Chair or an Assembly Secretary gives evidence to the Select Committee and tries to reflect honestly the range of views of his or her Assembly Committee, the Assembly's party leaders should not make political capital out of the statements that are made, particularly when that person is not in the Chamber to refute those statements.

The First Secretary: I sympathise with that point. I hope that we can move forward constructively. Honesty and transparency are often uncomfortable. I am often in the situation, here and elsewhere, when I feel that I am forced to play poker by putting all my cards face up on the table while others

Michael German: Os derbyniwch mai'r broblem sydd yn ein hwynebu yw canfod arian ychwanegol i Gymru er mwyn ymestyn am yr arian Ewropeaidd, oni fyddai'n ddoeth sicrhau bod yr arian a ddarperir yn ychwanegol uwchlaw fformwla Barnett? Os cytunwch, pa drafod a fu rhyngoch a Gweinidogion er mwyn sicrhau y caiff y system ei newid i gydnabod yr angen taer i gyflawni hynny dros Gymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n mynd y tu hwnt i'r cwestiwn gwreiddiol am ychwanegedd o fewn rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, rhoddaf sicrwydd i Mike y gwnaf bopeth a allaf ar bob cyfle i egluro i'm cydweithwyr yn San Steffan, gan gynnwys cydweithwyr yn y Trysorlys, yr her a wynebwn wrth fanteisio i'r eithaf ar Amcan 1 a'r trafodaethau a fydd yn angenrheidiol yn ystod yr adolygiad gwariant er mwyn sicrhau y bydd modd i'r Cynulliad wneud yr hyn yr ydym oll am iddo allu ei wneud.

Val Feld: A gytunwch fod rhaid inni drafod materion mewn awyrgylch aeddfed, er mwyn defnyddio cronfeydd Ewropeaidd yn y modd mwyaf effeithiol, gan edrych ar y gwir faterion y mae angen rhoi sylw iddynt? Ceir mater sydd yn deillio o'r rheolau gwariant cyhoeddus y bydd yn rhaid inni oll weithio gyda'n gilydd er mwyn ei oresgyn, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Os bydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn ceisio cyflawni ei rôl yn San Steffan ar ran pobl Cymru, a Chadeirydd neu Ysgrifennydd Cynulliad yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ac yn ceisio adlewyrchu'n onest yr amrediad o safbwyntiau ar ei Bwyllgor Cynulliad, ni ddylai arweinyddion pleidiau'r Cynulliad gael elw gwleidyddol o'r datganiadau a wneir, yn enwedig pan nad yw'r un dan sylw yn y Siambr i wrthbrofi'r datganiadau hynny.

Y Prif Ysgrifennydd: Cydymdeimlaf â'r pwynt hwnnw. Gobeithiaf y gallwn symud ymlaen yn adeiladol. Mae gonestrwydd a thryloywder yn anghyfforddus yn aml. Byddaf yn aml mewn sefyllfa, yma ac mewn manau eraill, pan deimlaf fy mod yn cael fy ngorfodi i chwarae pocer gan roi fy holl

are keeping theirs close to their chest. Building a consensus is difficult and challenging, requiring everybody in this Chamber to join in the process. I hope that we will develop the sort of maturity to which you refer.

gardiau â'u hwyneb i fyny ar y bwrdd tra bydd eraill yn cadw eu rhai hwy o'r golwg. Mae adeiladu consensws yn anodd ac yn cynnig her, ac yn gofyn i bawb yn y Siambur hon gymryd rhan yn y broses. Gobeithiaf y datblygwn y math o aeddfedrwydd y cyfeiriwch ato.

Lleihau Troseddau Ymhlith Pobl Ifainc (Trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref) Reducing Youth Crime (Discussions with Home Office)

Q4 Mick Bates: What discussions has the First Secretary had with the relevant Minister in the Home Office in respect of reducing youth crime? (OAQ2278)

C4 Mick Bates: Pa drafod a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a'r Gweinidog perthnasol yn y Swyddfa Gartref ynghylch lleihau troseddau ymhlith pobl ifainc? (OAQ2278)

The First Secretary: As deputy to the Home Secretary I had responsibility for crime reduction and youth justice issues until last October. I have therefore had many conversations with officials and the Home Secretary over a long period. Thus I am aware of the Government's policies and the new systems, which pull together all the relevant agencies in developing crime reduction partnerships, as well as the complementary work of the drug action teams and others. I maintain close contact with the Home Secretary on such matters. I have also met Lord Warner, Chair of the Youth Justice Board, regularly to discuss implementing youth justice reforms in Wales as they have implications for social services and other elements of policy for which we are responsible. Lord Warner gave a presentation on the Board's work to the Assembly's Cabinet yesterday.

Y Prif Ysgrifennydd: Fel dirprwy i'r Ysgrifennydd Cartref, yr oedd gennyf gyfrifoldeb dros faterion lleihau troseddau a chyfiawnder ieuenctid tan fis Hydref diwethaf. Felly yr wyf wedi cael llawer o sgysiau gyda swyddogion a'r Ysgrifennydd Cartref dros gyfnod maith. Drwy hynny yr wyf yn ymwybodol o bolisiau'r Llywodraeth a'r systemau newydd, sydd yn dod â'r holl asiantaethau perthnasol at ei gilydd wrth ddatblygu partneriaethau i leihau troseddau, yn ogystal â gwaith cyflenwol y timau gweithredu ar gyffuriau ac eraill. Cadwaf gysylltiad agos â'r Ysgrifennydd Cartref ar faterion o'r fath. Yr wyf wedi cwrdd yn rheolaidd hefyd â'r Arglwydd Warner, Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, i drafod gweithredu diwygiadau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru gan fod iddynt oblygiadau i wasanaethau cymdeithasol ac elfennau polisi eraill yr ydym yn gyfrifol amdanynt. Rhoddodd yr Arglwydd Warner gyflwyniad ar waith y Bwrdd i Gabinet y Cynulliad ddoe.

2:29 p.m.

Mick Bates: Would you confirm that you were part of a review in the Home Office which would have given millions of extra pounds to a police force like Dyfed-Powys Police, which checks on every crime; there is no screening in Dyfed-Powys. That money would have meant extra policemen and the ability to reduce youth crime through consultation and by helping first offenders, which has been shown to dramatically reduce

Mick Bates: A fyddech yn cadarnhau ichi fod yn rhan o adolygiad yn y Swyddfa Gartref a fyddai wedi rhoi miliynau o bunnoedd yn ychwanegol i heddlu fel Heddlu Dyfed-Powys, sydd yn gwirio pob trosedd; nid oes sgrinio yn Nyfed-Powys. Buasai'r arian hwnnw wedi golygu cael heddwision ychwanegol a'r gallu i leihau troseddau ymhlith pobl ifainc drwy ymgynghori a thrwy helpu troseddwr tro-cyntaf, y

reoffending rates. Will the First Secretary explain what happened to the millions of pounds that would have come to Dyfed-Powys?

The First Secretary: You are embroidering a little. As Minister responsible for the police, I commissioned work on the impact of sparsity on police costs. That report went to the Home Office and to the Ministers who are currently in post, rather than to me. The problem of sparsity is difficult to address in formulas. We find this with the health service and in trying to balance the different pressures of local government. A lot of extra money has come into Wales from the Youth Justice Board and from other aspects of the crime reduction work that the Home Office has promoted, which is of help to Dyfed-Powys Police, among others. It is my understanding that Dyfed-Powys Police are playing a full part, for instance, in the work of the youth offending teams.

Geraint Davies: Does the First Secretary agree that, in tackling youth crime, police response time is vital? My post bag is full of complaints concerning police response time and the explanation given for a poor response time is the shortage of police. In Rhondda Cynon Taff County Borough Council, there is one police officer per 875 people compared with the national average of one for every 500 people. Will he make representations to his colleagues to address the shortage of police in areas such as Rhondda Cynon Taff?

The First Secretary: The number of police officers, and the finances available to the police in any area, are matters for the police service and the Home Office. Our responsibilities are complementary to that. It is appropriate for people to make representations about their own areas and to seek to work with the local police, as I am sure that many Assembly Members do. It is also appropriate to make representations and work with the local authority on some of

dangoswyd ei fod yn lleihau cyfraddau aildroseddu'n sylweddol. A fydd y Prif Ysgrifennydd yn egluro beth a ddigwyddodd i'r miliynau o bunnoedd a fyddai wedi dod i Ddyfed-Powys?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych yn addurno hynny braidd. Fel Gweinidog a oedd yn gyfrifol am yr heddlu, comisiynais waith ar effaith teneurwydd ar gostau heddlu. Aeth yr adroddiad hwnnw i'r Swyddfa Gartref ac at y Gweinidogion sydd yn y swyddi ar hyn o bryd, yn hytrach nag ataf fi. Mae'n anodd ymdrin â phroblem teneurwydd drwy fformwlâu. Gwelwn hynny yn achos y gwasanaeth iechyd ac wrth geisio cydbwysu'r gwahanol bwysau ar lywodraeth leol. Daeth llawer o arian ychwanegol i Gymru o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac oddi wrth agweddau eraill ar y gwaith lleihau troseddau a hyrwyddwyd gan y Swyddfa Gartref, sydd o gymorth i Heddlu Dyfed-Powys, ymysg eraill. Yr hyn a ddeallaf fi yw bod Heddlu Dyfed-Powys yn chwarae rhan lawn, er enghraifft, yng ngwaith y timau troseddwr ifainc.

Geraint Davies: A gytuna'r Prif Ysgrifennydd fod amser ymateb yr heddlu'n holl bwysig wrth fynd i'r afael â throsteddu ymhlith pobl ifainc? Mae fy mag post yn llawn cwynion ynghylch amser ymateb yr heddlu a'r eglurhad a roddir am yr amser ymateb gwael yw prinder heddweision. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ceir un heddwes i bob 875 o bobl o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o un i bob 500 o bobl. A fydd yn cyflwyno sylwadau i'w gydweithwyr er mwyn ymdrin â'r prinder heddweision mewn ardaloedd fel Rhondda Cynon Taf?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae nifer yr heddweision, a'r arian sydd ar gael i'r heddlu mewn unrhyw ardal yn faterion i'r gwasanaeth heddlu a'r Swyddfa Gartref. Mae ein cyfrifoldebau ni yn gyflenwol i hynny. Mae'n briodol i bobl gyflwyno sylwadau ynghylch eu hardaloedd eu hunain a cheisio gweithio gyda'r heddlu lleol, fel y mae llawer o Aelodau Cynulliad yn ei wneud, yr wyf yn siŵr. Mae hefyd yn briodol cyflwyno sylwadau a gweithio gyda'r awdurdod lleol

these issues. We must concentrate on our responsibilities, such as the contribution of health and social services and the education service to the reduction of crime. That should be our primary emphasis. I put forward a proposal to the Assembly some time ago on creating a role to help co-ordinate that kind of joint activity. We should consider that.

Christine Chapman: My question has been partly answered by your response to Geraint Davies's question on Rhondda Cynon Taff. However, do you agree that an opportunity could arise, given the 5,000 additional officers announced by Jack Straw earlier this year, for appointments in Rhondda Cynon Taff?

The First Secretary: The additional police officers and the financial support to which Jack Straw referred are to be distributed on an England and Wales basis and I hope that Wales will receive its share. However, it is primarily a matter for discussion between the chief constables, the police authorities in Wales and the Home Office, as to how they benefit as a result of that welcome announcement.

William Graham: Will the First Secretary make urgent representation to the Home Secretary to ensure that, given the contents of the leaked report this morning on police numbers in Wales, there will be adequate investigation and resources for investigation into corrupt local authorities?

The First Secretary: Before I comment on what seems to be a weighted question, I would need to look at a leaked report of which I am unaware. Therefore, my answer is that I do not know.

ar rai o'r materion hyn. Rhaid inni ganolbwyntio ar ein cyfrifoldebau, fel cyfraniad gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a'r gwasanaeth addysg i leihau troseddau. Dylem bwysleisio hynny'n bennaf. Cyflwynais gynnig i'r Cynulliad beth amser yn ôl ynghylch creu rôl i helpu gydllynu'r math hwnnw o gydweithgaredd. Dylem ystyried hynny.

Christine Chapman: Mae fy nghwestiwn wedi ei ateb yn rhannol gan eich ymateb i gwestiwn Geraint Davies ar Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, a gytunwch ei bod yn bosibl y bydd cyfle, oherwydd y 5,000 o heddweision ychwanegol a gyhoeddwyd gan Jack Straw yn gynharach eleni, i gael penodiadau yn Rhondda Cynon Taf?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r heddweision ychwanegol a'r cymorth ariannol y cyfeiriodd Jack Straw atynt i'w dosbarthu ar draws Cymru a Lloegr a gobeithiaf y bydd Cymru'n derbyn ei chyfran. Fodd bynnag, mater i'w drafod rhwng y prif gwnstablaid, yr awdurdodau heddlu yng Nghymru a'r Swyddfa Gartref yw hyn yn bennaf, o ran y modd y byddant yn elwa o ganlyniad i'r cyhoeddiad calonogol hwnnw.

William Graham: A fydd y Prif Ysgrifennydd yn cyflwyno sylwadau ar fyrder i'r Ysgrifennydd Cartref i sicrhau, yng ngolwg cynnwys yr adroddiad ar niferoedd yr heddlu yng Nghymru a ddatgelwyd y bore yma, y ceir ymchwilio ac adnoddau digonol i ymchwilio i awdurdodau lleol llygreddig?

Y Prif Ysgrifennydd: Cyn imi wneud sylw am yr hyn sydd yn ymddangos yn gwestiwn llwythog, byddai angen imi edrych ar adroddiad a ddatgelwyd nad wyf yn gwybod amdano. Felly, yr ateb sydd gennyf yw nad wyf yn gwybod.

Penodiadau i Dribiwnlysoedd (Trosglwyddo Pwerau) Appointments to Tribunals (Transfer of Powers)

C5 Owen John Thomas: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gefnogi unrhyw ymdrechion i sicrhau bod pwerau yn cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenodiadau i dribiwnlysoedd

Q5 Owen John Thomas: Will the First Secretary support efforts to ensure the transfer of powers to the National Assembly for Wales in relation to appointments to tribunals operating in those areas for which

sydd yn gweithredu mewn meysydd sydd yn rhan o gyfrifoldeb y Cynulliad? (OAQ2272)

Y Prif Ysgrifennydd: Ni fyddwn yn cefnogi'r syniad hwnnw. Mae'n bwysig fod tribiwnlysoedd yn annibynnol a bod aelodau'r tribiwnlysoedd hynny yn dod drwy'r system sydd wedi ei phrofi dros y blynyddoedd. Yn draddodiadol, penodir aelodau gan yr Arglwydd Ganghellor ac ef yw pennaeth y farnwriaeth. Yn sgîl y ffaith fod gwaith y tribiwnlysoedd hyn yn farnwrol neu'n lled-farnwrol mae'n bwysig fod yr annibyniaeth yn parhau.

Owen John Thomas: A ydych yn derbyn y dylai penodiadau i baneli tribiwnlysoedd diwydiannol yng Nghymru gael eu gwneud gan y Cynulliad i'n galluogi i sicrhau bod cyfran resymol o aelodau o gefndiroedd ethnig ar y paneli hyn? Byddai'n haws wedyn dewis tribiwnlysoedd i ymdrin ag achosion o hiliaeth honedig gan y byddent yn cynnwys aelodau a fyddai'n gyfarwydd â chefnidir yr achwynwr a'r diffynnydd fel ei gilydd.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r un mor bwysig penodi pobl yn annibynnol o'r Cynulliad i dribiwnlysoedd ag ydyw penodi pobl yn annibynnol o'r Llywodraeth. Cefnogaf y syniad o sicrhau bod trawstoriad o'r gymuned yn aelodau o dribiwnlysoedd a bod cydraddoldeb yn y modd y dewisir pobl. Serch hynny, mae hynny'n gwestiwn ar wahân i'r syniad o'r Cynulliad yn cymryd y cyfrifoldeb am benodi.

David Davies: Does the First Secretary agree that Members are concerned about this issue because of a number of decisions taken recently by Assembly sponsored public bodies which fly completely in the face of the wishes of Members of this Chamber and members of the public?

The First Secretary: No, I do not accept that that is the reason it is being raised. That was not the explanation given by the questioner. It was a simple question of the Assembly taking direct responsibility for matters. I understand that aspiration. My

the Assembly has responsibility? (OAQ2272)

The First Secretary: I would not support that idea. It is important that tribunals are independent and that the members of those tribunals come through the system which has been tested over the years. Traditionally, members are appointed by the Lord Chancellor and he is the head of the judiciary. As the work of these tribunals is judicial or semi-judicial it is important that they remain independent.

Owen John Thomas: Do you accept that appointments to industrial tribunal panels in Wales should be made by the Assembly to enable us to ensure that there is a reasonable proportion of members from ethnic backgrounds on these panels? It would then be easier to select tribunals to deal with alleged cases of racism because they would include members who were familiar with the backgrounds of both the complainant and the defendant.

The First Secretary: It is as important to appoint people to tribunals independently from the Assembly as it is to appoint people independently from the Government. I support the idea that the membership of tribunals should represent a cross-section of the community and there should be equality in the way people are chosen. However, that is a separate question from the idea of the Assembly taking over responsibility for appointments.

David Davies: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno bod yr Aelodau'n bryderus ynghylch y mater hwn oherwydd nifer o benderfyniadau a wnaethpwyd yn ddiweddar gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd yn gwbl groes i ddymuniaidau Aelodau'r Siambr hon ac aelodau'r cyhoedd?

Y Prif Ysgrifennydd: Nac ydwyf, ni dderbyniaf mai dyna pam y codir y mater. Nid dyna'r eglurhad a roddwyd gan yr holwr. Yr oedd yn gwestiwn syml ynghylch y Cynulliad yn ymgymryd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros faterion. Deallaf y dyhead

problem is that this flies in the face of the idea that tribunals on issues for which the Assembly has responsibility should be appointed through a mechanism that is independent of the Assembly. Otherwise, there is a danger of confusing accountability. That independence is an important principle as far as national government is concerned and should, therefore, be an important principle for the Assembly. I am rather surprised that you should argue against it

David Melding: I wish to make a point of order under Standing Order No. 6.38. On 22 November I tabled a written statement of opinion (OPIN-1999-0062) asking the Executive to reconsider its decision to exclude Barry from Objective 2 European funding. This statement has received cross-party support and was co-sponsored by Jenny Randerson and Owen John Thomas. On Friday I received a copy of two e-mails. The first one was from a member of Rhodri Morgan's Assembly support staff. It reads:

'Rhodri asked if someone might put down an amendment to David Melding's written statement of opinion about Barry on the lines of the attached.'

Fifteen minutes later the following e-mail was issued by the National Assembly for Wales Labour Party Office:

'Could some of the South Wales AMs please submit this amendment to the statement of opinion about Barry? It would be a great help.'

This plant took root remarkably quickly. Before the end of the day John Griffiths had tabled an amendment to my statement of opinion (OPIN-1999-0066). It corresponds word for word to the suggested amendment dictated by the Secretary for Economic Development, Rhodri Morgan. Standing Order No. 6.38 states that written statements of opinion 'may be tabled by any Member other than an Assembly Secretary'.

hwnnw. Y broblem sydd gennyf yw ei fod yn groes i'r syniad y dylai tribiwnlysoedd ar faterion y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt gael eu penodi drwy fecanwaith sydd yn annibynnol ar y Cynulliad. Fel arall, mae perygl o ddrysu atebolrwydd. Mae'r annibyniaeth honno'n egwyddor bwysig o ran llywodraeth genedlaethol a dylai, felly, fod yn egwyddor bwysig i'r Cynulliad. Synnaf braidd eich bod yn dadlau yn ei herbyn.

David Melding: Dymunaf godi pwynt o drefn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.38. Ar 22 Tachwedd cyflwynais ddatganiad barn ysgrifenedig (OPIN-1999-0062) a ofynnai i'r Weithrediaeth ailystyried ei phenderfyniad i eithrio'r Barri o dderbyn arian Ewropeaidd Amcan 2. Derbyniwyd cefnogaeth drawsbleidiol i'r datganiad hwn ac fe'i cydnoddwyd gan Jenny Randerson ac Owen John Thomas. Ddydd Gwener derbynais gopi o ddwy neges e-bost. Yr oedd y gyntaf oddi wrth aelod o staff cymorth Rhodri Morgan yn y Cynulliad. Ei geiriau yw:

'Gofynnodd Rhodri a allai rhywun gyflwyno gwelliant i ddatganiad barn ysgrifenedig David Melding ynghylch y Barri o'r math a geir yn y ddogfen amgaeedig.'

Bymtheg munud yn ddiweddarach cyhoeddwyd y neges e-bost ganlynol gan Swyddfa'r Blaid Lafur yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

'A allai rhai o Aelodau'r Cynulliad o Dde Cymru gyflwyno'r gwelliant hwn i'r datganiad barn ynghylch y Barri os gwelwch yn dda? Byddai o gymorth mawr.'

Bu i'r planhigyn hwn fagu gwreiddiau'n rhyfeddol o gyflym. Cyn diwedd y dydd yr oedd John Griffiths wedi cyflwyno gwelliant i'm datganiad barn (OPIN-1999-0066). Mae'n cyfateb air am air i'r gwelliant awgrymedig a arddywedwyd gan yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, Rhodri Morgan. Mae Rheol Sefydlog Rhif 6.38 yn datgan y gall datganiadau barn ysgrifenedig gael eu cyflwyno gan 'unrhyw Aelod heblaw Ysgrifennydd Cynulliad'.

In his actions to plant this amendment to my statement of opinion, I believe that the Secretary for Economic Development has breached Standing Order No. 6.38. I shall not express an opinion on the behaviour of the Assembly Member who acted as a conduit in this shabby procedure. However, I take this opportunity to thank the anonymous Labour MP who leaked these e-mails to me. At least that person has the interest of the people of Barry at heart. I would be grateful, Mr Presiding Officer, if you could give your ruling on this matter.

2:39 p.m.

The Presiding Officer: I am grateful to you for notifying me of the efficient use of e-mail by Assembly staff in this building. As far as I can see, no Assembly Secretary has tabled a written statement of opinion in this case and the fact that Assembly Secretaries request other Assembly Members to express a view on a written statement of opinion does not seem to me to be a breach of Standing Orders. However, I will review this because I have a personal interest in it. I often read written statements of opinion upon which I would like to express an opinion. However, under Standing Order No. 6.39, I am unable to do so because of my role in ensuring that those statements are in order. I will always welcome the opportunity for other Members to express views through written statements of opinion, with which I might or might not agree. I will consider this matter further.

Nick Bourne: I have a separate point of order. It is an offence to be taken into consideration by the Labour chief of secret police. Yesterday morning I received not an e-mail but a memo, presumably from an Assembly Member different to the one who contacted David Melding, but maybe from the same one. I am grateful to that Member whoever he or she is. The memo also related to a statement of opinion, and I refer to Standing Order No. 6.38 again. The memo, from Tom Middlehurst, urges Labour Assembly Members not to sign up to a

Drwy ei gamau i blannu'r gwelliant hwn i'm datganiad barn, credaf fod yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd wedi torri Rheol Sefydlog Rhif 6.38. Ni fynegaf farn am ymddygiad yr Aelod Cynulliad a weithredodd fel cyfrwng yn yr ymddygiad gwael hwn. Fodd bynnag, manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Aelod Seneddol Llafur di-enw a ddatgelodd y negeseuon e-bost hyn i mi. Mae hwnnw o leiaf yn ymboeni am fuddiannau pobl y Barri. Byddwn yn ddiolchgar, Lywydd, pe gallech ddyfarnu ar y mater hwn.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am roi gwybod imi am y defnydd effeithlon ar e-bost gan staff y Cynulliad yn yr adeilad hwn. Hyd y gwelaf, nid oes yr un Ysgrifennydd Cynulliad wedi cyflwyno datganiad barn ysgrifenedig yn yr achos hwn ac nid yw'n ymddangos imi fod y ffaith bod Ysgrifenyddion Cynulliad yn gofyn i Aelodau Cynulliad eraill fynegi barn ar ddatganiad barn ysgrifenedig yn torri'r Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, fe adolygaf hyn oherwydd mae gennyf ddiddordeb personol ynddo. Byddaf yn aml yn darllen datganiadau barn ysgrifenedig yr hoffwn fynegi barn yn eu cylch. Fodd bynnag, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.39, ni allaf wneud hynny oherwydd y rôl sydd gennyf wrth sicrhau bod y datganiadau hynny mewn trefn. Byddaf bob amser yn croesawu'r cyfle i Aelodau eraill fynegi barn drwy ddatganiadau barn ysgrifenedig, y gallwn gytuno neu anghytuno â hwy. Ystyriaf y mater hwn ymhellach.

Nick Bourne: Mae gennyf bwynt o drefn gwahanol. Trosedd ydyw a ddylai gael ei ystyried gan bennaeth heddlu cudd Llafur. Fore ddoe derbyniais femo, nid neges e-bost, a hynny'n ôl pob tebyg oddi wrth Aelod Cynulliad gwahanol i'r un a gysylltodd â David Melding, er y gallai fod oddi wrth yr un un. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod hwnnw, pwy bynnag ydyw. Yr oedd y memo hefyd yn ymwneud â datganiad barn, a chyfeiriaf at Reol Sefydlog Rhif 6.38 eto. Mae'r memo, oddi wrth Tom Middlehurst, yn annog Aelodau Llafur y Cynulliad i beidio

statement of opinion tabled by Jenny Randerson on the Arts Council for Wales's drama strategy, which tries to undermine Theatr Powys and Gwent Theatre. From the statement, although the announcement has not been made in the Chamber, it seems that Clwyd Theatr Cymru will not receive funding under the new strategy either. If Assembly Secretaries are not able to table statements of opinion, they should not seek to influence others in this way. This is again a case on which you might care to give a ruling. I thank the Labour Assembly Member responsible for drawing my attention to this.

Jenny Randerson: Further to that point of order, I also received a copy of the same memo, but mine came through the post in a hand-written envelope. I am concerned that the provision for statements of opinion was devised in the image of similar procedures in the House of Commons. I would be grateful if the Presiding Officer could rule or make a statement on this issue. What should be a statement of opinion is becoming the subject of centralised political control. That undermines the ability of, in this case, Labour backbenchers, but potentially all backbenchers, to defend the interests of their constituencies.

David Davies: Standing Order No. 6.38 makes it clear that statements of opinion may be supported, opposed or otherwise subject to comment in writing by any other Member. Those of us, like Jenny and myself, who fought hard to save Gwent Theatre, will find it disgraceful that a leading politician in Wales has used his influence to stop Members from signing up to statements of opinion.

The Presiding Officer: I have indicated that I will review the Standing Orders on these matters. I have given my initial reaction but I will return to the matter.

Alison Halford: Point of order. I confess and apologise that I do not know which Standing Order this comes under, but I am concerned that the matter of policing is not a

â thanysgrifio i ddatganiad barn a gyflwynwyd gan Jenny Randerson ar strategaeth ddrama Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd yn ceisio tanseilio Theatr Powys a Theatr Gwent. Yn ôl y datganiad, er na chyhoeddwyd hyn yn y Siambr, ymddengys na fydd Clwyd Theatr Cymru yn derbyn arian o dan y strategaeth newydd ychwaith. Os na chaiff Ysgrifenyddion Cynulliad gyflwyno datganiadau barn, ni ddylent geisio dylanwadu ar eraill fel hyn. Mae hyn eto yn achos y gallech ddymino dyfarnu yn ei gylch. Diolchaf i'r Aelod Cynulliad Llafur a dynnodd fy sylw at hyn.

Jenny Randerson: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, derbyniais innau gopi o'r un memo, ond daeth fy un i drwy'r post mewn amlen a llawysgrifen arni. Pryderaf fod y ddarpariaeth o ddatganiadau barn wedi ei llunio ar ddelw gweithdrefnau tebyg yn Nhŷ'r Cyffredin. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Llywydd ddyfarnu neu wneud datganiad ar y mater hwn. Mae'r hyn a ddylai fod yn ddatganiad barn yn dod yn ddarostyngedig i reolaeth wleidyddol ganolog. Mae hynny'n tanseilio gallu meincwyr cefn, rhai Llafur yn yr achos hwn, er y gallai fod yn wir am yr holl feincwyr cefn, i amddiffyn buddiannau eu hetholaethau.

David Davies: Mae Rheol Sefydlog Rhif 6.38 yn rhoi ar ddeall y gall unrhyw Aelod arall gefnogi datganiadau barn, eu gwrthwynebu neu roi sylw arnynt fel arall mewn ysgrifen. Bydd y rhai ohonom, fel Jenny a minnau, a frwydrodd yn galed i achub Theatr Gwent, yn credu ei bod yn warthus bod gwleidydd blaenllaw yng Nghymru wedi defnyddio ei ddylanwad i atal Aelodau rhag tanysgrifio i ddatganiadau barn.

Y Llywydd: Nodais y byddaf yn adolygu'r Rheolau Sefydlog ar y materion hyn. Rhoddais fy ymateb cyntaf ond dychwelaf at y mater.

Alison Halford: Pwynt o drefn. Cyfaddefaf ac ymddiheuraf nad wyf yn gwybod o dan ba Reol Sefydlog y daw hyn, ond pryderaf fod mater yr heddlu yn un nad yw wedi ei

devolved power and that the First Secretary is having to answer questions on a matter not devolved to him. The answer to many questions put to him should be that it is within the gift of the Chief Constable, and the operational gift, to answer these questions. It seems unfair to ask the First Secretary about matters that do not come within our governance. Do we need a ruling on this matter?

The Presiding Officer: I am grateful to you. I have noted a number of supplementary questions that may be said to move outwith our area of delegation or of devolution. That is a matter to be reviewed and considered further. I undertake to do that.

Jenny Randerson: Further to that point of order, I refer you to Standing Order No. 6.11 on the order of business and to other relevant Standing Orders relating to the time that we conclude business. With our agreement, will you consider going on beyond 5.30 p.m. this afternoon? There is considerable concern about the amount of business and I am, therefore, keeping my comments brief. We have a series of major speeches this afternoon, including the statement by the Secretary for Agriculture and Rural Development. I do not believe that the debate on the forward legislative programme will extend beyond party leaders' speeches today. There is great concern that we are overstretched again in terms of time.

Ieuan Wyn Jones: Ategfaf sylwadau Jenny Randerson. Mae'r ddadl hon yn un o'r rhai pwysicaf yng nghalendr y Cynulliad. Hoffwn gael addewid nad yw'r ffaith fod ein trafodaeth heddiw yn gyfyngedig, fwy neu lai, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Ysgrifennydd ac arweinwyr y pleidiau yn golygu na fydd llais clir i'r gwrthbleidiau a'r meincwyr cefn sydd eisiau cyfrannu i'r drafodaeth. Rhagwelaf y perygl na fydd yr amser a roddir i weddill Aelodau'r Cynulliad ar yr ail ddiwrnod o drafod yn ddigonol i'r Cynulliad leisio barn glir, gadarn a synhwyrol ar gynnwys Araith y Frenhines. Gofynnaf ichi ystyried fy sylwadau.

ddatganoli a bod y Prif Ysgrifennydd yn gorfod ateb cwestiynau ar fater na ddatganolwyd iddo. Yr ateb y dylid ei roi i nifer o'r cwestiynau a ofynnwyd iddo yw mai gan y Prif Gwnstabl, a'r gweithredwyr, y mae'r gallu i ateb y cwestiynau hyn. Ymddengys yn annheg gofyn i'r Prif Ysgrifennydd am faterion nad ydynt o dan ein hawdurdod. A oes angen dyfarniad ar y mater hwn?

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i chi. Nodais nifer o gwestiynau atodol y gellir dweud eu bod y tu allan i'r maes a ddirprwywyd neu a ddatganolwyd i ni. Mae hynny'n fater i'w adolygu a'i ystyried ymhellach. Ymgymeraf i wneud hynny.

Jenny Randerson: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, fe'ch cyfeiraf at Reol Sefydlog Rhif 6.11 ar drefn busnes ac at Reolau Sefydlog perthnasol eraill sydd yn ymwneud â'r amser pan derfynwn ein busnes. Gyda'n cydsyniad, a fyddech cystal ag ystyried mynd ymlaen ar ôl 5.30 p.m. brynhawn heddiw? Mae cryn bryder ynghylch maint y busnes ac, felly, siaradaf yn fyr. Mae gennym gyfres o areithiau pwysig brynhawn heddiw, ac un ohonynt yn ddatganiad gan yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Ni chredaf yr â'r ddadl ar y flaen-raglen ddeddfwriaethol ymhellach nag areithiau arweinyddion y pleidiau heddiw. Mae pryder mawr bod gormod o bwysau arnom eto o ran amser.

Ieuan Wyn Jones: I endorse Jenny Randerson's comments. This debate is one of the most important in the Assembly's calendar. I would like to secure a promise that the fact that our debate today is restricted, more or less, to the Secretary of State for Wales, the First Secretary and the party leaders does not mean that there will not be a clear voice for the opposition parties and the backbenchers who wish to contribute to the debate. I foresee the danger that the time given to the rest of the Assembly Members on the second day of debate will not be sufficient for the Assembly to express a clear, strong and rational opinion on the contents of the Queen's Speech. I ask you to

consider my comments.

Y Llywydd: Mater i'r Trefnydd a'r Pwyllgor Busnes yw'r modd y gosodir busnes ger ein bron. Mater i'm Swyddfa ac i mi yw'r modd y caiff busnes ei alw yn y Cyfarfodydd Llawn wedi iddo gael ei osod ar y rhaglen. Penderfynwyd ei bod yn briodol trin y ddadl bwysig sydd i ddilyn yn fuan yn yr un modd ag y triniwyd y ddadl ar y gyllideb ddrafft. Byddwn yn neilltuo diwrnod cyntaf y ddadl i araith agoriadol a sylwadau arweinyddion y pleidiau, ac eraill os bydd amser. Neilltuir yr ail ddiwrnod, heb unrhyw areithiau agoriadol, i Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini a roddodd eu henwau gerbron ar gyfer y ddadl gyntaf, gan gadw cydbwysedd rhwng y pleidiau. Mater i'r Pwyllgor Busnes yw hwn.

Ieuan Wyn Jones: Mae gennyf broblem gyda'ch gosodiad. Dywedwyd wrth y Pwyllgor Busnes heddiw mai dyna oedd y drefn. Adroddiad ydoedd, nid mater i'w drafod, ac mae hynny yn peri pryder imi.

Y Llywydd: Mater i mi yw'r drefn galw siaradwyr. Yn ôl y Rheolau Sefydlog, mae gennyf hawl i alw Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar unrhyw amser. Edrychaf ymlaen at wneud hynny y prynhawn yma, os caf gyfle. Mater i'w drafod yn gyntaf yn y Pwyllgor Busnes yw trefn y busnes sydd gerbron. Wedi imi dderbyn yr amserlen, penderfynaf ar drefn dethol siaradwyr yn ôl y rhai a wnaeth gais i siarad. Dyna pam y dewiswyd dilyn trefn debyg heddiw i drefn y ddadl ar y gyllideb ddrafft. Os yw'r Pwyllgor Busnes yn teimlo'n gryf nad yw'r drefn hon yn briodol, byddwn yn fodlon derbyn cyngor gan y Pwyllgor ynglŷn â hynny.

The Presiding Officer: The way in which business is laid before us is a matter for the Business Secretary and the Business Committee. The way in which business is called in the Plenary sessions after it has been placed on the agenda is a matter for my Office and for myself. It was decided that it was appropriate to treat the important debate that will follow shortly in the same manner as the debate on the draft budget. We will reserve the first day of the debate for an opening speech and the comments of party leaders, and others if time allows. The second day, without any opening speeches, will be reserved for Assembly Members in general. Priority will be given to those who put their names forward for the first debate, keeping a balance between the parties. This is a matter for the Business Committee.

Ieuan Wyn Jones: I have a problem with your statement. The Business Committee was told today that that was the order. It was a report, not a matter for discussion, and that worries me.

The Presiding Officer: The order for calling speakers is a matter for me. According to the Standing Orders, I have the right to call the Secretary of State for Wales at any time. I look forward to doing so this afternoon, if I have the opportunity. The order of business laid before us is a matter which should be discussed first in the Business Committee. After I have received the timetable, I decide on the order of selecting speakers according to those who have requested to speak. That is why it was decided to follow a similar order today to the order of the debate on the draft budget. If the Business Committee feels strongly that this order is not appropriate, I would be willing to accept advice from the Committee on that.

2:49 p.m.

Datganiad ar y Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn Statement on the Beef on the Bone Ban

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): It gives **Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):**

me great pleasure to advise the Assembly that the Chief Medical Officer for Wales, Dr Ruth Hall, has, on the basis of further research results from the Oxford Group, reported to me her view that it is now safe to lift the ban on the retail sale of beef on the bone. She has concluded that it would be prudent to retain the ban on the manufactured and processed use of bone, for instance in soup, stock and gravy. This is the unanimous view of the four Chief Medical Officers who met earlier today. They have issued a joint statement setting out their views fully and I have arranged for it to be placed on the intranet. The Agriculture and Rural Development Committee will meet tomorrow and I will recommend to the Committee that we should take steps to lift the ban in Wales immediately. I hope that the Committee and the Assembly will endorse that view. I believe that that will happen. With the permission of the Business Committee and the Llywydd, I will report further to the Assembly, following the Committee's deliberations, to indicate in more detail the steps to be taken to implement the lifting of the ban at the earliest possible time.

Ieuan Wyn Jones: Thank you for making the statement today. It is obviously welcome news for the agricultural industry and it will be a significant boost to the confidence of the industry. However, do you share my disappointment that, having given the Agriculture and Rural Development Committee an assurance that she would come before us tomorrow to make a definitive statement, Dr Ruth Hall has actually made that statement today?

Christine Gwyther: I am glad that you have given me the chance to answer that question. The statement from the four Chief Medical Officers has been made public today. I am pleased to make this announcement before Nick Brown makes his announcement in the House of Commons this afternoon. It is split second timing, but I am thrilled that Wales is the first to be able to say this. I hope that Dr Hall will still be able to attend the Committee tomorrow and that she will explain more fully the Chief Medical Officers' statement and the reasons for reaching their conclusion, which we all

Pleser mawr i mi yw hysbysu'r Cynulliad bod Prif Swyddog Meddygol Cymru, Dr Ruth Hall, wedi rhoi adroddiad i mi ar ei barn, ar sail canlyniadau ymchwil pellach oddi wrth Grŵp Rhydychen, ei bod bellach yn ddiogel codi'r gwaharddiad ar adwerthu cig eidion ar yr asgwrn. Daeth i'r casgliad mai doeth fyddai cadw'r gwaharddiad ar ddefnyddio esgyrn wrth gynhyrchu neu brosesu, er enghraifft, mewn cawl, stoc a greffi. Hon yw barn unfrydol y pedwar Prif Swyddog Meddygol a gyfarfu'n gynharach heddiw. Maent wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd sydd yn nodi eu barn yn llawn a threfnais i'w osod ar y fewnwyd. Bydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cyfarfod yfory ac argymhellaf i'r Pwyllgor y dylem gymryd camau i godi'r gwaharddiad yng Nghymru ar unwaith. Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor a'r Cynulliad yn cefnogi'r farn honno. Credaf mai hynny fydd yn digwydd. Gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes a'r Llywydd, adroddaf ymhellach i'r Cynulliad, ar ôl ystyriaethau'r Pwyllgor, i nodi'n fanylach y camau sydd i'w cymryd i godi'r gwaharddiad ar y cyfle cyntaf posibl.

Ieuan Wyn Jones: Diolch i chi am wneud y datganiad heddiw. Mae'n amlwg yn newydd i'w groesawu i'r diwydiant amaeth a bydd yn hwb sylweddol i hyder y diwydiant. Fodd bynnag, a ydych yn rhannu'r siom a deimlaf fod Dr Ruth Hall, ar ôl rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y deuai ger ein bron yfory i wneud datganiad swyddogol, wedi gwneud y datganiad hwnnw heddiw?

Christine Gwyther: Yr wyf yn falch eich bod wedi rhoi cyfle imi ateb y cwestiwn hwnnw. Cyhoeddwyd y datganiad gan y pedwar Prif Swyddog Meddygol heddiw. Yr wyf yn falch o wneud y cyhoeddiad hwn cyn i Nick Brown wneud ei gyhoeddiad yn Nhŷ'r Cyffredin brynhawn heddiw. Amserwyd hyn i'r dim, ond yr wyf wrth fy modd mai Cymru yw'r cyntaf i allu dweud hyn. Gobeithiaf y bydd modd o hyd i Dr Ruth Hall ddod i'r Pwyllgor yfory ac y bydd yn egluro datganiad y Prif Swyddogion Meddygol yn llawnach a'u rhesymau dros gyrraedd y casgliad, a groesewir gennym i gyd. Byddaf

welcome. I take the Committee's views seriously and that is why I have asked to report to the Assembly again after the Committee has met and made its decision. The Committee may want to say something different to what I am saying today. With your agreement and co-operation Ieuan, as Chair of the Agriculture and Rural Development Committee, I hope that that will happen tomorrow.

Peter Rogers: The Welsh Conservative Party welcomes this decision. I would like to pay tribute to my party for the support that it has given to lifting this ban from the first day it set foot in the Assembly. Without doubt, Welsh farmers are facing the biggest disaster that the agricultural industry or any other industry in Wales has ever faced in living memory. It has affected banks, suppliers and the farmers themselves. Today's statement will be a great help to them. We must move on and ensure that we can introduce measures to help these people. All along they have said that what they want is trade not aid, to be able to hold their heads up high, to work and run a business. Let us look now at the splitting of the ewe carcass which has ruined trade to France. Let us take on this issue and be aware that we owe Welsh farmers understanding and fairness. Let us act.

Christine Gwyther: I will answer that, even though you went on to talk about sheep and not beef—

Glyn Davies: Yes, there is a difference.

Christine Gwyther: Thank you very much, Glyn. Delightful. The ewe carcass issue is constantly under review. Today's statement sends out a clear message not only to farmers in Wales—thank you, Peter, for bringing that to my attention—but to people all over the world, that our beef has the confidence not only of the Assembly but of the Chief Medical Officer for Wales. That is important. I would like to place on record my admiration for the Agriculture and Rural

yn ystyried barn y Pwyllgor o ddifrif a dyna pam y gofynnais am gael adrodd i'r Cynulliad eto wedi i'r Pwyllgor gyfarfod a phenderfynu. Efallai y bydd y Pwyllgor am ddweud rhywbeth gwahanol i'r hyn a ddywedaf heddiw. Gyda'ch cydsyniad a chydweithrediad Ieuan, fel Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, gobeithiaf y bydd hynny'n digwydd yfory.

Peter Rogers: Mae Plaid Geidwadol Cymru'n croesawu'r penderfyniad hwn. Hoffwn dalu teyrnged i'm plaid am y gefnogaeth a roddodd i godi'r gwaharddiad hwn oddi ar y diwrnod cyntaf iddi ddod i'r Cynulliad. Nid oes amheuaeth bod ffermwyr Cymru'n wynebu'r drychineb fwyaf a wynebodd y diwydiant amaeth nac unrhyw ddiwydiant arall yng Nghymru o fewn cof. Effeithiodd ar fanciau, ar gyflenwyr ac ar y ffermwyr eu hunain. Bydd y datganiad heddiw yn gymorth mawr iddynt. Rhaid inni symud ymlaen a sicrhau y gallwn gyflwyno mesurau i helpu'r bobl hyn. Dywedasant gydol yr amser mai'r hyn y mae arnynt ei angen yw masnach nid cymorth, er mwyn gallu cerdded yn gefnsyth, a gweithio a rhedeg busnes. Gadewch inni edrych yn awr ar y rhannu ar garcasau mamogiaid sydd wedi difetha'r fasnach â Ffrainc. Gadewch inni fynd i'r afael â'r mater hwn a bod yn ymwybodol bod arnom ddyled o ddealltwriaeth a thegwch i ffermwyr Cymru. Gadewch inni weithredu.

Christine Gwyther: Fe atebaf hynny, er ichi fynd ymlaen i sôn am ddefaid ac nid cig eidion—

Glyn Davies: Oes, mae gwahaniaeth.

Christine Gwyther: Diolch yn fawr i chi, Glyn. Ardderchog. Mae mater carcasau mamogiaid yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae'r datganiad heddiw yn anfon neges bendant nid yn unig at ffermwyr yng Nghymru—diolch, Peter, am dynnu fy sylw at hynny—ond hefyd at bobl ar draws y byd, bod hyder yn ein cig eidion nid yn unig o du'r Cynulliad ond o du Prif Swyddog Meddygol Cymru. Mae hynny'n bwysig. Hoffwn gofnodi fy edmygedd o'r Pwyllgor

Development Committee. Even though it has been difficult over the months to bear this in mind, the right decision was to wait until our CMO was able to complete her evidence. I would like to place that on record.

Carwyn Jones: Does not the fact that we are now in a position to consider lifting the ban illustrate the mature way in which we, as the Agriculture and Rural Development Committee, have moved this matter forward instead of trying to lift the ban without examining the scientific evidence and trying to score cheap political points? We have looked at the matter maturely, we have had an inquiry, and having considered all the scientific evidence, we are now in a position to lift the ban. Is that not a tribute to the Committee and to yourself?

Christine Gwyther: Yes. Thank you.

Mick Bates: Hallelujah! Let us say at last that we have lifted this ban. The question I would like to ask, however, is who is in control? You have paid credit to the Committee for going through a process. The process was delayed because we had to have a full inquiry. The interim report will be concluded tomorrow. I would like to know who is in control. I have a picture of a cow on my tie with its tongue sticking out. I believe that that cow's name is Nick Brown because he is sticking his tongue out to the powers of this Assembly and saying that the ban will be lifted today before the Assembly holds its Committee meeting on Wednesday. This has been proven time after time. It draws into question the power of our Committees by suggesting that. The relevant process is this announcement by an Assembly Secretary. What about the power of the Committees where we have cross-party discussions and support for policies that you bring forward? I welcome the lifting of the ban but the power issue must be considered carefully. Where does the power lie? How on earth can you make an announcement like this when you have stalled on this issue all along in committee?

Christine Gwyther: I am glad that you have

Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Er y bu'n anodd cofio hynny dros y misoedd, y penderfyniad cywir oedd aros hyd nes y gallai ein Prif Swyddog Meddygol gwblhau ei thystiolaeth. Hoffwn roi hynny ar gof a chadw.

Carwyn Jones: Onid yw'r ffaith ein bod bellach mewn sefyllfa i ystyried codi'r gwaharddiad yn dangos y modd aeddfed y bu inni fel Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig fwrw ymlaen â'r mater hwn, yn hytrach na cheisio codi'r gwaharddiad heb archwilio'r dystiolaeth wyddonol a cheisio sgorio pwyntiau gwleidyddol dibwys? Yr ydym wedi ystyried y mater yn aeddfed, cawsom ymchwiliad, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth wyddonol, yr ydym bellach mewn sefyllfa i godi'r gwaharddiad. Onid yw hynny'n deyrnged i'r Pwyllgor ac i chi?

Christine Gwyther: Ydyw. Diolch.

Mick Bates: Haleliwia! Gadewch inni ddweud o'r diwedd ein bod wedi codi'r gwaharddiad hwn. Y cwestiwn y carwn ei ofyn, fodd bynnag, yw pwy sydd wrth y llyw? Rhoesoch glod i'r Pwyllgor am ddilyn proses. Bu oedi yn y broses am fod rhaid inni gael ymchwiliad llawn. Cwblheir yr adroddiad dros dro yfory. Hoffwn wybod pwy sydd wrth y llyw. Mae gennyf lun ar fy nhei o fuwch a'i thafod allan. Credaf mai enw'r fuwch honno yw Nick Brown oherwydd mae'n tynnu tafod ar bwerau'r Cynulliad hwn ac yn dweud y caiff y gwaharddiad ei godi heddiw cyn i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod Pwyllgor ddydd Mercher. Profwyd hyn dro ar ôl tro. Mae'n bwrw amheuaeth ar bŵer ein Pwyllgorau drwy awgrymu hynny. Y broses berthnasol yw'r cyhoeddiad hwn gan Ysgrifennydd Cynulliad. Beth am bŵer y Pwyllgorau lle y cawn drafodaethau trawsbleidiol a chefnogaeth i'r polisiau a gyflwynwch? Croesawaf godi'r gwaharddiad ond rhaid ystyried y mater pŵer yn ofalus. Ym mha le y mae'r pŵer? Sut ar y ddaear y gellwch wneud cyhoeddiad fel hyn a chithau wedi gohirio ar y mater hwn gydol yr amser yn y pwyllgor?

Christine Gwyther: Yr wyf yn falch eich

given me the opportunity to answer you on that point. I sensed a little frisson on the Liberal benches when the statement was handed round. It might be useful if you asked your Liberal Minister for Rural Affairs in Scotland where he thinks the power lies. The power lay with all four territorial Ministers—and I am one of them—to decide when the ban should be lifted. I can also tell you that if Nick Brown had the power, the ban would have been lifted during the summer before we had finished our inquiry. That would have been unacceptable, not just to me, but to all of the other Celtic Ministers. It proves you completely wrong, Mick.

bod wedi rhoi'r cyfle imi eich ateb ar y pwynt hwnnw. Synhwyrais rhyw ias ar feinciau'r Rhyddfrydwyr pan ddosbarthwyd y datganiad. Efallai y byddai'n fuddiol pe baech yn gofyn i'ch Gweinidog Rhyddfrydol dros Faterion Gwledig yn yr Alban ym mha le y mae'r pŵer yn ei farn ef. Yr oedd y pŵer gan bob un o'r pedwar Gweinidog tiriogaethol—ac yr wyf yn un ohonynt—i benderfynu pryd y dylid codi'r gwaharddiad. Gallaf ddweud wrthy'ch hefyd, pe bai'r pŵer gan Nick Brown, y byddai'r gwaharddiad wedi ei godi yn ystod yr haf cyn inni gwblhau ein hymchwiliad. Buasai hynny'n annerbyniol, nid yn unig i mi, ond i'r holl Weinidogion Celtaidd eraill. Mae'n profi eich bod yn gwbl anghywir, Mick.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Secretary (Andrew Davies): Before I give my business statement, for the clarification of Members today, I will outline the running order for the debate on the UK Government legislative programme. The Secretary of State for Wales will give an account of the legislation programme for 1999-2000. The First Secretary will then formally move the motion. Each party leader will speak and at the end of today's debate, the Secretary of State will be given an opportunity to reflect on the debate thus far. The debate will then be adjourned until Wednesday 8 December. At the end of the debate I will round it up and ask the Assembly to vote on the motion and amendments. David Hanson, the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, will then be asked to make a closing speech and reflect on the debate.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cyn imi roi fy natganiad busnes, er mwyn egluro i'r Aelodau heddiw, fe amlinellaf y drefn ar gyfer y ddadl ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n disgrifio'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 1999-2000. Wedyn bydd y Prif Ysgrifennydd yn cynnig y cynnig yn ffurfiol. Bydd pob arweinydd plaid yn siarad ac ar ddiwedd y ddadl heddiw, rhoddir cyfle i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y ddadl hyd hynny. Gohirir y ddadl wedyn tan ddydd Mercher 8 Rhagfyr. Ar ddiwedd y ddadl fe ddof â'r drafodaeth i ben a gofyn i'r Cynulliad bleidleisio ar y cynnig a'r gwelliannau. Gofynnir wedyn i David Hanson, Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru, wneud araith i gloi ac ystyried y ddadl.

Business next week will include, on 7 December, a debate on a motion tabled by Plaid Cymru and a motion to delegate the functions of the Food Standards Act 1999. The Assembly will also be asked to approve the making of three housing orders and two health orders. On Wednesday 8 December, in addition to the second part of the debate on the legislation programme, time has been allocated to approve the special grant report on the Children and Youth Partnership Fund.

Bydd busnes yr wythnos nesaf yn cynnwys, ar 7 Rhagfyr, ddadl ar gynnig a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a chynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Gofynnir i'r Cynulliad hefyd gymeradwyo gwneud tri gorchymyn tai a dau orchymyn iechyd. Ddydd Mercher 8 Rhagfyr, yn ogystal ag ail ran y ddadl ar y rhaglen ddeddfwriaethol, neilltuwyd amser i gymeradwyo'r adroddiad grant arbennig ar Gronfa Bartneriaeth Plant a Phobl Ifainc.

Plenary on Tuesday 14 December, will now also include the final statement by my colleague Edwina Hart, the Finance Secretary, on the Millennium bug and preparations thereof. Business on Wednesday 15 December will also include a motion to approve the winter supplementary estimates. The first session in the new year after the Christmas recess will include, on 18 January, the motions to approve 11 National Curriculum orders, a housing order and a motion to approve the British Gas plc (Rateable values) (Wales) Order 2000. On Wednesday 19 January, the debate will be on social inclusion. Arrangements will be made after Plenary today to place a copy of the statement on the internet and intranet.

2.59 p.m.

Following consideration by the Business Committee this morning, the Deputy Presiding Officer, in accordance with Standing Order No. 22.5, has determined that 13 Orders, including the 11 National Curriculum Orders, need not be referred to the Subject Committees. Rather than take up time reading out the Order titles, I have arranged for the determination list to be placed on the Chamberweb under 'supporting documents'.

Business for today was to have included a motion to approve the three-month timetable statement. However, since it was tabled, changes have been made to the timings of some of the Committee meetings. I therefore propose to table an amended timetable and motion today for approval in Plenary next week.

The Presiding Officer: Under the new procedure, I am required to invite a spokesperson from each party to speak briefly on the Business Statement.

David Melding: The Conservative group is grateful to Labour Party Assembly Members for passing on important correspondence to us. Would the Business Secretary like to formalise this procedure by including us on

Bydd y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 14 Rhagfyr yn awr yn cynnwys y datganiad terfynol gan fy nghydweithiwr Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid, ar ddiffyg y Mileniwm a'r paratodau ar gyfer hynny. Bydd busnes dydd Mercher 15 Rhagfyr hefyd yn cynnwys cynnig i gymeradwyo amcangyfrifon atodol y gaeaf. Bydd y sesiwn gyntaf yn y flwyddyn newydd ar ôl toriad y Nadolig, ar 18 Ionawr, yn cynnwys y cynigion i gymeradwyo 11 gorchymyn Cwricwlwm Cenedlaethol, gorchymyn tai a chynnig i gymeradwyo Gorchymyn Nwy Prydain ccc (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000. Ddydd Mercher 19 Ionawr, bydd y ddadl ar gynhwysiant cymdeithasol. Gwneir trefniadau ar ôl y Cyfarfod Llawn heddiw i osod copi o'r datganiad ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd.

Ar ôl ystyriaeth gan y Pwyllgor Busnes fore heddiw, mae'r Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.5, wedi penderfynu bod 13 Gorchymyn, gan gynnwys yr 11 Gorchymyn Cwricwlwm Cenedlaethol, nad oes angen eu cyfeirio i'r Pwyllgorau Pwnc. Yn hytrach na threulio amser yn darllen teitlau'r Gorchymynion, trefnais i osod y rhestr benderfyniadau ar we'r Siambr o dan 'dogfennau ategol'.

Yr oedd y busnes ar gyfer heddiw i fod i gynnwys cynnig i gymeradwyo'r datganiad am yr amserlen dri-mis. Fodd bynnag, ers ei gyflwyno, gwnaethpwyd newidiadau i amseroedd rhai o gyfarfodydd y Pwyllgorau. Felly bwriadaf gyflwyno amserlen a chynnig wedi eu diwygio heddiw i'w cymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf.

Y Llywydd: O dan y weithdrefn newydd, mae'n ofynnol imi wahodd llefarydd o bob plaid i siarad yn fyr ar y Datganiad Busnes.

David Melding: Mae'r grŵp Ceidwadol yn ddiolchgar i Aelodau Cynulliad o'r Blaidd Lafur am drosglwyddo gohebiaeth bwysig i ni. A hoffai'r Trefnydd ffurfioli'r weithdrefn hon drwy ein cynnwys ar ei restr bostio

his official mailing list? [*Laughter.*]

swyddogol? [*Chwerthin.*]

The Presiding Officer: Are there any comments from other parties? There are not. Would the Business Secretary like to respond?

Y Llywydd: A oes unrhyw sylwadau gan bleidiau eraill? Nac oes. A yw'r Trefnydd yn dymuno ymateb?

Andrew Davies: Yes. I am sure that you will be on my Christmas card list, David, if not on my e-mail list.

Andrew Davies: Ydw. Yr wyf yn sicr y byddwch ar fy rhestr i dderbyn cerdyn Nadolig, David, os nad ar fy rhestr e-bost.

David Melding: And likewise.

David Melding: Minnau'r un fath.

*Derbyniwyd y Datganiad Busnes.
Business Statement adopted.*

Rhan 1 Blaen-raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth The Government's Forward Legislative Programme Part 1

The Presiding Officer: I have selected the following amendments. Amendment 1 in the name of Nick Bourne, amendment 2 in the name of David Melding, amendment 3 in the name of Dafydd Wigley and amendments 4, 5 and 6 in the name of Mike German.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol y gwelliannau canlynol. Gwelliant 1 yn enw Nick Bourne, gwelliant 2 yn enw David Melding, gwelliant 3 yn enw Dafydd Wigley a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw Mike German.

It gives me particular pleasure to call on the Secretary of State for Wales, Paul Murphy. I extend our congratulations to him on being recently awarded the title Minister to Watch. Today the peace process in Northern Ireland appears to be coming to fruition, for which Paul Murphy, as the Minister with responsibility for political development, had significant responsibility. I am sure that our sister Assembly in Northern Ireland is in our thoughts today as it moves towards a new democratic structure.

Pleser o'r mwyaf i mi yw galw ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy. Estynnaf ein llongyfarchion iddo ar ddyfarnu iddo'n ddiweddar deitl y Gweinidog i'w Wyllo. Heddiw mae'n ymddangos bod y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon yn dwyn ffrwyth, sef yr hyn yr oedd gan Paul Murphy gryn gyfrifoldeb drosti, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros ddatblygu gwleidyddol. Yr wyf yn sicr bod ein chwaer Gynulliad yng Ngogledd Iwerddon yn ein meddyliau heddiw wrth iddo symud tuag at strwythur democrataidd newydd.

The Secretary of State for Wales: Thank you for those kind words, Mr Presiding Officer. As I sat listening to your business during the past hour, I was intrigued to see how different are the procedures that we have adopted in Wales to those in Westminster. I was intrigued by the technology, but particularly by the description to a foreign visitor of my seat, which is red and labelled vacant, and I am a member of the Plaid Cymru front-bench. That is certainly different.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Diolch am y geiriau caredig hynny, Lywydd. Wrth eistedd a gwrando ar eich busnes yn ystod yr awr ddiwethaf, yr oedd yn ddiddorol iawn imi weld mor wahanol yw'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gennym yng Nghymru i'r rhai yn San Steffan. Fe'm cyfareddwyd gan y dechnoleg, ond yn arbennig gan y disgrifiad o'm sedd i ymwelydd tramor, sydd yn goch ac arwydd 'gwag' arni, ac yr wyf yn aelod o fainc flaen Plaid Cymru. Mae hynny yn sicr yn wahanol.

You rightly made a link between the business that will be before the House of Commons this evening and that which is before the Assembly today. There is a link, because both are unique and historic occasions. As far as we in Wales are concerned, the uniqueness lies in the fact that under the Government of Wales Act 1998, I am required to come to the Assembly and outline the legislative programme that was announced by the Queen in the House of Lords some weeks ago. It is not just an entitlement and a requirement, but a great pleasure and a privilege for me to do that. Later on, I will go into some detail about the Bills that affect the Assembly and the people of Wales.

However, equally significant today is the fact that when I return to London this afternoon I will vote with my colleagues on the Devolution Order for Northern Ireland. Today, the powers will be transferred from Westminster to Belfast so that proper and full devolution can take place in Northern Ireland. It is a double pleasure for me because of my previous time as Minister of State for Northern Ireland and because I addressed the Northern Ireland Assembly on the budget some months ago. Of all members of the British Government, I have had the unique privilege of addressing two of the three Assemblies and Parliaments that have been devolved in the last two years in the United Kingdom.

We all understand that this is part of a wider constitutional change, which my Government is committed to and which has already been mentioned in the debate today. The wider constitutional change can be seen in devolution in Wales, in the Scottish Parliament, in the Northern Ireland Assembly and also in the change in the House of Lords where the system to which we have been accustomed all these years will no longer exist. There are other changes as well.

The process of devolution, as far as Wales is concerned, can also be seen in the context of where the Assembly fits into the United Kingdom Parliament. The fact that I am here as the Secretary of State for Wales, with a

Yr oeddech yn gywir wrth nodi'r cysylltiad rhwng y busnes a fydd gerbron Tŷ'r Cyffredin heno a'r hyn sydd gerbron y Cynulliad heddiw. Mae cysylltiad, oherwydd mae'r ddau'n achlysuron unigryw a hanesyddol. O'n rhan ni yng Nghymru, mae'n unigryw am ei bod yn ofynnol, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, imi ddod i'r Cynulliad ac amlinellu'r rhaglen ddeddfwriaethol a gyhoeddwyd gan y Frenhines yn Nhŷ'r Arglwyddi rai wythnosau'n ôl. Nid hawl a gofyniad yn unig yw gwneud hynny, ond pleser mawr a braint. Yn ddiweddarach, byddaf yn ymdrin yn fanwl â Mesurau sydd yn effeithio ar y Cynulliad ac ar bobl Cymru.

Fodd bynnag, yr hyn sydd o'r un pwysigrwydd heddiw yw y byddaf, pan ddychwelaf i Lundain brynhawn heddiw, yn pleidleisio gyda fy nghydweithwyr ar y Gorchymyn Datganoli ar gyfer Gogledd Iwerddon. Heddiw, trosglwyddir y pwerau o San Steffan i Belfast fel y gall datganoli llawn a phriodol ddigwydd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n bleser dwbl i mi oherwydd fy nghyfnod blaenorol yn Weinidog Gwladol dros Ogledd Iwerddon ac am imi annerch Cynulliad Gogledd Iwerddon ar y gyllideb rai misoedd yn ôl. O blith holl aelodau Llywodraeth Prydain, cefais y fraint unigryw o annerch dau o'r tri Chynulliad a Senedd a ddatganolwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn y Deyrnas Unedig.

Yr ydym oll yn deall bod hyn yn rhan o newid cyfansoddiadol ehangach, y mae fy Llywodraeth wedi ymrwymo iddo ac a grybwyllwyd eisoes yn y ddadl heddiw. Gellir gweld y newid cyfansoddiadol ehangach ar ffurf datganoli yng Nghymru, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon ac yn y newid yn Nhŷ'r Arglwyddi lle y bydd y system y buom yn gyfarwydd â hi ers blynnyddoedd lawer yn dod i ben. Ceir newidiadau eraill hefyd.

Gellir gweld proses datganoli hefyd, mewn cysylltiad â Chymru, yng nghyd-destun y modd y mae'r Cynulliad yn ffitio i Senedd y Deyrnas Unedig. Mae'r ffaith fy mod yma fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, sydd â lle o

place still on the UK Cabinet, is important in ensuring that that partnership will continue.

The partnership will also be seen dramatically tomorrow when Peter Mandelson, the Secretary of State for Northern Ireland, and David Andrews, the Irish Minister for Foreign Affairs, will sign the communiqué. The communiqué will set up the British-Irish Council, which is sometimes referred to as the Council of the Isles. I and Liz O'Donnell, the Minister of State at the Department of Foreign Affairs, chaired the talks which set up the British-Irish Council. We were conscious that the new devolved Assemblies and Parliaments in the United Kingdom would play a significant role in the BIC. I hope that when the details of the BIC are announced in the next week or two Wales will play its part in that Council. There is an opportunity within the Council for bilateral arrangements between the Republic of Ireland, Northern Ireland, Scotland, the Isle of Man and England. I hope that this Assembly will play a significant and meaningful role in those bilateral arrangements. I am sure that it will.

It is important, in the context of what is happening today in Northern Ireland and Cardiff, that the Assemblies have been set up as a result of referenda. It is as a result of the will of the Welsh and Scottish people that the National Assembly and the Scottish Parliament have been established. The same is true for Northern Ireland, where the Assembly has been set up across the two communities.

Our thoughts today must be on those matters affecting our own country. My thoughts go to my first predecessor as Secretary of State for Wales, James Griffiths, a miners' leader and a statesman of international repute who was the first Secretary of State to ensure that devolution of a sort came to Wales. In the Chamber today, three of us hold or have held the distinction of being Secretary of State for Wales. The eleventh and twelfth Secretaries of State for Wales are here, as well as myself, the thirteenth. I stress that because it

hyd yng Nghabinet y DU, yn bwysig wrth sicrhau y bydd y bartneriaeth honno'n parhau.

Fe welir y bartneriaeth yn drawiadol yfory hefyd pan fydd Peter Mandelson, Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, a David Andrews, Gweinidog Iwerddon dros Faterion Rhyngwadol, yn llofnodi'r neges. Bydd y neges yn sefydlu Cyngor Prydain-Iwerddon, y cyfeirir ato weithiau fel Cyngor yr Ynysoedd. Liz O'Donnell, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Materion Tramor, a minnau a gadeiriodd y trafodaethau a sefydlodd Gyngor Prydain-Iwerddon. Yr oeddem yn ymwybodol y byddai'r Cynulliaidau a'r Seneddau datganoledig newydd yn y Deyrnas Unedig yn chwarae rôl bwysig yng Nghyngor Prydain-Iwerddon. Gobeithiaf, pan gyhoeddir manylion Cyngor Prydain-Iwerddon o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf, y bydd Cymru'n chwarae ei rhan yn y Cyngor hwnnw. Mae cyfle o fewn y Cyngor i gael trefniadau dwyochrog rhwng Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Ynys Manaw a Lloegr. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad hwn yn chwarae rôl sylweddol ac ystyrlon yn y trefniadau dwyochrog hynny. Yr wyf yn sicr y bydd.

Mae'n bwysig, yng nghyd-destun yr hyn sydd yn digwydd heddiw yng Ngogledd Iwerddon ac yng Nghaerdydd, fod y Cynulliaidau wedi eu sefydlu o ganlyniad i refferenda. O ganlyniad i ddymuniad pobl Cymru a'r Alban y sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd yr Alban. Mae'r un peth yn wir am Ogledd Iwerddon, lle y sefydlwyd y Cynulliad ar draws y ddwy gymuned.

Rhaid inni droi ein meddyliau heddiw at y materion sydd yn effeithio ar ein gwlad ein hunain. Byddaf yn cofio am fy rhagflaenydd cyntaf yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, James Griffiths, un o arweinyddion y glowyr a gwladweinydd o fri rhyngwladol, sef yr Ysgrifennydd Gwladol cyntaf i sicrhau bod datganoli o ryw fath yn dod i Gymru. Yn y Siambr heddiw, cafodd tri ohonom yr anrhydedd o fod yn awr neu yn y gorffennol yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae unfed Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ddeg yma,

signifies a significant partnership between the United Kingdom Government and the National Assembly for Wales. We are elected representatives of the people. Irrespective of the political parties to which we belong, we will be able to work together to solve common problems and to ensure that the quality of life of Welsh women and men is improved. The test for all of us as politicians, whether we sit in the House of Commons or in the Assembly, is whether people's lives are better at the end of our term of office. Are their lives improved, collectively or individually, as a result of what we do as an institution?

3:09 p.m.

There are several examples where the partnership, the UK Government and the National Assembly for Wales, has worked together. That is important for the people that you and I represent and already happens to a large extent in training, sport and science, where Assembly Secretaries meet their Whitehall counterparts to solve common problems.

A classic example of an issue on which we can work together is the elimination of poverty and deprivation. We in Wales know a great deal about that. My Government still has responsibility for taxation, social security and overall economic policy, which are all vital in tackling poverty. However, the Assembly has responsibility for housing, health and education, which are equally vital in ensuring that our people are taken out of the terrible bondage of deprivation and poverty.

To that end, my colleague, the Secretary of State for Social Security, Alistair Darling, will visit Cardiff tomorrow, and will meet Alun and others. He will indicate more specifically how we can ensure that that partnership grows and develops for the benefit of Welsh people, particularly in tackling poverty. I wanted to ensure today that Assembly Members were aware that the idea of partnership has been in my mind and

a'r deuddegfed, a minnau, y trydydd ar ddeg. Pwysleisiaf hynny oherwydd mae'n arwydd o bartneriaeth bwysig rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr ydym yn gynrychiolwyr etholedig y bobl. I ba bynnag blaid wleidyddol yr ydym yn perthyn, byddwn yn gallu cydweithio i ddatrys problemau cyffredin a sicrhau gwelliant yn ansawdd bywyd merched a dynion Cymru. Y prawf arnom oll fel gwleidyddion, pa un a ydym yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin neu yn y Cynulliad, yw a fydd bywydau pobl yn well ar ddiwedd ein cyfnod yn y swydd. A yw eu bywydau'n well, gyda'i gilydd neu'n unigol, o ganlyniad i'r hyn a wnawn fel sefydliad?

Ceir sawl enghraifft lle y mae'r bartneriaeth, Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi gweithio gyda'i gilydd. Mae hynny'n bwysig i'r bobl yr ydych chi a minnau'n eu cynrychioli ac mae eisoes yn digwydd i raddau helaeth mewn hyfforddi, chwaraeon a gwyddoniaeth, lle y bydd Ysgrifenyddion Cynulliad yn cyfarfod â'u cymheiriaid yn Whitehall i ddatrys problemau sydd yn gyffredin.

Enghraifft glasurol o fater lle y gallwn weithio gyda'n gilydd yw dileu tlodi ac amddifadedd. Gwyddom lawer am hynny yng Nghymru. Mae fy Llywodraeth i'n gyfrifol o hyd am drethu, nawdd cymdeithasol a pholisi economaidd cyffredinol, sydd yn hollbwysig wrth fynd i'r afael â thlodi. Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb dros dai, iechyd ac addysg, sydd yr un mor bwysig wrth sicrhau y bydd ein pobl yn cael eu rhyddhau o rwymau ofnadwy amddifadedd a thlodi.

I'r diben hwnnw, bydd fy nghydweithiwr, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol, Alistair Darling, yn ymweld â Chaerdydd yfory, ac yn cyfarfod ag Alun ac eraill. Bydd yn nodi'n fanylach sut y gallwn sicrhau bod y bartneriaeth honno'n tyfu ac yn datblygu er budd pobl Cymru, yn enwedig wrth ymdrin â thlodi. Yr oeddwn am sicrhau heddiw fod Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol bod y syniad o bartneriaeth yn fy

in the minds of all of us who represent Welsh constituencies.

The process today is different from what it will be normally. After all, the Assembly has only been functioning since July. Some of that time was, inevitably, taken up with housekeeping matters. Some time was taken up by the recess that was nearly upon us when the Assembly began. In a normal parliamentary and Assembly year we have a whole year to consult and talk to each other about primary legislation. We did not have that opportunity this year. There has, however, been informal consultation between Assembly Officials and relevant Government Departments, including my own. There have also been talks between the First Secretary and myself. However, this is the first formal and important aspect of consultation upon such primary legislation, and it is not the end of the story.

Andrew referred to the next stage. The Assembly will continue its debate next week. My deputy, the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, David Hanson, will be in my place. He will be charged with responsibility for looking at the detail of this legislation taken through the House of Commons, its Standing Committee and the floor of the House. It is proper that he is here too to listen to Assembly Members' views, so that when he will then have to deal with detailed points in the Commons Standing Committees—the Members of Parliament here will understand that—he will have had the opportunity of listening to your debate.

I move to some of the details of the legislative programme in front of us. Some 28 Bills will face the House of Commons and the House of Lords next year. They are outlined according to several major themes: enterprise, fairness, modernisation and partnership. On enterprise, we considered yesterday the second reading of the Electronic Communications Bill, and we will be dealing with the Postal Services Bill. On fairness, there are Bills dealing with welfare reform and care leavers. On modernisation, there are the Local Government Bill, and the

meddwl i ac ym meddwl pawb ohonom sydd yn cynrychioli etholaethau yng Nghymru.

Mae'r broses heddiw yn wahanol i'r hyn a geir fel arfer. Wedi'r cwbl, nid yw'r Cynulliad ond ar waith ers Gorffennaf. Yr oedd yn anorfod bod rhywfaint o'r amser hwnnw wedi ei dreulio ar faterion cadw tŷ. Cymerwyd rhywfaint o amser gan y toriad a oedd bron ar ein gwarthaf pan ddechreuodd y Cynulliad. Mewn blwyddyn arferol i'r Senedd a'r Cynulliad bydd gennym flwyddyn gyfan i ymgynghori a siarad â'n gilydd ynghylch deddfwriaeth sylfaenol. Ni chawsom y cyfle hwnnw eleni. Fodd bynnag, cafwyd ymgynghori anffurfiol rhwng Swyddogion y Cynulliad ac Adranau perthnasol o'r Llywodraeth, gan gynnwys fy un i. Bu trafodaethau hefyd rhwng y Prif Ysgrifennydd a minnau. Fodd bynnag, hon yw'r agwedd ffurfiol a phwysig gyntaf ar ymgynghori ar ddeddfwriaeth sylfaenol o'r fath, ac nid dyma ddiwedd y stori.

Cyfeiriodd Andrew at y cam nesaf. Bydd y Cynulliad yn parhau â'i ddadl yr wythnos nesaf. Bydd fy nirprwy, yr Is-Ysgrifennydd Seneddol dros Gymru, David Hanson, yn fy lle. Rhoddir iddo'r cyfrifoldeb dros edrych ar fanylion y ddeddfwriaeth hon sydd yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin, ei Bwyllgorau Sefydlog a llawr y Tŷ. Mae'n briodol ei fod yma hefyd i wrando ar farn Aelodau'r Cynulliad, fel y bydd wrth ymdrin wedyn â phwyntiau manwl ym Mhwyllgorau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin—bydd yr Aelodau Seneddol sydd yma'n deall hynny—wedi cael cyfle i wrando ar eich dadl.

Symudaf ymlaen at rai o fanylion y rhaglen ddeddfwriaethol sydd ger ein bron. Daw rhyw 28 o Fesurau o flaen Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi y flwyddyn nesaf. Fe'u hamlinellir yn ôl sawl prif thema: menter, tegwch, moderneiddio a phartneriaeth. Ynglŷn â menter, bu inni ystyried ddoe ail ddarlleniad y Mesur Cyfathrebu Electronig, a byddwn yn ymdrin â'r Mesur Gwasanaethau Post. Ynglŷn â thegwch, ceir Mesurau sydd yn ymdrin â diwygio lles a'r rhai sydd yn gadael gofal. Ynglŷn â moderneiddio, mae'r Mesur Llywodraeth Leol, a'r Mesur Safonau

Care Standards Bill. On partnership, three of those Bills—on education, local government and care standards—are matters that deal specifically with the problems of Wales, and in which there will be clauses relating to Wales. They will be the responsibility of the Assembly.

All Westminster legislation affects Wales to a greater or lesser extent, although certain legislation is specifically geared towards the needs of Wales and the Assembly will address that legislation.

There are other Bills such as the Fur Farming Prohibition Bill, which is an important issue. I understand that there are no fur farms in Wales, but I am sure that Members have an interest in that legislation. The Race Relations (Amendment) Bill implements the important recommendation of the Stephen Lawrence inquiry that race relations legislation should apply to the police, and goes further in bringing all public services within the scope of the legislation. However, it does not change the powers or duties of the Assembly. Neither does the Utility Regulation Bill, which will give regulators the primary duty of protecting the consumer interest.

Other Bills mentioned in today's motion will impact more directly on the Assembly. The Children (Leaving Care) Bill will place a duty on local authorities to ensure that young people leave care only when they are ready to do so and with proper support. There is no difference between England and Wales on that and there should not be. The Special Educational Needs Bill establishes better partnership arrangements and conciliation procedures between parents and local authorities so that parents get a better service. It will strengthen the right of children with special educational needs to attend mainstream schools if their parents so wish. Again, there is no difference between England and Wales on that.

Gofal. Ynglŷn â phartneriaeth, mae tri o'r Mesurau hynny—ar addysg, llywodraeth leol a safonau gofal—yn faterion sydd yn ymdrin yn benodol â phroblemau Cymru, ac yn cynnwys cymalau sydd yn ymwneud â Chymru. Byddant yn gyfrifoldeb i'r Cynulliad.

Mae holl ddeddfwriaeth San Steffan yn effeithio ar Gymru i ryw raddau, er bod rhai deddfau wedi eu cyfeirio'n benodol at anghenion Cymru a bydd y Cynulliad yn rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth honno.

Ceir Mesurau eraill fel y Mesur Gwahardd Ffermio Ffwr, sydd yn fater pwysig. Deallaf nad oes ffermydd ffwr yng Nghymru, ond yr wyf yn sicr bod gan yr Aelodau ddiddordeb yn y ddeddfwriaeth honno. Mae'r Mesur Cysylltiadau rhwng yr Hiliau (Diwygiad) yn gweithredu argymhelliad pwysig ymchwiliad Stephen Lawrence y dylai deddfwriaeth cysylltiadau rhwng yr hiliau fod yn berthnasol i'r heddlu, ac â'n bellach na hynny drwy gynnwys yr holl wasanaethau cyhoeddus o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, nid yw'n newid pwerau na dyletswyddau'r Cynulliad. Mae hynny'n wir hefyd am y Mesur Rheoleiddio Cyfleustodau, sydd yn rhoi'r brif ddyletswydd dros ddiogelu buddiannau defnyddwyr i'r rheoleiddwyr.

Bydd Mesurau eraill a grybwyllir yn y cynnig heddiw yn effeithio'n fwy uniongyrchol ar y Cynulliad. Bydd y Mesur Plant (Gadael Gofal) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau na fydd pobl ifainc yn gadael gofal ond pan fyddant yn barod a'u bod yn cael cymorth priodol. Nid oes gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr yn hynny o beth ac ni ddylai fod. Mae'r Mesur Anghenion Addysgol Arbennig yn sefydlu gwell trefniadaeth partneriaeth a gweithdrefnau cymodi rhwng rhieni ac awdurdodau lleol fel bod rhieni'n derbyn gwasanaeth gwell. Bydd yn cryfhau hawl plant ag anghenion addysgol arbennig i fynychu ysgolion y brif ffrwd os yw eu rhieni'n dymuno hynny. Unwaith eto, nid oes gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr ynghylch hynny.

The Transport Bill will establish a strategic rail authority, on which there will be a Welsh member. It will provide for quality partnerships between bus operators and local authorities, and implement our promise to give all elderly people the right to half price bus fares. It will give local authorities powers to introduce road and workplace parking charges, which will be retained by the local authority to be put back into public transport and roads. There will be a Freedom of Information Bill, which is a major step in fulfilling our manifesto commitment to openness in government. It may not change the way in which the Assembly operates all that much, but you already have an open policy reinforced by your Code of Practice on Public Access to Information.

Janet Ryder *rose—*

The Presiding Officer: Do you wish to make an intervention at this point, or do you wish to intervene on the Assembly Secretary? I consider the latter option to be more appropriate. However, it is a matter for the Secretary of State.

Janet Ryder: I would rather raise this issue with the Secretary of State, as it must be raised in Westminster.

The Presiding Officer: I suggest that it would be more appropriate for the following speech by the First Secretary, since he is accountable to the Assembly for his activity.

The Secretary of State for Wales: I am quite happy to listen to what Members have to say at the end, and come back and make my comments. However, I am in the hands of the Assembly and yourself, Presiding Officer, because you need to deal with the issue of precedence here.

Janet Ryder: Presiding Officer, that is exactly the point—

The Presiding Officer: Are you raising a point of order?

Bydd y Mesur Trafnidiaeth yn sefydlu awdurdod rheilffyrdd strategol, ac arno aelod o Gymru. Bydd yn darparu ar gyfer partneriaethau o ansawdd da rhwng gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol, ac yn cyflawni ein haddewid i roi'r hawl i bawb mewn oed gael tocynnau bws am hanner pris. Bydd yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol gyflwyno taliadau am barcio ar y ffordd ac yn y gweithle, a gedwir gan yr awdurdodau lleol i'w rhoi'n ôl at drafnidiaeth gyhoeddus a ffyrdd. Bydd Mesur Rhyddid Gwybodaeth, sydd yn gam mawr tuag at gyflawni'r ymrwymiad i lywodraeth agored sydd yn ein manifffesto. Efallai na fydd yn newid gymaint â hynny ar ddull gweithio'r Cynulliad, ond mae gennych bolisi agored eisoes sydd wedi ei atgyfnerthu â'ch Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Janet Ryder *a gododd—*

Y Llywydd: A ddymunwch godi pwynt yn awr, ynteu a ddymunwch godi pwynt gyda'r Ysgrifennydd Cynulliad? Barnaf mai'r dewis olaf yw'r mwyaf priodol. Fodd bynnag, mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw hyn.

Janet Ryder: Byddai'n well gennyf godi'r mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, oherwydd bydd yn rhaid ei godi yn San Steffan.

Y Llywydd: Awgrymaf y byddai'n fwy priodol ar gyfer yr araith ddilynol gan y Prif Ysgrifennydd, gan ei fod yn atebol i'r Cynulliad am ei weithgaredd.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Byddaf yn falch iawn o wrando ar yr hyn sydd gan yr Aelodau i'w ddweud ar y diwedd, a dof yn ôl a gwneud fy sylwadau. Fodd bynnag, yr wyf yn nwylo'r Cynulliad a chithau, Lywydd, oherwydd mae angen ichi ymdrin â mater o gysail yn y fan hyn.

Janet Ryder: Lywydd, dyna'r pwynt yn union—

Y Llywydd: A ydych yn codi pwynt o drefn?

Janet Ryder: No, I am asking whether the Secretary of State for Wales will take this intervention.

The Presiding Officer: No, the Secretary of State is not giving way.

The Secretary of State for Wales: As I indicated, I will answer points at the end of the debate.

Rhodri Glyn Thomas: Pwynt o drefn. A yw siaradwyr sydd yn dod i'r Cynulliad yn ddarostyngedig i'w Reolau Sefydlog? Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod hawl ymyrryd yn ystod araith.

Y Llywydd: Awgrymaf ein bod yn cymryd materion o drefn ar ddiwedd yr araith a'n bod yn cyfyngu'r drafodaeth ar hyn o bryd i wrando ar yr Ysgrifennydd Gwladol. Os oes rhywun yn dymuno gwneud sylwadau, bydd cyfle i wneud hynny nes ymlaen yn y ddatl.

The Secretary of State for Wales: The Countryside Bill will provide access to open countryside and stronger measures to protect wildlife. There has been concern about access provisions in Wales, but similar provisions have always been a condition of agri-environmental schemes. The following three Bills will make specific reference to Wales and will be of particular interest to the Assembly.

The first is the Local Government Bill. That was introduced into the House of Lords last Thursday and was published last Friday. It will give councils new powers to promote the social, economic and environmental wellbeing of their areas. It will create a strong ethical framework, which will promote high standards of conduct among councillors and council officers. It will give councils powers to create strong local partnerships to work together to identify local priorities. It will create a new grant for councils to fund support services for vulnerable people through a single budget and it will streamline councils' management structures, with the options of cabinet or mayor-type systems.

Janet Ryder: Nac ydwyf, yr wyf yn gofyn a yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n fodlon imi ymyrryd.

Y Llywydd: Nac ydyw, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ildio.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Fel y nodais, atebaf bwyntiau ar ddiwedd y ddatl.

Rhodri Glyn Thomas: Point of order. Are speakers who come to the Assembly subject to its Standing Orders? The Standing Orders state that there is a right to intervene during a speech.

The Presiding Officer: I suggest that we take points of order at the end of the speech, and that we restrict the discussion at present to listening to the Secretary of State. If anybody wishes to make comments, there will be an opportunity to do so later in the debate.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bydd y Mesur Cefn Gwlad yn darparu mynediad i gefn gwlad agored a mesurau cryfach i ddiogelu bywyd gwylt. Bu pryder ynghylch darpariaethau mynediad yng Nghymru, ond bu darpariaethau o'r fath yn amod erioed mewn cynlluniau amaethyddol-amgylcheddol. Bydd y tri Mesur canlynol yn cyfeirio'n benodol at Gymru a byddant o ddiddordeb arbennig i'r Cynulliad.

Y cyntaf yw'r Mesur Llywodraeth Leol. Fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ddydd Iau diwethaf a'i gyhoeddi ddydd Gwener diwethaf. Bydd yn rhoi pwerau newydd i gynghorau hybu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu hardaloedd. Bydd yn creu fframwaith moesegol cryf, fydd yn hybu safonau ymddygiad uchel ymhlith cynghorwyr a swyddogion cynghorau. Bydd yn rhoi pwerau i gynghorau greu partneriaethau lleol cryf er mwyn cydweithio i ddynodi blaenoriaethau lleol. Bydd yn creu grant newydd i gynghorau er mwyn ariannu gwasanaethau cefnogaeth i bobl sydd yn agored i niwed drwy un gyllideb a bydd yn symleiddio strwythurau rheoli cynghorau, gyda'r dewis o system gabinet neu faerol.

3:19 p.m.

For Wales, these will define further types of local authority executive, though Wales will not be able to make secondary legislation on the conduct of mayoral elections as electoral matters will remain a UK Government function. However, the legislation will give the Assembly greater flexibility to decide the methods that local authorities can use in terms of political management.

The Care Standards Bill does not implement the Waterhouse recommendations. We have just had the report of the North Wales Child Abuse Inquiry and that report will not be published until the new year. However the provisions in the Care Standards Bill are sensible in any event. They will establish a commission for care standards, an independent national body to regulate social care services and private and voluntary healthcare. In Wales, the regulatory functions are being conferred on the Assembly. The Bill will establish a general social care council to oversee standards and training throughout the social care workforce. In Wales, a care council for Wales will carry out those functions. The Bill will also reform the regulation of early years childcare by transferring responsibility from local authorities to a new arm of the Office for Standards in Education in England. In Wales, this will be achieved by transferring the regulation of childcare to the Assembly, while Estyn will continue to inspect nurseries.

The third Bill, the Learning and Skills Bill, formally known as the Post-16 Education and Training Bill, will also be significant for Wales. In England, it will create the learning and skills council and it will establish a youth support service to work with all young people aged 13 to 19, to increase the proportion that stay in learning. The Bill will rationalise the existing inspection systems and bring the inspection on provision for

Ar gyfer Cymru, byddant yn diffinio mathau pellach o adrannau gweithredol mewn awdurdodau lleol, er na fydd Cymru'n gallu llunio is-ddeddfwriaeth ar gynnal etholiadau meiri gan fod materion etholiadol yn swyddogaeth i Lywodraeth y DU o hyd. Fodd bynnag, bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu'r dulliau y caiff awdurdodau lleol eu defnyddio o ran rheolaeth wleidyddol.

Nid yw'r Mesur Safonau Gofal yn gweithredu argymhellion Waterhouse. Yr ydym newydd dderbyn adroddiad yr Ymchwiliad Cam-drin Plant Gogledd Cymru ac ni chyhoeddir yr adroddiad hwnnw tan y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, mae darpariaethau'r Mesur Safonau Gofal yn rhai doeth, beth bynnag. Byddant yn sefydlu comisiwn dros safonau gofal, sef corff cenedlaethol annibynnol i reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd preifat a gwirfoddol. Yng Nghymru, cyflwynir y swyddogaethau rheoleiddio i'r Cynulliad. Bydd y mesur yn sefydlu cyngor gofal cymdeithasol cyffredinol i oruchwylio safonau a hyfforddi ar gyfer yr holl weithlu gofal cymdeithasol. Yng Nghymru, bydd cyngor gofal i Gymru'n cyflawni'r swyddogaethau hynny. Bydd y Mesur hefyd yn diwygio rheoleiddiad gofal plant yn eu blynyddoedd cynnar drwy drosglwyddo cyfrifoldeb o awdurdodau lleol i adain newydd o'r Swyddfa dros Safonau mewn Addysg yn Lloegr. Yng Nghymru, cyflawnir hyn drwy drosglwyddo rheoleiddiad gofal plant i'r Cynulliad, tra bydd Estyn yn parhau i archwilio meithrinfeydd.

Bydd y trydydd Mesur, y Mesur Dysgu a Medrau, a elwir yn ffurfiol yn Fesur Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, hefyd yn bwysig i Gymru. Yn Lloegr, bydd yn creu'r cyngor dysgu a medrau ac yn sefydlu gwasanaeth cefnogaeth ieuencid i weithio gyda'r holl bobl ifainc 13 i 19 oed, er mwyn cynyddu'r gyfran sydd yn aros mewn addysg. Bydd y Mesur yn rhesymoli'r systemau archwilio presennol ac yn cyfuno'r dull gweithredu ar

adults and work-based training into a single approach, and it will provide funding and planning arrangements for school sixth forms and make other associated changes suitable for the new post-16 arrangements.

For Wales in particular—and much of this legislation was born in Wales—it will enable the Assembly to implement the Education and Training Action Group proposals. It will provide for the creation of the national council for education and training for Wales and will set out its core duties and powers. It will abolish the Further Education Funding Council for Wales and provide for Estyn to assume responsibility for all provision established by the national council. The Bill will also make corresponding amendments to the Further and Higher Education Act 1992 and other legislation corresponding to those which will be made in England.

Those are the three main Bills in which the Assembly will have a particular interest, and there will be occasions in the months ahead when the Assembly will debate these matters. The opportunity will arise, even though those Bills will have been published, for amendments to be tabled either in the House of Commons or in the House of Lords, to take into account the proposals that the Assembly will, I know, sensibly put forward.

All of us here represent people. I have represented the people of Torfaen, either in the council chamber or in the House of Commons, for a quarter of a century. It is important, whether we are in the Assembly, the House of Commons or in a council chamber, that we never forget the great privilege of representing women and men. Sometimes in the hurly-burly of a committee room, the Assembly or House of Commons Chamber, we forget that we represent many thousands of people. We are able to understand that better when legislation made between us affects those men and women. It is made to improve the quality of their lives.

My role as Secretary of State for Wales is

gyfer archwilio'r ddarpariaeth i oedolion a hyfforddiant sydd yn seiliedig ar waith, a bydd yn darparu trefniadau ariannu a chynllunio ar gyfer dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ac yn gwneud newidiadau cysylltiedig eraill sydd yn addas i'r trefniadau ôl-16 newydd.

Ar gyfer Cymru'n arbennig—ac mae llawer o'r deddfwriaeth hon â'i dechreuadau yng Nghymru—bydd yn galluogi'r Cynulliad i weithredu cynigion y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant. Darpara ar gyfer creu'r cyngor cenedlaethol dros addysg a hyfforddiant i Gymru gan nodi ei ddyletswyddau a'i bwerau craidd. Bydd yn dileu Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ac yn galluogi Estyn i ymgymryd â chyfrifoldeb dros yr holl ddarpariaeth a sefydlwyd gan y cyngor cenedlaethol. Bydd y Mesur hefyd yn gwneud newidiadau cyfatebol yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a'r deddfau eraill sydd yn cyfateb i'r rhai a wneir yn Lloegr.

Y rheini yw'r tri phrif Fesur y mae gan y Cynulliad ddiddordeb arbennig ynddynt, a bydd adegau yn y misoedd sydd i ddod pan fydd y Cynulliad yn trafod y materion hyn. Ceir cyfle, er bod y Mesurau hynny wedi eu cyhoeddi, i gyflwyno gwelliannau un ai yn Nhŷ'r Cyffredin neu yn Nhŷ'r Arglwyddi, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r cynigion y bydd y Cynulliad, yn ddoeth, fe wn, yn eu rhoi gerbron.

Mae pawb ohonom yma yn cynrychioli pobl. Cynrychiolais bobl Torfaen, un ai yn siambr y cyngor neu yn Nhŷ'r Cyffredin, am chwarter canrif. Mae'n bwysig, pa un a ydym yn y Cynulliad, yn Nhŷ'r Cyffredin neu mewn siambr cyngor, na fyddwn byth yn anghofio'r ffrainc fawr o gynrychioli benywod a dynion. Weithiau, yng nghynnwrf ystafell bwyllgor, y Cynulliad neu Dŷ'r Cyffredin, anghofiwn ein bod yn cynrychioli miloedd lawer o bobl. Gallwn ddeall hynny'n well pan wneir deddfwriaeth rhyngom sydd yn effeithio ar y dynion a'r benywod hynny. Fe'i gwneir er mwyn gwella ansawdd eu bywydau.

Mae'r rôl sydd gennyf fel Ysgrifennydd

largely a facilitating and enabling one of building a democratic partnership between the Assembly and Parliament. I am proud that our Government has given devolution its highest priority. In the fullness of time, this democratic settlement will be seen as a democratic advance as important as the ultimate achievements of those chartists and suffragettes in Wales who led the way for the rest of the people of the United Kingdom in democracy, fairness and justice.

The First Secretary: I propose that the Assembly

thanks the Secretary of State for Wales for his account of the UK Government's legislative programme for 1999-2000;

notes that the programme includes a number of Bills (Care Standards, Children (Leaving Care), Countryside, Freedom of Information, Fur Farming, Learning and Skills, Local Government, Race Relations, Special Educational Needs, Transport and Utilities) with a direct impact on the Assembly, and others of close interest to the Assembly and the people of Wales;

calls on the First Secretary to consider further the points raised in the debate, to submit a written response to the Assembly for further approval, and to communicate the Assembly's views to the Secretary of State for Wales and other UK Ministers; and

calls on the First Secretary and the Secretary for State to establish a protocol to enable the Assembly formally to put forward legislative proposals each year, in the expectation that the UK Government will consider their inclusion in subsequent legislative programmes.

On behalf of the Assembly, I thank the Secretary of State for his outline of the UK Government's legislative programme and for his approach of partnership, not just with me but with the whole Assembly. Nick Bourne's amendment 1 implies that I should not thank

Gwladol Cymru'n ymwneud yn bennaf â hwyluso a galluogi wrth adeiladu partneriaeth ddemocrataidd rhwng y Cynulliad a'r Senedd. Yr wyf yn falch bod ein Llywodraeth wedi rhoi'r flaenoriaeth uchaf i ddatganoli. Gyda threigl amser, fe welir y setliad democrataidd hwn yn gam ymlaen i ddemocratiaeth sydd gyn bwysiced â chyflawniadau pennaf y siartwyr a'r swffragetiaid yng Nghymru a ddangosodd y ffordd i weddill pobl y Deyrnas Unedig mewn democratiaeth, tegwch a chyfiawnder.

Y Prif Ysgrifennydd: Cynigiau fod y Cynulliad

yn diolch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ei adroddiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 1999-2000;

yn nodi bod y rhaglen yn cynnwys nifer o Fesurau sydd yn cael effaith uniongyrchol ar y Cynulliad (Safonau Gofal, Plant (Gadael Gofal), Cefn Gwlad, Rhyddid Gwybodaeth, Ffermio Ffwr, Dysgu a Sgiliau, Llywodraeth Leol, Cysylltiadau rhwng yr Hiliau, Anghenion Addysgol Arbennig, Trafnidiaeth a Chyfleustodau) ynghyd â Mesurau eraill sydd o ddiddordeb mawr i'r Cynulliad a phobl Cymru;

yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i ystyried ymhellach y pwyntiau a godwyd yn y ddadl, i lunio ymateb ysgrifenedig i'r Cynulliad i'w gymeradwyo ymhellach, ac i hysbysu Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion eraill y DU am farn y Cynulliad; ac

yn galw ar y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Gwladol i lunio protocol i alluogi'r Cynulliad i gyflwyno cynigion deddfwriaethol yn ffurfiol bob blwyddyn, gyda'r disgwyl y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried eu cynnwys yn ei rhaglenni deddfwriaethol yn y dyfodol.

Ar ran y Cynulliad, diolchaf i'r Ysgrifennydd Gwladol am amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ac am ei agwedd at bartneriaeth, nid yn unig gyda mi ond gyda'r Cynulliad cyfan. Mae gwelliant 1 Nick Bourne yn awgrymu na ddylwn ddiolch

Paul Murphy. However, while Paul is doing his statutory duty by being here—and some Members will, no doubt, disagree with some of the policy objectives he has outlined—it would be churlish not to thank him for a considered and thorough speech. Therefore, I do so. In light of this week's progress in Northern Ireland, I congratulate Paul on the process of devolution and of peace in the region, to which he has contributed a great deal.

This debate reflects one of the Assembly's most important rights. We work within primary legislation passed at Westminster. It is, therefore, vital that we express clear and consistent views on the Government's proposals. We can help to ensure that primary legislation that affects Wales meets Wales's needs. Today's debate is a part of that process, and we should take full advantage of the process. While we are dependent on primary legislation from Parliament, that does not mean we should just respond passively to the UK Government's agenda. We need to make the case for primary legislation to be framed in a way that allows us to develop policy to meet the needs of Wales. We must be clear that much of UK legislation is as important in Wales as anywhere else in the UK. It is important in matters such as child protection, tackling crime and provision for children with special educational needs. I know, from my own experience as an MP—and others would agree—how much progress is needed in the latter field.

I strongly believe that this is a process that should involve the whole Assembly, not only myself and the Cabinet. My colleagues and I have a special role to play in liaising with UK Ministers on the detailed terms of any proposed Bill, in line with the Memorandum of Understanding. We will do that in a way that seeks to ensure the best possible legislative outcome for Wales. However, we cannot and do not work in isolation. The Subject Committees have already considered several aspects of the programme. For instance, the Health and Social Services Committee is debating the future of social

i Paul Murphy. Fodd bynnag, tra bydd Paul yn cyflawni'i ddyletswydd statudol drwy fod yma—ac mae'n sicr y bydd rhai Aelodau'n anghytuno â rhai o'r amcanion polisi a amlinellwyd ganddo—anfoesgar fyddai peidio â diolch iddo am araith ystyriol a thrwyadl. Felly, gwnaf hynny. Yng ngolwg y cynnydd yr wythnos hon yng Ngogledd Iwerddon, llongyfarchaf Paul ar y broses o ddatganoli a heddwch yn y rhanbarth hwnnw, y cyfrannodd lawer iawn ati.

Mae'r ddadl hon yn adlewyrchu un o hawliau pwysicaf y Cynulliad. Yr ydym yn gweithio o fewn deddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei phasio yn San Steffan. Mae'n holl bwysig, felly, inni fynegi barn eglur a chyson ar gynigion y Llywodraeth. Gallwn helpu i sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol sydd yn effeithio ar Gymru yn ateb anghenion Cymru. Mae'r ddadl heddiw yn rhan o'r broses honno, a dylem fanteisio'n llawn ar y broses. Er ein bod yn dibynnu ar ddeddfwriaeth sylfaenol o'r Senedd, nid yw hynny'n golygu na ddylem ond ymateb yn oddefol i agenda Llywodraeth y DU. Rhaid inni ddadlau dros lunio deddfwriaeth sylfaenol mewn modd sydd yn caniatáu inni ddatblygu polisi sydd yn ateb anghenion Cymru. Rhaid inni ddeall bod llawer o ddeddfwriaeth y DU gyn bwysiced yng Nghymru ag ydyw mewn unrhyw le arall yn y DU. Mae'n bwysig mewn materion fel amddiffyn plant, ymdrin â throseddau a darparu ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Gwn, o'm profiad fy hun fel AS—a bydd eraill yn cytuno—gymaint yw'r angen am gynnydd yn y maes a grybwyllwyd olaf.

Credaf yn gryf fod hon yn broses a ddylai gynnwys y Cynulliad cyfan, nid fi a'r Cabinet yn unig. Mae rôl arbennig gennyf fi a'm cydweithwyr wrth gysylltu â Gweinidogion y DU ar amodau manwl unrhyw Fesur arfaethedig, yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Gwnawn hynny mewn modd sydd yn ceisio sicrhau'r canlyniad deddfwriaethol gorau posibl i Gymru. Fodd bynnag, ni allwn ac ni fyddwn yn gweithio ar wahân. Mae'r Pwyllgorau Pwnc eisoes wedi ystyried sawl agwedd ar y rhaglen. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn

care in Wales, which will ultimately be addressed in the Care Standards Bill. I will return to that later. However, it is the views of the Assembly as a whole that carry the most weight. That is why I accept with enthusiasm the commitment to preparing a consolidated response to the UK Government based on points raised in our two-day debate. As today's motion notes, I will first submit the response to the Assembly for further approval.

I cannot guarantee, and neither can the Secretary of State, that the UK Government will accept every point that we make. However, it will have to consider them for what they are: the express views of the democratic voice of Wales on matters of crucial importance to Wales.

Dafydd Wigley: Yn ei gyfraniad, gwnaeth Paul Murphy bwynt difyr sydd yn berthnasol i'r hyn yr ydych yn ei ddweud yn awr. Dywedodd pe bai'r Cynulliad yn dymuno diwygio Mesurau sydd yn mynd drwy'r Senedd, y byddai cyfle i argymhell diwygiadau ar adeg trafod mewn pwyllgor neu ar adeg cyhoeddi adroddiad. Sylweddolwn nad oes modd rhoi sicrwydd y bydd y Llywodraeth yn Llundain yn derbyn ein gwelliannau. A oes sicrwydd, felly, y bydd peirianwaith yn bodoli i gyflwyno gwelliannau, naill ai drwy'r Ysgrifennydd Gwladol neu ddirprwy iddo yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, neu drwy Aelodau penodol? Fodd bynnag, os yw Aelodau'r Llywodraeth yng anghytuno â dymuniadau'r Cynulliad, a geir unrhyw sicrwydd o gwbl?

Y Prif Ysgrifennydd: Ceir sicrwydd y bydd Gweinidogion yn trafod y materion hyn gyda ni. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddrws agored fel y gallwn drafod unrhyw bwnc gydag ef neu gyda Gweinidogion â chyfrifoldeb dros faterion pwysig fel addysg ac iechyd. Eu penderfyniad hwy yw ymgymryd yn swyddogol ag unrhyw fater a argymhellwn ninnau. Ceir y cyfle i drafod ac i ddiwygio Mesur. Fodd bynnag, un o'r pwyntiau pwysicaf, ac un a godwyd gan Dafydd Wigley yr wythnos diwethaf, yw y dylem ddechrau gwneud hyn yn gynnar yn y

trafod dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru, yr ymdrinnir ag ef yn y pen draw yn y Mesur Safonau Gofal. Dychwelaf at hynny'n ddiweddarach. Fodd bynnag, barn y Cynulliad fel cyfangorff sydd yn dwyn y pwysau mwyaf. Dyna pam y derbynaf yn frwd yr ymrwymiad i baratoi ymateb cyfunol i Lywodraeth y DU ar sail pwyntiau a godir yn ein dadl ddeuddydd. Fel y nodir yn y cynnig heddiw, cyflwynaf yr ymateb i'r Cynulliad i'w gymeradwyo ymhellach.

Ni allaf warantu, na'r Ysgrifennydd Gwladol ychwaith, y bydd Llywodraeth y DU yn derbyn pob pwynt a wnawn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddi eu hystyried am yr hyn ydynt: barn bendant llais democrataidd Cymru ar faterion o bwys tyngedfennol i Gymru.

Dafydd Wigley: In his contribution, Paul Murphy made an interesting point, which is relevant to what you say now. He said that if the Assembly wished to reform Bills passing through Parliament, there would be an opportunity to recommend reforms at the committee stage or the report stage. We realise that an assurance cannot be given that the Government in London will accept our amendments. Is there any assurance, therefore, that there will be a mechanism in place to table amendments, either through the Secretary of State or a deputy in the Office of the Secretary of State for Wales, or through specific Members? However, if Members of the Government disagree with the Assembly's wishes, will any assurance whatsoever be forthcoming?

The First Secretary: There is an assurance that Ministers will discuss these matters with us. The Secretary of State has an open door so that we can discuss any subject with him or with Ministers with responsibility for important issues such as education and health. It is for them to decide whether to take on board officially something that we recommend. We have the opportunity to discuss and amend a Bill. However, one of the most important points, and one that was raised by Dafydd Wigley last week, is that we should begin to do this early on in the

broses o baratoi Mesur. Bydd peirianweithiau i drafod Mesurau ac i gyflwyno sylwadau arnynt. Dylem fachu ar y cyfle i godi pwyntiau gwahanol pan fydd Mesur yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin.

process of drafting a Bill. There will be mechanisms in place to allow discussion and comment on Bills. We should seize the opportunity to raise different issues when a Bill passes through the House of Commons.

3:29 p.m.

I will come back to that point, because we need to develop processes to achieve this. Dafydd touched on this in a question last week, and in some ways the motion responds to that question. The motion is about establishing a process that is not simply a one-off opportunity to respond when told 'Here is a piece of legislation. Support it or oppose it', but rather a process of improvement. Dafydd knows from his years in Parliament that sometimes a motion or a piece of legislation is carried through in a way that has earned Sir Wyn Roberts the name 'The Bardic Steamroller'. That is, legislation without amendment or improvement. However, sometimes a genuine debate across party lines can take place. The more positive and engaged we are, the more likely it will be that we can implement the process. As we seek to build a consensus across parties, the more our voice will be listened to.

Dof yn ôl at y pwynt hwnnw, oherwydd mae arnom angen datblygu prosesau i gyflawni hyn. Cyfeiriodd Dafydd at hynny mewn cwestiwn yr wythnos diwethaf, ac mewn rhai ffyrdd mae'r cynnig yn ymateb i'r cwestiwn hwnnw. Mae'r cynnig yn ymwneud â sefydlu proses nad yw ond yn gyfle unwaith ac am byth i ymateb pan ddywedir wrthym 'Dyma ddeddf. Cefnogwch hi neu gwrthwynebwc hi', ond yn hytrach yn broses o wella. Gŵyr Dafydd o'i flynyddoedd yn y Senedd y bydd cynnig neu ddeddf weithiau'n cael ei basio mewn modd a enillodd i Syr Wyn Roberts yr enw 'The Bardic Steamroller'. Hynny yw, deddfwriaeth heb newid neu welliant. Fodd bynnag, weithiau gellir cael dadl wirioneddol ar draws y pleidiau. Po fwyaf cadarnhaol ac ymrwymedig y byddwn, y mwyaf tebygol yw hi y gallwn weithredu'r broses. Wrth inni geisio adeiladu consensws ar draws y pleidiau, bydd mwy o wrando ar ein llais.

While today's debate is the most important opportunity we have to implement the legislative—

Er mai'r ddadl heddiw yw'r cyfle pwysicaf sydd gennym i weithredu—

Cynog Dafis *rose*—

Cynog Dafis *a gododd*—

The First Secretary: I want to develop this point. This is not our only opportunity to implement the programme. At any time we can propose new measures, whether in the form of amendments to Bills, to which we have just referred, or as proposals for future legislation to meet Wales's needs. It is not just a matter of accepting Parliament's offers. Today's motion goes further by proposing a formal mechanism to allow us to have our say. If the Assembly agrees, I propose to set out a protocol by which we could convey to the Secretary of State our proposals each year, at a time which is consistent with the UK Government's internal consideration of its programme. The Secretary of State

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf am ddatblygu'r pwynt hwn. Nid hwn yw'r unig gyfle sydd gennym i weithredu'r rhaglen. Ar unrhyw adeg gallwn gynnig mesurau newydd, boed hynny ar ffurf newidiadau i Fesurau, yr ydym newydd gyfeirio atynt, neu ar ffurf cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn ateb anghenion Cymru. Nid yw ond yn fater o dderbyn cynigion y Senedd. Mae'r cynnig heddiw'n mynd ymhellach drwy gynnig mecanwaith ffurfiol i ganiatáu inni fynegi ein barn. Os cytuna'r Cynulliad, bwriadaf baratoi protocol y gallem ei ddefnyddio i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am ein cynigion bob blwyddyn, ar adeg sydd yn gyson ag

responded positively to this suggestion, which builds on my answers to Dafydd Wigley's point last week. If that resolution is passed, I will discuss a timetable with the Secretary of State and bring detailed proposals before the Assembly. There can be no guarantees, as parliamentary time is precious. Every Government has to consider all bids carefully, which means rejecting some bids. It might be appropriate for some of our proposals to be taken forward as Private Members' Bills. We might win Government backing in this way. However, I hope we can agree that this is a valuable opportunity for us to open debate on important issues.

Perhaps I should say that Mike German's amendments—

Cynog Dafis: Mae'n briodol i mi dorri ar draws yn awr yng ngoleuni'r hyn a ddywedodd y Prif Ysgrifennydd ynglŷn ag amser seneddol. A yw'n cytuno â'r alwad sydd wedi ei gwneud sawl gwaith y dylai proses o ddeddfu cyflym i Gymru gael ei sefydlu yn y Senedd? Byddai hyn yn galluogi pasio deddfwriaeth, ar gais y Cynulliad, yn annibynnol i'r broblem amser. Ceir eisoes bwyllgorau megis yr Uwch Bwyllgor Cymreig. Byddai modd sefydlu pwyllgorau eraill fel peirianweithiau defnyddiol. Gobeithiaf y bydd y Prif Ysgrifennydd yn cefnogi'r math hwn o awgrym.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn deall y pwynt. Gobeithiaf y bydd hyder yn datblygu yn San Steffan, oherwydd byddai'n rhoi hwb i syniadau sydd yn deillio o'r Cynulliad. Fodd bynnag, fel y mae Cynog yn gwybod, fel Aelod o'r lle arall, penderfyniad Tŷ'r Cyffredin, nid y Llywodraeth, yw'r modd a'r cyflymder y mae deddfwriaeth yn mynd drwy'r gwahanol gamau. Pe gallem wneud pethau mewn ffordd sydd yn dangos i bobl bod pleidiau yn cyd-dynnu i gefnogi Mesurau, byddai hynny'n rhoi mwy o awdurdod i'r broses ac yn datblygu hyder ar ran San Steffan yn y dyfodol.

Mike German's amendment 4, which calls

ystyriaeth fewnol Llywodraeth y DU i'w rhaglen. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gadarnhaol i'r awgrym hwn, sydd yn adeiladu ar sail fy atebion i bwyt Dafydd Wigley yr wythnos diwethaf. Os derbynnir y cynnig hwnnw, trafodaf amserlen gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a dof â chynigion manwl gerbron y Cynulliad. Ni ellir cael sicrwydd, gan fod amser y Senedd yn brin. Rhaid i bob Llywodraeth ystyried pob cais yn ofalus, sydd yn golygu gwrthod rhai ceisiadau. Gallai fod yn briodol datblygu rhai o'n cynigion fel Mesurau Aelodau Preifat. Efallai y gallem sicrhau cefnogaeth y Llywodraeth drwy hynny. Fodd bynnag, gobeithiaf y gallwn gytuno bod hyn yn gyfle gwerthfawr inni agor dadl ar faterion pwysig.

Efallai y dylwn ddweud bod gwelliannau Mike German—

Cynog Dafis: It is appropriate for me to interrupt now in the light of what the First Secretary said about parliamentary time. Does he agree with the demand that has been reiterated several times that a process of swift legislation for Wales should be established in Parliament? This would enable legislation to be passed, at the Assembly's request, independently of time difficulties. There are already committees such as the Welsh Grand Committee. Other committees could be established as useful mechanisms. I hope that the First Secretary will support this type of suggestion.

The First Secretary: I understand the point. I hope that confidence will develop in Westminster, because that would give a boost to ideas that originate from the Assembly. However, as Cynog knows, as a Member of the other place, it is the House of Commons, not the Government, which decides the speed and the way in which legislation passes through the different stages. If we could do things in a way that showed people that parties are pulling together to support Bills, that would afford greater authority to the process and would develop Westminster's confidence for the future.

Mae gwelliant 4 Mike German, sydd yn galw

for dialogue with the UK Parliament, is tabled in the same spirit and builds on that point. I support the sentiments that lie behind it. I agree that it is important for us to have input at all stages of the primary legislation process, and the motion as tabled reflects that. I must point out that it is not Parliament that drafts Government Bills. Therefore, we must influence those who draft them, namely the UK Ministers and their officials. I am aware, as I indicated earlier, that the later an intervention in the process is, the more difficult it is to achieve change. I am sure that Mike will accept that point as a largely technical one and I accept his amendment 4 in the spirit that it has been tabled.

Mike's amendment 6 calls for Bills to place as great an emphasis as possible on subordinate legislation rather than spelling out the detail on the face of primary legislation. Again, it is a fair point. The Assembly needs the maximum flexibility to implement primary legislation as we see fit, whether through powers to make our own subordinate legislation or other autonomous functions. A number of Bills in this year's programme provide for that.

However, I stress again that the UK Government determines the drafting of the Bills although it is for Parliament to approve or amend them. We should thus seek to persuade Ministers to adopt this approach before we seek it from Parliament. Subject to that and to further discussion of how to put the ideas behind Mike's amendment into practice, I accept and support the amendment. I will pass over Mike's amendment 5, which looks like a list of jottings on the back of an envelope prior to a speech to his party faithful because, given the constructive nature of his other two amendments I am prepared to believe that this was handed in by mistake.

Dafydd Wigley's amendment 3 is constructive. I agree that we need as much freedom as possible to make primary legislation work for Wales. We do not want

am barhau i drafod â Senedd y DU, wedi ei gyflwyno mewn modd sydd yn gydnaws â'r pwynt hwnnw ac yn adeiladu arno. Cefnogaf y teimladau sydd y tu ôl iddo. Cytunaf ei bod yn bwysig inni gael mewnbwn ar bob cam yn y broses deddfwriaeth sylfaenol, ac mae'r cynnig fel y'i cyflwynwyd yn adlewyrchu hynny. Rhaid imi nodi nad y Senedd sydd yn drafftio Mesurau'r Llywodraeth. Felly, rhaid inni ddylanwadu ar y rhai sydd yn eu drafftio, sef Gweinidogion y DU a'u swyddogion. Yr wyf yn ymwybodol, fel y nodais yn gynharach, mai po hwyrach yn y broses y ceir ymyriad, mwyaf anodd yw hi i sicrhau newid. Yr wyf yn sicr y bydd Mike yn derbyn y pwynt hwnnw fel un technegol yn bennaf a derbyniaf welliant 4 o'i eiddo yn yr un ysbryd ag y'i cyflwynwyd.

Mae gwelliant 6 Mike yn galw am roi cymaint o bwyslais ag y bo modd mewn Mesurau ar is-ddeddfwriaeth yn hytrach na nodi'r manylion ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol. Unwaith eto, mae hyn yn bwyt teg. Rhaid i'r Cynulliad gael yr hyblygrwydd mwyaf posibl i weithredu deddfwriaeth sylfaenol fel y gwelwn orau, boed drwy bwerau i wneud ein his-ddeddfwriaeth ein hunain neu swyddogaethau awtonomaidd eraill. Mae nifer o Fesurau yn y rhaglen eleni yn darparu ar gyfer hynny.

Fodd bynnag, pwysleisiaf eto mai Llywodraeth y DU sydd yn pennu drafftio'r Mesurau er mai lle'r Senedd yw eu cymeradwyo neu eu diwygio. Dylem felly geisio dwyn perswâd ar Weinidogion i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn cyn inni ofyn hynny gan y Senedd. Yn amodol ar hynny ac ar drafodaeth bellach ar y modd i weithredu'r syniadau sydd y tu ôl i welliant Mike, derbyniaf a chefnogaf y gwelliant. Af heibio i welliant 5 o eiddo Mike, sydd yn ymddangos fel rhestr o nodiadau ar gefn amlen cyn araith i ffyddloniaid ei blaid oherwydd, o weld natur adeiladol ei ddau welliant arall, yr wyf yn barod i gredu ei fod wedi cyflwyno hwn drwy gamgymeriad.

Mae gwelliant 3 Dafydd Wigley yn adeiladol. Cytunaf fod arnom angen cymaint o ryddid ag y bo modd i wneud i ddeddfwriaeth sylfaenol weithio dros Gymru.

to be bound by tightly drawn and prescriptive legislation, which might turn out to be insensitive to our needs and objectives. Dafydd's amendment captures that sentiment well and I have no hesitation in supporting it.

I do not agree with amendment 1 in Nick Bourne's name. He seems to believe that the legislative programme imposes burdens on the people of Wales, especially those in rural areas. The proposal, for instance, for alleviating congestion on busy roads is hardly a burden for rural areas. We should wait to see the Transport Bill. Nor do I find proposals to give everyone qualified access to open countryside to be burdensome. Every piece of research indicates that there will be no material cost to landowners, and the Government is making clear that the Bill will constrain access to prevent damage to crops and livestock. The great majority of people will be given access to areas of outstanding scenic beauty to which they will not have had access before. That is not my idea of a burden.

Nor is the legislative programme the place to deal with match funding. Nobody, least of all me, underestimates the importance of match funding to Wales, but that does not mean that we need to debate it at every inappropriate opportunity. No Government, indeed no company, will commit itself to a given level of expenditure forever more. That would be financial folly. That is why Government expenditure plans, under any Government, are not, have not and never will be, a matter of permanent statutory provision. I thought that Nick understood the public expenditure system better than that.

Finally, David Melding's amendment 2 falls foul of an error frequently made about the law. It was one I used to take Michael Howard to task on fairly frequently. I ask the Assembly to reflect Edward Gibbon's comments on the law in *The Decline and Fall of the Roman Empire*. He stated that

'the operation of the wisest laws is imperfect

Nid oes arnom eisiau cael ein rhwymo gan ddeddfwriaeth gyfyngiadol a rhagnodol, a allai fod yn ansensitif yn y diwedd i'n hanghenion a'n hamcanion. Mae gwelliant Dafydd yn dal y teimlad hwnnw'n dda ac ni phetrusaf rhag ei gefnogi.

Ni chytunaf â gwelliant 1 yn enw Nick Bourne. Ymddengys ei fod yn credu bod y rhaglen ddeddfwriaethol yn gosod baich ar bobl Cymru, yn enwedig rhai yng nghefn gwlad. Prin fod y cynnig i liniaru tagfeydd ar ffyrdd prysur yn faich ar ardaloedd gwledig, er enghraifft. Dylem aros i weld y Mesur Trafnidiaeth. Ni welaf ychwaith fod y cynigion i roi mynediad dan amodau i bawb i gefn gwlad agored yn faich. Mae pob darn o ymchwil yn dangos na fydd cost sylweddol i berchnogion tir, ac mae'r Llywodraeth wedi rhoi ar ddeall y bydd y Mesur yn cyfyngu ar fynediad er mwyn atal difrod i gnydau a da byw. Rhoddir mynediad i fwyafrif helaeth o bobl i ardaloedd o brydferthwch eithriadol na fuont yn agored iddynt cyn hynny. Ni chredaf mai baich yw hynny.

Nid y rhaglen ddeddfwriaethol yw'r lle ychwaith i ymdrin ag arian cyfatebol. Nid oes neb, a minnau yn anad neb, yn tanbriso pwysigrwydd cyllid cyfatebol i Gymru, ond ni olyga hynny fod angen inni ei drafod ar bob cyfle amhriodol. Ni fydd yr un Llywodraeth, nac unrhyw gwmni yn wir, yn ymrwymo i lefel benodol o wariant am byth. Ffolineb ariannol fyddai hynny. Dyna pam nad yw cynlluniau gwariant y Llywodraeth, o dan unrhyw Lywodraeth, erioed wedi bod yn fater o ddarpariaeth statudol barhaol, ac ni fyddant byth. Yr oeddwn yn credu bod Nick yn deall y system gwariant cyhoeddus yn well na hynny.

Yn olaf, mae gwelliant 2 David Melding yn gwneud camsyniad a wneir yn aml ynghylch y gyfraith. Mae'n gamsyniad yr arferwn geryddu Michael Howard am ei wneud yn eithaf aml. Gofynnaf i'r Cynulliad fyfyrto uwchben sylwadau Edward Gibbon am y gyfraith yn *The Decline and Fall of the Roman Empire*. Dywedodd fod

'y gweithredu ar y deddfau doethaf yn

and precarious. They seldom inspire virtue, they cannot always restrain vice. Their power is insufficient to prohibit all that they condemn, nor can they always punish the actions they prohibit.'

The point is that legislation must always be effective. That is the test that I apply as I look at the content of this year's legislative programme.

I will not cover ground that Paul Murphy has already been over, nor will I ask the Assembly to approve the programme as it stands. However, I wish to draw attention to how two aspects of the legislative programme meet the specific needs that we have set out.

First, implementing the ETAG report is central to the improvement of education and learning in Wales. We can deliver some reforms through existing powers but we need new primary legislation to establish the centrepiece of ETAG, the national council for education and training in Wales, and to implement other ETAG recommendations. Therefore, I am pleased that the Learning and Skills Bill will contain dedicated provisions for Wales that meet our needs precisely. Indeed, 'made in Wales' should be stamped on that piece of legislation. It is a good example of the Assembly and UK Government working together to deliver legislation that works for Wales. These are Welsh solutions to Welsh problems within the context of UK legislation. I hope that we can use this Bill as a vehicle for strengthening support for young people in general as well as in training and preparation for employment.

Secondly, maintaining and improving standards of social care in Wales must be among our top priorities. Recent events serve to emphasise this. The care standards Bill will set out new, more comprehensive and

amherffaith ac yn ansicr. Anaml y byddant yn ennyn rhinwedd, ni allant ffrwyno drygioni bob amser. Nid yw eu pŵer yn ddigon i wahardd popeth a gollfennir ganddynt, ac ni allant bob amser gosbi'r gweithredoedd a waharddant.'

Y pwynt yw bod rhaid i ddeddfwriaeth fod yn effeithiol bob amser. Dyna'r prawf a gymhwysaf wrth edrych ar gynnwys rhaglen ddeddfwriaethol eleni.

Nid af dros yr un tir â Paul Murphy, ac ni ofynnaf i'r Cynulliad gymeradwyo'r rhaglen fel y mae. Fodd bynnag, dymunaf dynnu sylw at y modd y mae dwy agwedd ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn ateb yr anghenion penodol a nodwyd gennym.

Yn gyntaf, mae gweithredu adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn ganolog wrth wella addysg a dysgu yng Nghymru. Gallwn gyflawni rhai diwygiadau drwy bwerau sydd yn bodoli eisoes ond mae arnom angen deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn sefydlu elfen ganolog adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, sef y cyngor cenedlaethol dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac er mwyn gweithredu argymhellion eraill y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant. Yr wyf yn falch, felly, y bydd y Mesur Dysgu a Medrau yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer Cymru fydd yn ateb ein hanghenion yn union. Yn wir, dylid stampio 'gwnaethpwyd yng Nghymru' ar y ddeddfwriaeth honno. Mae'n enghraifft dda o'r modd y mae'r Cynulliad a Llywodraeth y DU yn cydweithio i baratoi deddfwriaeth sydd yn gweithio dros Gymru. Atebion Cymreig i broblemau Cymreig yw'r rhain yng nghyd-destun deddfwriaeth y DU. Gobeithiaf y gallwn ddefnyddio'r Mesur hwn yn gyfrwng i gryfhau'r gefnogaeth i bobl ifainc yn gyffredinol yn ogystal â thrwy eu hyfforddi a'u paratoi ar gyfer cyflogaeth.

Yn ail, rhaid i'r bwriad i gynnal a gwella safonau gofal cymdeithasol yng Nghymru fod ymysg ein prif flaenoriaethau. Mae digwyddiadau diweddar wedi pwysleisio'r angen hwnnw. Bydd y Mesur safonau gofal

rigorous arrangements for the regulation of all aspects of social care and the social care profession. Those standards will be common to England and Wales.

3:39 p.m.

No one is interested in lower standards. However, the Bill will allow us to establish different structures and procedures to enforce those standards in Wales. England will have separate and independent regional commissions for care standards. Wales will have a single all-Wales regulatory authority as part of the Assembly, which will allow the fullest possible co-ordination of inspection arrangements across Wales.

There will also be a separate care council for Wales under the Assembly's control, and a unique partnership with Estyn for the inspection of early-years services. We have consulted extensively within Wales on those matters. The fact that the Health and Social Services Committee has discussed all of them thoroughly demonstrates the Assembly's strength. I am pleased that the Bill will meet all of the Assembly's requirements in the areas I have outlined. That is a way in which the Assembly can secure legislation that meets the needs of Wales. It is also a good example of Assembly Members of all parties, through the Subject Committees, playing a key role in developing policy in conjunction with the Cabinet in an area that is important to all of us. Government Bills—

Helen Mary Jones: I thank Alun Michael for his comments about the Health and Social Services Committee's work. We would all, as Committee Members, agree with those comments. Is Alun Michael aware of the majority opinion of the Health and Social Services Committee on another Government Bill, the Children (Leaving Care) Bill? The majority was unhappy with the plans to withdraw the automatic right of care leavers between the ages of 16 and 18 to receive benefits. Will the First Secretary take that up with the Secretary of State, because that is the clear wish of the Assembly Committee?

yn pennu trefniadau newydd, mwy cynhwysfawr a thrwyadl i reoleiddio pob agwedd ar ofal cymdeithasol a'r proffesiwn gofal cymdeithasol. Bydd y safonau hynny yn gyffredin i Gymru a Lloegr.

Nid oes neb am weld safonau is. Fodd bynnag, bydd y Mesur yn caniatáu inni sefydlu gwahanol strwythurau a gweithdrefnau i orfodi'r safonau hynny yng Nghymru. Bydd gan Loegr gomisiynau rhanbarthol annibynnol ar wahân ar gyfer safonau gofal. Bydd gan Gymru un awdurdod rheoleidiol ar gyfer Cymru gyfan yn rhan o'r Cynulliad, a fydd yn caniatáu'r cydlynio llawnaf posibl ar drefniadau archwilio ym mhob cwr o Gymru.

Bydd hefyd gyngor gofal ar wahân i Gymru o dan reolaeth y Cynulliad, a phartneriaeth unigryw ag Estyn i archwilio gwasanaethau ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Yr ydym wedi ymgynghori'n eang oddi mewn i Gymru ar y materion hynny. Mae'r ffaith fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi trafod pob un ohonynt yn drwyadl yn dangos cryfder y Cynulliad. Mae'n dda gennyf y bydd y Mesur yn cyflawni holl ofynion y Cynulliad yn y meysydd a amlinellais. Dyna un ffordd i'r Cynulliad sicrhau deddfwriaeth sydd yn ateb anghenion Cymru. Mae hefyd yn enghraifft dda o'r modd y mae Aelodau Cynulliad o bob plaid, drwy'r Pwyllgorau Pwnc, yn chwarae rôl wrth ddatblygu polisi ar y cyd â'r Cabinet mewn maes sydd o bwys i bob un ohonom. Bydd Mesurau'r Llywodraeth—

Helen Mary Jones: Diolchaf i Alun Michael am ei sylwadau am waith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai pawb ohonom, fel aelodau o'r Pwyllgor, yn cytuno â'r sylwadau hynny. A yw Alun Michael yn ymwybodol o farn y mwyafrif ar y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar un arall o Fesurau'r Llywodraeth, sef y Mesur Plant (Gadael Gofal)? Yr oedd y mwyafrif yn anfodlon â'r bwriad i dynnu'n ôl yr hawl awtomatig i rai sydd yn gadael gofal rhwng 16 a 18 oed dderbyn budd-daliadau. A wnaiff y Prif Ysgrifennydd godi'r mater hwnnw gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, oherwydd dyna ddymuniaid amlwg y Pwyllgor Cynulliad?

The First Secretary: Fortunately, the Secretary of State has heard what you said. We must draw a line between matters for which we have responsibility and the elements, such as social security issues, that remain matters for the UK Government. You have made your point in your question, Helen Mary.

Government Bills take a long time to emerge. Those of us who have been involved in the process know that it can be painstakingly slow. We have done exceptionally well to secure specific and different provisions for Wales in two major parts of this year's programme, less than seven months after the Assembly elections. The arrangements that I propose in the motion will strengthen our ability to do well in future.

In other cases, legislation is likely to be less prescriptive about what will happen in Wales. It will give new powers in respect of local government, the countryside and transport, for example. It will be up to us to use those new powers in a way that is consistent with the Assembly's priorities and objectives.

Janet Davies: Freedom of information measures for local government are important. In local government, it is easy to not always be as open as is helpful for local people and backbench councillors. Backbench councillors in certain modes of government will now need to have a strong and secure role. As well as ensuring that information is available freely to all councillors, will the First Secretary go further and ensure that the councillors are aware of what information is available? The problem I have had is not being unable to ask questions but not knowing what questions to ask. It is important that councillors are told about the available information and about their right to that information.

The First Secretary: That is an important point. It is difficult sometimes to get the balance right between freedom of information and data protection that protects individuals. In a curious way, both can be used to defend inefficiency or to hide

Y Prif Ysgrifennydd: Yn ffodus, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi clywed yr hyn a ddywedasoch. Rhaid inni dynnu llinell rhwng materion y mae gennym gyfrifoldeb drostynt a'r elfennau, fel materion nawdd cymdeithasol, sydd yn parhau'n faterion i Lywodraeth y DU. Gwnaethoch eich pwynt yn eich cwestiwn, Helen Mary.

Bydd Mesurau'r Llywodraeth yn hir iawn yn dod i'r golwg. Bydd y rhai ohonom a fu'n ymwneud â'r broses yn gwybod y gall fod yn drwyadl o araf. Gwnaethom yn eithriadol o dda wrth sicrhau darpariaethau penodol a gwahanol i Gymru mewn dwy ran bwysig o'r rhaglen eleni, lai na saith mis ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Bydd y trefniadau a gynigaf yn y cynnig yn cryfhau ein gallu i wneud yn dda yn y dyfodol.

Mewn achosion eraill, mae'r ddeddfwriaeth yn debygol o fod yn llai rhagnodol ynghylch yr hyn fydd yn digwydd yng Nghymru. Bydd yn rhoi pwerau newydd mewn perthynas â llywodraeth leol, cefn gwlad a thrafnidiaeth, er enghraifft. Ein lle ni yw defnyddio'r pwerau newydd hynny mewn modd sydd yn gyson â blaenoriaethau ac amcanion y Cynulliad.

Janet Davies: Mae mesurau rhyddid gwybodaeth ar gyfer llywodraeth leol yn bwysig. Mewn llywodraeth leol, hawdd yw peidio â bod mor agored ag y gellid bod er mwyn helpu pobl leol a chynghorwyr y meinciau cefn. Bellach bydd yn rhaid i gynghorwyr y fainc gefn mewn rhai ffurfiau ar lywodraeth gael rôl gadarn a sicr. Yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i bob cynghorydd, a aiff y Prif Ysgrifennydd ymhellach a sicrhau bod y cynghorwyr yn ymwybodol o ba wybodaeth sydd ar gael? Y broblem a gefais i yw nid bod heb y gallu i ofyn cwestiynau ond bod heb wybod pa gwestiynau i'w gofyn. Mae'n bwysig rhoi gwybod i gynghorwyr am y wybodaeth sydd ar gael ac am eu hawl i weld y wybodaeth honno.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n bwynt pwysig. Anodd weithiau yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng rhyddid gwybodaeth a diogelu data er mwyn gwarchod unigolion. Mewn ffordd ryfedd, gellir defnyddio'r ddau i amddiffyn aneffeithlonrwydd neu gelu

information that should be public. Understanding legislation and encouraging best practice in Wales, including in local government, is entirely appropriate and may well be an appropriate matter for the Partnership Council to develop once the legislation has gone through. Understanding one piece of legislation in relation to others is an important challenge. I accept the point.

Jenny Randerson: I refer to the latter point. Are you aware that the interactions between the freedom of information legislation and the new local government legislation is crucial? As you have a local government background, you will be fully aware that a lot of information comes into the public domain via the committee system of local councils. As local authorities move towards a cabinet system, they find that much less information is coming forward and that it is more difficult to find it. When we look at the new model of local government as it will apply in Wales, we must ensure that we open up information, not close it down, because councils' experience of the new system proves that information is reduced rather than increased.

The First Secretary: I accept the general point that we must look carefully at the legislation. In many places people have moved ahead of the legislation. There must be checks and balances. This is an appropriate subject for the Environment and Local Government Committee to consider with the details of the legislation.

Getting this balance right and getting people to operate in the right way is difficult. I had great difficulty in encouraging the police and housing authorities to co-operate on exchanging information that could help with crime reduction. That was because of a basic misunderstanding about the nature of the data protection legislation. Therefore, getting the law right is not sufficient. We must work at the practice and the guidance and encourage the highest standard. There are important issues that the Assembly must deal with, and you were right to raise them.

I offer the Assembly an undertaking to

gwybodaeth a ddylai fod yn gyhoeddus. Mae deall deddfwriaeth a hybu'r ymarfer gorau yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth leol, yn gwbl briodol ac mae'n ddigon posibl ei fod yn fater priodol i'w ddatblygu gan y Cyngor Partneriaeth wedi i'r deddfwriaeth fynd drwodd. Mae deall un deddf mewn perthynas ag eraill yn her bwysig. Derbyniaf y pwynt.

Jenny Randerson: Cyfeiriaf at y pwynt diwethaf. A ydych yn ymwybodol fod y rhyngweithiadau rhwng y deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a'r deddfwriaeth llywodraeth leol yn dyngedfennol? Gan fod gennych gefndir mewn llywodraeth leol, byddwch yn llwyr ymwybodol fod llawer o wybodaeth yn dod i sylw'r cyhoedd drwy system pwyllgorau cynghorau lleol. Wrth i awdurdodau lleol symud tuag at system cabinet, gwelant fod llawer llai o wybodaeth yn dod ymlaen a'i bod yn llawer anos dod o hyd iddi. Pan edrychwn ar y model newydd ar gyfer llywodraeth leol yn ei berthynas â Chymru, rhaid inni sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael, nid llai, oherwydd mae profiad y cynghorau o'r system newydd yn profi bod llai o wybodaeth ar gael, nid mwy.

Y Prif Ysgrifennydd: Derbyniaf y pwynt cyffredinol fod yn rhaid inni edrych yn ofalus ar y deddfwriaeth. Mewn llawer o leoedd, mae pobl wedi gweithredu cyn dyfodiad y deddfwriaeth. Rhaid cael rhwystrau a gwrthbwsiau. Mae hyn yn bwnc priodol i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ei ystyried gyda manylion y deddfwriaeth.

Anodd yw sicrhau'r cydbwysedd cywir a chael pobl i weithredu'n iawn. Profais anhawster mawr wrth annog yr heddlu a'r awdurdodau lleol i gydweithredu drwy gyfnwied gwybodaeth a allai fod o gymorth wrth leihau troseddu. Yr oedd hynny oherwydd camddealltwriaeth sylfaenol ynghylch natur y deddfwriaeth diogelu data. Felly, nid yw cael y deddf yn iawn yn ddigon. Rhaid inni weithio ar yr ymarfer a'r canllawiau a hybu'r safon uchaf. Mae materion pwysig y bydd yn rhaid i'r Cynulliad ymdrin â hwy, ac yr oedd yn iawn ichi eu codi.

Rhoddaf ymrwymiad i'r Cynulliad y byddaf yn

prepare a single, consolidated reply to the legislative programme debate. I will then seek the Assembly's approval of that response and set up arrangements for us to propose Measures early on for possible inclusion in future programmes. That is an important way in which we can take forward our activities and grow as an organisation. These proposals are reflected in the terms of the motion, which sets out formal mechanisms for dealing with the points that Members have raised in their amendments.

Amendments which comment on the Bills that are included in the programme will be better reflected in our agreed reply. This will allow us to accommodate all comments from this debate and to reflect the detailed content of the Bills concerned, once they are published. I aim to maximise our opportunities to influence this and future legislative programmes. Our potential for success is reflected in our current programme. Proceeding as I propose—and as I believe Members across parties will wish—will give the Assembly the best chance of doing the best for Wales.

This debate is not about the Assembly approving or rejecting the Government's programme. The debate is about gauging Members' views on the opportunities that the programme presents, and acting accordingly to get the best for Wales from it. The opportunities are major and wide-ranging. However, it is more important to press for legislation that works for Wales and reflects the settled view of this place. Therefore, I look forward to the two sessions of debate and to acting on the points raised in accordance with this motion.

Dafydd Wigley: Cynigiad welliant 3. Ychwanegu ar ôl y pedwerydd cymal

yn galw ar y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Gwladol i geisio sicrhau bod pob Mesur sydd yn effeithio ar waith a chyfrifoldebau'r Cynulliad yn cael ei ddrafftio mewn ffordd sydd yn caniatáu cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd i'r Cynulliad wrth weithredu ei ddarpariaeth, a datblygu polisi yn y meysydd dan sylw yn y

paratoi un ymateb cyfunol i'r ddadl ar y rhaglen ddeddfwriaethol. Wedyn gofynnaf i'r Cynulliad gymeradwyo'r ymateb hwnnw a gwnaf drefniadau inni gynnig Mesurau'n gynnar i'w cynnwys o bosibl mewn rhaglenni yn y dyfodol. Mae hynny'n ffordd bwysig inni fwrw ymlaen â'n gweithgareddau a thyfu fel corff. Gwelir y cynigion hyn yng ngeiriau'r cynnig, sydd yn nodi mecanweithiau ffurfiol i ymdrin â'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau yn eu gwelliannau.

Bydd mwy o sylw yn ein hymateb cytûn i welliannau sydd yn gwneud sylwadau am Fesurau a gynhwysir yn y rhaglen. Bydd hynny'n caniatáu inni gynnwys yr holl sylwadau o'r ddadl hon ac adlewyrchu cynnwys manwl y Mesurau dan sylw, wedi iddynt gael eu cyhoeddi. Bwriadaf fanteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd i ddylanwadu ar y rhaglen ddeddfwriaethol hon a rhai'r dyfodol. Gwelir y potensial inni lwyddo yn ein rhaglen gyfredol. Drwy fynd ymlaen fel y cynigiad—ac fel y dymuna'r Aelodau ar draws y pleidiau, yr wyf yn credu—bydd gan y Cynulliad y cyfle gorau i wneud yr hyn sydd orau er mwyn Cymru.

Nid dadl am gymeradwyo neu wrthod rhaglen y Llywodraeth gan y Cynulliad mo hon. Mae'r ddadl yn ymwneud â mesur barn yr Aelodau am y cyfleoedd a geir yn y rhaglen, a gweithredu'n unol â hynny er mwyn cael y gorau i Gymru ohoni. Mae'r cyfleoedd yn fawr ac yn amrywiol. Fodd bynnag, pwysicach yw pwysio am ddeddfwriaeth sydd yn gweithio dros Gymru ac yn adlewyrchu barn bendant y lle hwn. Felly, edrychaf ymlaen at ddau sesiwn y ddadl ac at weithredu ar y pwyntiau a godir yn unol â'r cynnig hwn.

Dafydd Wigley: I propose amendment 3. After the fourth clause add

calls on the First Secretary and the Secretary of State to seek to ensure that all Bills which impact on the functions and responsibilities of the Assembly are drafted in such a way as to permit the Assembly to implement their provisions with the maximum flexibility, and to develop policy in the areas concerned in a way which best reflects the views of the Assembly

ffordd sydd yn adlewyrchu orau farn y Cynulliad ac anghenion pobl Cymru. *and the needs of the people of Wales.*

Ymddiheuraf os yw fy annwyd yn torri ar draws fy nghyfraniad. Yr wyf yn gwybod, Mr Llywydd, eich bod chi wedi dioddef yn yr un modd oherwydd ei bod mor gyfyngedig a phoeth yn y Siambr hon ar adegau.

I apologise if my cold interrupts my contribution. I know, Mr Llywydd, that you have suffered in the same way as it is so cramped and hot in this Chamber at times.

Ar ran Plaid Cymru, croesawaf Paul Murphy yma ac i'r ddadl hon. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd ac yn ei gyfrifoldebau aruthrol, yn arbennig yn ei drafodaethau gyda'r Trysorlys. Mae gennym ddiddordeb yn y trafodaethau hyn o safbwynt ein rhaglen gyfredol a fformwla Barnett, ac yn arbennig oherwydd ein hanghenion ychwanegol o ran yr arian Amcan 1 a gawn o Ewrop. Gobeithiwn, Paul, y byddwch yn llwyddo yn eich dadleuon â'r Trysorlys i gael yr adnoddau angenrheidiol fel y gall y Cynulliad wneud ei orau ar ran pobl ledled Cymru, yn enwedig y rhai sydd mewn mwyaf o angen.

On behalf of Plaid Cymru, I welcome Paul Murphy here and to this debate. We wish him well in his job and his huge responsibilities, particularly in his discussions with the Treasury. We have an interest in these discussions with regard to our current programme and the Barnett formula, and particularly because of our additional needs with regard to the Objective 1 money that we will receive from Europe. We hope, Paul, that you will succeed in your discussions with the Treasury to get the essential resources so that the Assembly can do its best on behalf of people throughout Wales, particularly those who are most in need.

3:49 p.m.

Mae'r ddadl heddiw yn adlewyrchu'r gwendid yn ein cyfundrefn ddatganoli. Mae teimlad ein bod yn delio â chawl eildwym yn y ddadl hon. Mae hyn yn crynhoi problem ganolog y Cynulliad. A allwn greu ein hagenda ein hunain, neu i ba raddau yr ydym yn gorfod gweithredu o fewn agenda a osodir ar ein cyfer gan y Llywodraeth yn Llundain? Mae hyn yn sicr o ddigwydd o fewn y gyfundrefn bresennol, ond bydd yn codi cwestiynau.

The debate today reflects the weakness in our devolution system. There is a feeling that we are dealing with re-heated soup in this debate. This summarises the Assembly's central problem. Can we create our own agenda, or to what extent are we obliged to operate within an agenda that is set out for us by the Government in London? This is bound to happen within the present system, but it will raise questions.

Bydd cyfeillion yn y Blaid Lafur yn cofio'r adroddiad a gawsant yn ddiweddar ynglŷn â'r angen i sicrhau nad ydynt yn cael eu gweld fel plaid sydd yn dilyn gorchmynion o Lundain. Mae hynny'n berthnasol wrth inni edrych ar y dadleuon sydd yn codi o Araith y Frenhines.

Friends in the Labour Party will remember the report that they received recently about the need to ensure that they are not seen as a party that follows orders from London. This is relevant as we look at the debates arising from the Queen's Speech.

Mae'n anodd peidio â themlo mai dyna'r union beth yr ydym yn ei wneud heddiw. Yr ydym yn derbyn agenda a osodwyd ar ein cyfer gan y Llywodraeth yn Llundain. Treuliwn ddau ddiwrnod yn trafod rhaglen na chawsom gyfle i gyfrannu ati yn ei chyfnod ffurfiannol—o ganlyniad i amgylchiadau

It is difficult not to feel that that is exactly what we are doing today. We receive an agenda that has been set out for us by the Government in London. We spend two days discussing a programme to which we did not have an opportunity to contribute during its formative stage—as a result of exceptional

eithriadol efallai, gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y Cynulliad. Nid oes gennym y cyfrifoldeb o basio'r Deddfau sydd gerbron, ac nid oes gennym ychwaith yr hawl i amrywio'r Deddfau hynny. Dychwelaf at bwynt Paul Murphy ynglŷn â dulliau posibl o gyflwyno gwelliannau. Mae'r mater hwnnw yn un pwysig.

Mae hyn yn portreadu sut y mae disgwyl i'r Cynulliad gerdded gam wrth gam â Llundain. Weithiau teimlwn mai camau gwag yw'r rhai hynny. Dylem fod yn trafod sut y gallwn greu rhaglen lywodraethol i Gymru. Yr ydym yn trafod rhaglen San Steffan ac yn ymddwyn fel yr arferai'r Uwch Bwyllgor Cymreig ei wneud. Ni fyddem yn dymuno gweld cymhariaeth rhwng y Cynulliad â'r Uwch Bwyllgor Cymreig fel y brif gymhariaeth. Holl bwynt sefydlu'r Cynulliad oedd ein galluogi i wneud gwaith amgenach na'r hyn a oedd yn bosibl yn yr Uwch Bwyllgor. Cofiw'n rai o'r dadleuon penagored yn yr Uwch Bwyllgor Cymreig ynglŷn ag Araith y Frenhines. Mae perygl y bydd ein dadl heddiw yn cael ei hailgynnal gan yr Uwch Bwyllgor yn Llundain ar 14 Rhagfyr. Mae perygl, felly, ein bod yn croesi'r un tir ddwywaith. Mae gwersi i'w dysgu yn hyn o beth.

Gobeithiaf mai dyma'r tro cyntaf a'r olaf y bydd disgwyl i'r Cynulliad weithredu yn yr union fodd hwn. Awgrymaf ein bod y flwyddyn nesaf yn cyffwrdd â'r materion hyn, fel y nodais yng ngwelliant 3 yn fy enw. Tua mis Mai, gobeithiaf y gallwn drafod y ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn cyfarfod ag anghenion y Cynulliad. Yn ystod yr wythnos gyntaf wedi egwyl yr haf, gobeithiaf y byddwn yn trafod rhaglen y Llywodraeth yma yng Nghaerdydd ar gyfer y flwyddyn sydd yn dilyn. Dylem geisio bwydo'r anghenion deddfwriaethol i mewn ym mis Mai a chael arweiniad ddechrau Medi ar raglen sydd o fewn ein pwerau ni yng Nghaerdydd. Sylweddolwn na chawn wybod beth yw cynnwys Araith y Frenhines hyd y bydd wedi ei chyhoeddi. Er hynny, bydd cyfle inni gael ein rhaglen ein hunain o fewn ein pwerau a hefyd i ddylanwadu ar gynnwys Araith y Frenhines yn y dyfodol. Mae hyn yn rhoi gwell cyfle inni, o fewn ein

circumstances perhaps, as this is the Assembly's first year. We do not have the responsibility for passing the Acts before us, and neither do we have the right to amend those Acts. I will return to Paul Murphy's point about possible ways of proposing amendments. That is an important matter.

This illustrates how the Assembly is expected to walk step by step with London. Sometimes we feel that those are false steps. We should be discussing how we can create a governing programme for Wales. We are discussing Westminster's programme and acting as the Welsh Grand Committee used to do. We would not wish the main comparison to be between the Assembly and the Welsh Grand Committee. The whole point of establishing the Assembly was to enable us to do greater work than was possible in the Grand Committee. We remember some of the open-ended discussions on the Queen's Speech in the Welsh Grand Committee. There is a danger that our debate today will be re-run by the Grand Committee in London on 14 December. There is a danger, therefore, that we are covering the same ground twice. There are lessons to be learnt in this respect.

I hope that this is the first and the last time that the Assembly will be expected to operate in this exact way. I suggest that next year we touch upon these matters, as I have noted in amendment 3 in my name. In May or thereabout, I hope that we can debate the legislation needed in order to meet the Assembly's needs. During the first week following the summer recess, I hope that we will debate the programme of the Government here in Cardiff for the following year. We should try to feed in the legislative needs in May and then have guidance at the beginning of September on a programme that is within our powers in Cardiff. We realise that we will not know the contents of the Queen's Speech until it is made public. However, there will be an opportunity for us to have our own programme within our powers and also to influence the contents of the Queen's Speech in future. This gives us a better opportunity, within our limited

pwerau cyfyngedig, i saernïo rhaglen ar dir Cymru sydd yn ateb gofynion pobl Cymru ac a weithredir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er lles y genedl.

Y prif gwestiwn heddiw yw sut y gallwn addasu neu newid y deddfau y mae Llundain yn eu pasio i ateb gofynion Cymru. Sut y gallwn ddylanwadu ar flaen-raglen deddfwriaeth y Llywodraeth, a'i newid trwy welliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi neu, gobeithio, yn Nhŷ'r Cyffredin? Dyna'r unig ffordd y gellid newid y rhaglen. Mae cwestiwn yn codi ynglŷn â phwysigrwydd cael y gwelliannau hyn.

Os nad oes angen diwygio'r rhaglen ac os yw bwriad y Llywodraeth Lafur yn Llundain yn briodol ac yn dderbyniol gan y Cynulliad, nid oes pwynt inni drafod y rhaglen hon heddiw. Os oes angen diwygio'r rhaglen, o safbwynt deddfwriaeth sydd gan Lywodraeth Tony Blair ar ein cyfer, beth fydd y broses ar gyfer cyflwyno a chyflawni'r diwygiadau hynny? A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi trafod y materion hyn gyda'r Prif Weinidog a Paul Murphy? Fe dybiwn i ei fod wedi eu trafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

Karen Sinclair: I remember last week's fuss about using the name 'nationalist'. The UK Government is the UK Government, not the London Government. Considering that you drew attention to correct terminology last week, I would appreciate it if you used the term UK Government rather than London Government.

Dafydd Wigley: I accept your point. However, we need to differentiate between the Government in Cardiff and the Government in London, so as not confuse one with the other. I accept your susceptibilities on this matter and will try to be careful in my use of terminology.

The Presiding Officer: Order. Since reference has been made to a point of order from last week, may I also point out that there will soon be another Government in

powers, to construct a programme here in Wales which meets the requirements of the people of Wales and which is implemented by the National Assembly for Wales for the benefit of the nation.

The main question today is how we can adapt or amend the acts passed in London to meet Wales's needs. How can we influence the Government's forward legislative programme, and change it through amendments in the House of Lords or, hopefully, in the House of Commons? That is the only way that the programme could be changed. A question arises regarding the importance of making these amendments.

If there is no need to amend the programme, and if the intention of the Labour Government in London is appropriate and acceptable to the Assembly, there is no point in us debating this programme today. If the programme needs to be amended, with regard to legislation that Tony Blair's Government has in store for us, what will the process for submitting and achieving those amendments be? Has the First Secretary discussed these matters with the Prime Minister and Paul Murphy? I presume that he has had discussions with the Secretary of State.

Karen Sinclair: Cofiaf yr helynt yr wythnos diwethaf am ddefnyddio'r gair 'cenedlaetholwr'. Llywodraeth y DU yw Llywodraeth y DU, nid Llywodraeth Llundain. O ystyried eich bod wedi tynnu sylw at y derminoleg gywir yr wythnos diwethaf, byddai'n dda gennyf pe baech yn defnyddio'r term Llywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Llundain.

Dafydd Wigley: Derbyniaf eich pwynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni wahaniaethu rhwng y Llywodraeth yng Nghaerdydd a'r Llywodraeth yn Llundain, fel na fyddwn yn drysu rhwng y naill a'r llall. Derbyniaf fod gennych deimladau ar y mater hwn a cheisiaf fod yn ofalus wrth ddefnyddio terminoleg.

Y Llywydd: Trefn. Am fod cyfeiriad wedi bod at bwynt o drefn o'r wythnos diwethaf, a gaf hefyd nodi y bydd Llywodraeth arall yn Llundain cyn hir ac y bydd yn rhaid inni

London and that we will have to distinguish between the two.

Dafydd Wigley: I shall avoid going down the path of Ken Livingstone, a friend and colleague of yours from many years ago.

Byddai'n well imi ddychwelyd at y thema. Diolch, Karen, am eich sylwadau.

Rhodri Glyn Thomas: Beth yw *touché* yn Gymraeg?

Dafydd Wigley: Beth yw hynny yn Saesneg, ys gwn i, Rhodri?

Pa Fesurau yr ystyriwn y dylid eu haddasu? Ni wyddom ar hyn o bryd beth yw holl fanylion y Mesurau gan nad ydynt i gyd wedi eu cyhoeddi. Cyfeiriodd Paul at y rhai a gyhoeddwyd sydd yn berthnasol i Gymru. Mae'r cyfeiriadau at Gymru yn y Mesurau hynny yn denau iawn. Mae'n aneglur a yw'r pwerau a roddwyd drwy'r Gorchmynion yn rhoi hawliau inni yn y Mesurau hynny. Er enghraifft, yr ydym yn gyfarwydd erbyn hyn â manylion y Mesur Plant (Gadael Gofal). Fodd bynnag, nid oes llawer o le, hyd y gwelaf, i'r Cynulliad ymateb i'r Mesur hwnnw.

Mewn ysbryd cymodlon â'r Llywodraeth, awgrymaf yn adeiladol y dylid cael cymal ym mhob Mesur yn ymwneud â materion y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, megis addysg, iechyd a thai. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cynulliad eu haddasu drwy Orchymyn os dymuna wneud hynny. Dylem feddu ar y gallu i addasu Mesurau i ymateb i ofynion Cymru. Nid yw hyn yn sefydlu egwyddor newydd. O dan bwerau adrannau 126 i 128 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'r gallu gennym i addasu Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, yn ogystal â'r darpariaethau a drosglwyddwyd oddi wrth Fwrdd Datblygu Cymru Wledig. Os gallwn ni addasu Deddfau o'r fath drwy Orchymyn, pam na ddylem ni addasu Deddfau eraill a gaiff eu pasio yn San Steffan eleni ac yn ystod y blynyddoedd nesaf, o leiaf o safbwynt adrannau perthnasol i'r Cynulliad. Eleni, bydd Senedd y Deyrnas Gyfunol, Karen, yn pasio Mesurau yn ymwneud â llywodraeth leol, addysg a

wahaniaethu rhwng y ddwy.

Dafydd Wigley: Ceisiaf beidio â dilyn trywydd Ken Livingstone, cyfaill a chydweithiwr i chi ers talwm iawn.

I had better return to the theme. Thank you, Karen, for your comments.

Rhodri Glyn Thomas: What is the Welsh for *touché*?

Dafydd Wigley: What is it in English, I wonder, Rhodri?

What Bills do we consider should be amended? At present we do not know all the details of the Bills because they have not all been published. Paul referred to those that have been published and are relevant to Wales. The references to Wales in those Bills are few and far between. It is unclear whether the powers given through the Orders give us powers in those Bills. For example, we are now familiar with the details of the Children (Leaving Care) Bill. However, there is not much scope, as far as I can see, for the Assembly to respond to that Bill.

In a spirit of reconciliation with the Government, I propose a constructive suggestion that there should be a clause in each Bill that deals with matters for which the Assembly has responsibility, such as education, health and housing. This will permit the Assembly to amend those Bills by Order if it wishes to do so. We should possess the ability to amend Bills to respond to the requirements of Wales. That does not establish a new principle. Under the powers of sections 126 to 128 of the Government of Wales Act 1998, we have the ability to amend the Welsh Development Agency Act 1975, together with the provisions transferred from the Development Board for Rural Wales. If we can amend such Acts by Order, why should we not amend other Acts that will be passed in Westminster this year and in future years, at least with regard to sections relevant to the Assembly. The UK Parliament, Karen, will this year pass Bills

hyfforddiant, trafnidiaeth, anghenion addysgol arbennig, safonau gofal a chefn gwlad. Mae rheini yn faterion pwysig i'r Cynulliad.

relating to local government, education and training, transport, special educational needs, care standards and the countryside. Those are important matters to the Assembly.

Dywedodd Paul Murphy yn ei araith sylweddol a difyr y byddai modd i'r Cynulliad gyflwyno diwygiadau i Fesurau wrth iddynt fynd drwy'r Senedd. Fodd bynnag, y cwestiwn a ofynnais wrth i'r Prif Ysgrifennydd siarad yn gynharach oedd sut y gwneir hynny? Beth fydd y peirianwaith?

Paul Murphy said in his substantial and interesting speech that the Assembly will be able to submit amendments to Bills as they pass through Parliament. However, the question I asked when the First Secretary spoke earlier was how will that be done? What will be the mechanism?

3:59 p.m.

Os ydym ni fel Cynulliad—fel mwyafrif efallai—yn pasio rhywbeth, nid yw hynny o reidrwydd yn adlewyrchu dymuniad y Llywodraeth leiafrifol hon. Os oes mwyafrif yn y Cynulliad yn galw am newid i Fesur sydd yn mynd drwy'r Senedd, sut y gallwn sicrhau bod y newid hwnnw yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor neu yn yr adroddiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin fel bod y mater yn cael ei drafod? Derbyniwn nad oes sicrwydd y byddai'n cael ei fabwysiadu yn Llundain oherwydd mai'r Llywodraeth sydd â'r mwyafrif yno, ond sut y gallwn ni sicrhau bod y mater o leiaf yn cael ei godi? Credaf fod hyn yn rhywbeth y mae angen inni ei ofyn. Mae yna Aelodau fel minnau sydd hefyd yn Aelodau yn San Steffan, a gallwn godi'r materion hyn fel unigolion. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd mai dyma fydd y drefn yn y dyfodol. Mae angen mymryn o oleuni ar y mater hwn. Pa beirianwaith fydd yna i sicrhau hyn yn awtomatig?

If we as an Assembly—perhaps by a majority—pass something, that does not necessarily reflect the wishes of this minority Government. If a majority in the Assembly calls for a change to a Bill that is going through Parliament, how can we ensure that that change is introduced in the Committee or at the report stage in the House of Commons so that the matter is discussed? We accept that there is no certainty that it would be adopted in London because the Government there has a majority, but how can we ensure that it is at least raised for discussion? I believe that this is something we need to ask. There are Members like myself who are also Members in Westminster, and we can raise these matters as individuals. However, there is no certainty that this will be the case in the future. A little light needs to be shed on this matter. What mechanism will be in place to ensure that this happens automatically?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr oeddwn am ofyn a oeddech chi'n bwriadu colli Caernarfon yn yr is-etholiad sydd ar fin dod?

The First Secretary: I wanted to ask whether you intended to lose Caernarfon in the coming by-election?

Dafydd Wigley: Yr wyf yn gwbl sicr a hyderus y byddwn ni'n cadw sedd Caernarfon. Yn anffodus, fodd bynnag, nid fi fydd yn sefyll yno yn yr etholiad nesaf. Yr wyf yn siŵr fod hyn yn newid sydd yn ein taro ni i gyd, fel y bydd yn eich taro chwithau, Alun, yng nghyd-destun eich sedd chwithau.

Dafydd Wigley: I am certain and confident that we will retain the Caernarfon seat. Unfortunately, however, I shall not be standing there at the next election. This is a change that affects us all, as it will affect you, Alun, in relation to your own seat.

If devolution is to mean anything, it should

Os yw datganoli i olygu rhywbeth, dylai ein

enable us to create our own agenda in Wales. That should mean being able, at the very least, to fine-tune Westminster Acts to meet the needs of Wales. For example, the Transport Bill is going through the House of Commons this year. We should be able to amend it to set up a passenger transport authority for Wales, if a majority in this Chamber wishes to do that. That would be something in the spirit and approach of the Government and would appeal to Members across party boundaries. A Local Government Bill is also going through the House of Commons. It may well be that the Bill could be amended and that we need not slavishly follow the English model for elected mayors, for example. I realise that there will be some flexibility in the forthcoming proposals but that model would not be suitable for scattered rural areas in Wales. We may want to fine-tune such a Bill. On the Countryside Bill, there is a question as to what the appropriate partnership would be in Wales to ensure the legitimate rights of access that people in urban areas and other areas want in order to enjoy the countryside. That partnership should be a constructive one, between those who want access and those who look after the countryside and who have day to day interests there. The model may be different in Wales from that in England given the nature of our agriculture and our topography. Why should we not be able to fine-tune measures such as that?

Special education is a subject close to my own heart and I will be taking an interest in the Bill going through Westminster. We should be able to reflect our experience in Wales in this Bill. That experience, for example, gained through the all-Wales strategy for mentally handicapped adults and children in the 1980s. At that time, we were leading the field in Wales. We have the experience. We have the Welsh Advisory Group on Special Needs, the body that has developed advice on this. How do we implement an action plan in Wales in line with our social values and our educational needs in that context? Special needs need to be identified very early and I know that there

galluogi i greu ein hagenda ein hunain yng Nghymru. Dylai hynny olygu'r gallu, o leiaf, i fanwl gyweirio Deddfau San Steffan i ateb anghenion Cymru. Er enghraifft, mae'r Mesur Trafnidiaeth yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin eleni. Dylem allu ei newid i sefydlu awdurdod trafndiaeth teithwyr i Gymru, os mai hynny yw dymuniad y mwyafrif yn y Siambr hon. Byddai hynny'n gydnaws ag ysbryd a dull gweithredu'r Llywodraeth ac fe apeliai i Aelodau ar draws ffiniau'r pleidiau. Mae Mesur Llywodraeth Leol ar ei ffordd drwy Dŷ'r Cyffredin hefyd. Mae'n ddigon posibl y gellid newid y Mesur hwnnw ac nad oes rhaid inni ddilyn yn slafaidd y model Seisnig ar gyfer meiri etholedig, er enghraifft. Sylweddolaf y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn y cynigion sydd i ddod ond ni fyddai'r model hwnnw'n addas i ardaloedd gwledig gwasgaredig yng Nghymru. Efallai y byddwn am fanwl gyweirio Mesur o'r fath. Ynglŷn â'r Mesur Cefn Gwlad, mae cwestiwn ynghylch beth fyddai'r bartneriaeth briodol yng Nghymru i sicrhau'r hawliau mynediad cyfiawn y mae rhai mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd eraill am eu cael i fwynhau cefn gwlad. Dylai'r bartneriaeth honno fod yn un adeiladol, rhwng y rhai sydd am gael mynediad a'r rhai sydd yn gofalu am gefn gwlad ac sydd â buddiannau yno o ddydd i ddydd. Gallai'r model fod yn wahanol yng Nghymru i'r hyn a geir yn Lloegr oherwydd natur ein hamaethyddiaeth a'n topograffi. Pam na ddylem allu manwl gyweirio mesurau fel hwnnw?

Mae addysg arbennig yn bwnc sydd yn agos at fy nghalon a chymeraf ddiddordeb yn y Mesur wrth iddo fynd drwy San Steffan. Dylem allu adlewyrchu ein profiad yng Nghymru yn y Mesur hwn. Y profiad hwnnw a enillwyd, er enghraifft, drwy strategaeth Cymru gyfan i oedolion a phlant dan anfantais meddwl yn y 1980au. Bryd hynny, yr oeddem yn arwain yn y maes hwn yng Nghymru. Mae'r profiad gennym. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Cymreig ar Anghenion Arbennig gennym, sef y corff a ddatblygodd gyngor ar hyn. Sut y byddwn yn rhoi cynllun gweithredu ar waith yng Nghymru yn unol â'n gwerthoedd cymdeithasol a'n hanghenion addysgol yn y cyd-destun hwnnw? Mae

is great concern about this in Wales. As much as 20 per cent of our children have some special need at some time. That underlines the importance of the matter. Of all the categories of disputes that are referred to the ombudsman I understand that the largest source of complaints is with regard to special education. Therefore, we have needs that we may want to address in a Welsh context.

Bills such as these could have built into them a clause similar to, 'this Bill with regard to its applications in Wales, may be amended by Order by the National Assembly for Wales'. If such a clause was built into primary legislation in Westminster, it would then allow us, if and when we need to make amendments, to do so within the general framework of the Bill. We cannot, of course, go outside the remit of a Bill. That would give us the basic flexibility to adapt Bills to Welsh needs. There is nothing unreasonable in seeking such a provision. From the First Secretary's comments earlier, there is some common cause here; I think that we are looking for greater flexibility and a way of adapting our new systems to meet Welsh needs. If we do not have the ability to change a dot or a comma in any Bill that has been set up, we would need to press for full primary legislation before we could do anything. We know the queuing time in Westminster for primary legislation; it would cause immense practical problems.

Some Bills introduced in the Queen's Speech make specific provision for Wales. The Post-16 Education and Training Bill allows structures in Wales for post-16 education and training and the Care Standards Bill establishes a care council for Wales. However, if we need in due course to amend the specifically Welsh provisions of these Bills and make small changes to the Welsh-only contents of such legislation we should be able to do that by an Order making mechanism.

angen dynodi anghenion arbennig yn gynnar iawn a gwn fod pryder mawr ynghylch hynny yng Nghymru. Mae anghenion arbennig gan gymaint ag 20 y cant o'n plant ar ryw adeg. Mae hynny'n tanlinellu pwysigrwydd y mater. O'r holl gategorïau o anghydfodau a gyfeirir at yr ombwdsmon, deallaf fod y rhan fwyaf o gwynion yn ymwneud ag addysg arbennig. Felly mae gennym anghenion y gallem ddymuno ymdrin â hwy mewn cyddestun Cymreig.

Gallai Mesurau fel y rhain gynnwys cymal tebyg i, 'gellir diwygio'r Mesur hwn mewn perthynas â'r modd y'i gweithreidir yng Nghymru drwy Orchymyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'. Os gellid cynnwys cymal o'r fath mewn deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan, byddai'n caniatáu i ni wneud newidiadau, os byddai arnom angen gwneud hynny, oddi mewn i fframwaith cyffredinol y Mesur. Wrth gwrs, ni allwn fynd yn tu hwnt i gylch gorchwyl unrhyw Fesur. Rhoddai hynny inni'r hyblygrwydd sylfaenol i addasu Mesurau i ateb anghenion Cymru. Nid oes dim afresymol o geisio darpariaeth o'r fath. Yn ôl sylwadau'r Prif Ysgrifennydd yn gynharach, mae rhywfaint o dir cyffredin yn y fan hyn; credaf ein bod yn chwilio am fwy o hyblygrwydd a modd i addasu ein systemau newydd i ateb anghenion Cymru. Os nad oes gennym allu i newid yr un mymryn ar unrhyw Fesur a osodwyd, byddai'n rhaid inni bwyso am ddeddfwriaeth sylfaenol lawn cyn y gallem wneud yr un dim. Gwyddom am faint y mae'n rhaid disgwyl yn San Steffan i gael deddfwriaeth sylfaenol; fe achosai broblemau ymarferol enfawr.

Mae rhai o'r Mesurau a gyflwynwyd yn Araith y Frenhines yn darparu'n arbennig ar gyfer Cymru. Mae'r Mesur Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn caniatáu strwythurau yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 ac mae'r Mesur Safonau Gofal yn sefydlu cyngor gofal i Gymru. Fodd bynnag, os bydd arnom angen diwygio'r darpariaethau penodol i Gymru yn y Mesurau hyn maes o law a gwneud newidiadau bychain yn y cynnwys ar gyfer Cymru'n unig mewn deddfwriaeth o'r fath, dylem allu gwneud hynny drwy fecanwaith gwneud Gorchmynion.

There are other aspects of the Queen's Speech about which we have some reservations. Privatisation seems to be alive and well and in safe hands at the moment considering the provisions regarding the post office services, the air traffic control services and the London underground. They may not directly impact us but it is of concern that a privatisation agenda is being continued. I doubt that would have majority support in this Chamber, except maybe in certain quarters. Our friends in the Welsh Conservative Party agree with that part of the Queen's Speech. Do I have the party title right?

Nick Bourne: Yes.

Dafydd Wigley: We wonder whether the Freedom of Information Bill will genuinely open up Government. Janet Davies expressed that concern in her intervention earlier. If it does genuinely open up Government, we would welcome it because that is much needed. We note that Scotland is likely to have a more radical Bill on this because they have greater powers than we in Wales. We have some doubts about issues such as voting in supermarkets—an issue which is relevant to us in this Assembly although it goes beyond our powers. There are other aspects of the Representation of the People Bill, such as the provision for disabled people, on which I am sure we will have comments.

We welcome Bills such as the Race Relations (Amendment) Bill, the Utility Regulation Bill, the Electronic Communications Bill and the Limited Liability Partnership Bill, subject to knowing the detail of their contents. Their general direction seems to be acceptable. There are other Bills which we would have liked to have seen included in the legislative programme, which are not included. For example, a Bill devolving responsibility for the railways in Wales to the Assembly; a Bill to reduce VAT on house renovation—we have voted in favour of that in this Chamber; a Bill giving the Child Support Agency the right to see tax returns and a Bill devolving

Mae agweddau eraill ar Araith y Frenhines y mae gennym rai amheuon yn eu cylch. Ymddengys fod preifateiddio'n fyw ac yn iach ac mewn dwylo diogel ar y funud o ystyried y darpariaethau ynghylch gwasanaethau'r swyddfa bost, gwasanaethau rheoli traffig yr awyr a rheilffyrdd tanddaearol Llundain. Efallai nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol arnom ond testun pryder yw bod agenda preifateiddio yn cael ei hymestyn. Yr wyf yn amheus a fyddai mwyafrif yn cefnogi hynny yn y Siambr hon, heblaw rhai cylchoedd efallai. Mae ein cyfeillion ym Mhlaid Geidwadol Cymru'n cytuno â'r rhan honno o Araith y Frenhines. A roddais enw'r blaid yn iawn?

Nick Bourne: Do.

Dafydd Wigley: Yr ydym yn amau a fydd y Mesur Rhyddid Gwybodaeth yn agor Llywodraeth mewn gwirionedd. Mynegodd Janet Davies y pryder hwnnw yn ei hymyriad yn gynharach. Os bydd yn agor Llywodraeth mewn gwirionedd, byddem yn ei groesawu oherwydd mae mawr angen hynny. Nodwn fod yr Alban yn debygol o gael Mesur mwy radical ar hyn am fod ganddynt bwerau mwy nag sydd gennym yng Nghymru. Mae gennym rai amheuon ynghylch materion fel pleidleisio mewn archfarchnadoedd—mater sydd yn berthnasol i ni yn y Cynulliad hwn er ei fod y tu hwnt i'n pwerau. Mae agweddau eraill ar Fesur Cynrychiolaeth y Bobl, fel y ddarpariaeth ar gyfer pobl anabl, yr wyf yn siwr y bydd gennym sylwadau arnynt.

Croesawn Fesurau fel y Mesur Cysylltiadau rhwng yr Hiliau (Diwygiad), y Mesur Rheoleiddio Cyfleustodau, y Mesur Cyfathrebu Electronig a'r Mesur Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig, yn amodol ar gael gwybod manylion eu cynnwys. Ymddengys fod eu cyfeiriad cyffredinol yn dderbyniol. Mae Mesurau eraill y byddem wedi hoffi gweld eu cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol, sydd heb eu cynnwys. Er enghraifft, Mesur i ddatganoli cyfrifoldeb dros y rheilffyrdd yng Nghymru i'r Cynulliad; Mesur i leihau TAW ar adnewyddu tai—pleidleisiasom o blaid hynny yn y Siambr hon; Mesur yn rhoi hawl i'r Asiantaeth Cefnogaeth Plant weld

the probation service. I shall pursue these as opportunities arise.

If we are to have our own legislative power and provision to amend Bills by Order, it is essential that the Assembly has the power to call in Government Ministers, where appropriate, to face our Committees so that they have our needs impressed upon them. That is a direct, inevitable consequence of our lack of direct powers. Our Committees can be used, possibly in a pre-legislative scrutiny capacity, to examine the implications for Wales of draft Bills. In the House of Commons there has been a move towards pre-legislative scrutiny and we could well consider doing that also.

I realise that the Secretary of State for Wales has a role in this regard and we welcome him here. However, I cannot understand for the life of me why it was not possible to arrange a date for the second session when he could have been present. I realise that there is a clash on the nominated date. It was suggested earlier when it was decided that the Secretary of State for Wales would not take interventions, that he would respond to detailed points later. However, if he will not be here for the second session he will not be able to hear those detailed points from the back-benches.

The First Secretary: Dafydd Wigley knows the parliamentary process and I am sure that he accepts that it is often the junior Minister who deals with all the slog of detail. I can tell him with authority, from my period at the Home Office, that that is the case and it is one of the special joys of the job. In the same way it is a special joy for the Secretary of State for Wales to stand back and let his junior Minister deal with the details. David Hanson will have an important role in dealing with the detail in committees and therefore it is important that the Assembly has a relationship with him as well as with the Secretary of State for Wales.

Dafydd Wigley: We have noticed, Alun,

ffurflenni treth a Mesur i ddatganoli'r gwasanaeth prawf. Rhoddaf sylw i'r rhain fel y daw'r cyfle.

Os ydym i gael ein pŵer deddfwriaethol ein hunain a darpariaeth i ddiwygio Mesurau drwy Orchymyn, mae'n holl bwysig i'r Cynulliad gael y pŵer i alw Gweinidogion y Llywodraeth, lle y bo'n briodol, i wynebu ein Pwyllgorau fel y gellir eu siarsio ynghylch ein hanghenion. Mae hynny'n ganlyniad uniongyrchol, anorfod i'n diffyg pwerau uniongyrchol. Gellir defnyddio ein Pwyllgorau, mewn swyddogaeth archwilio cyn-ddeddfwriaethol o bosibl, i ystyried goblygiadau mesurau drafft i Gymru. Yn Nhŷ'r Cyffredin bu symudiad at archwilio cyn-ddeddfwriaethol ac mae'n ddigon posibl y gallem ystyried gwneud hynny hefyd.

Sylweddolaf fod rôl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn hyn o beth ac fe'i croesawn yma. Fodd bynnag, ni allaf yn fy myw ddeall pam nad oedd modd trefnu dyddiad ar gyfer yr ail sesiwn pan allai fod yn bresennol. Sylweddolaf fod cyd-daro ar y dyddiad a enwyd. Awgrymwyd yn gynharach, pan benderfynwyd na fyddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn derbyn ymyriadau, y byddai'n ymateb i bwyntiau manwl yn ddiweddarach. Fodd bynnag, os na fydd yma yn yr ail sesiwn ni fydd modd iddo glywed y pwyntiau manwl hynny o'r meinciau cefn.

Y Prif Ysgrifennydd: Gŵyr Dafydd Wigley y broses seneddol ac yr wyf yn siŵr ei fod yn derbyn mai'r is-Weinidog yn aml sydd yn ymdrin â'r holl waith caled sydd yn ymwneud â'r manylion. Gallaf ddweud wrtho'n awdurdodol, ar ôl fy nghyfnod yn y Swyddfa Gartref, mai hynny sydd yn wir a'i fod yn un o bleserau arbennig y swydd. Mae'n bleser arbennig yn yr un modd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru sefyll yn ôl a gadael i'w is-Weinidog ymdrin â'r manylion. Bydd gan David Hanson rôl bwysig wrth ymdrin â'r manylion mewn pwyllgorau ac mae'n bwysig felly fod gan y Cynulliad berthynas ag ef yn ogystal â chydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Dafydd Wigley: Yr ydym wedi sylwi, Alun,

what dealing with so much slog of detail has done to you over the years. You had so many Bills to cope with in the Home Office. There is a serious question about whether the Protocol that we adopted—perfectly properly last week—is in line with or outside section 76 of the Act. However, we can discuss that further at another time.

4:09 p.m.

Glyn Davies: There have been many articles in newspapers recently on what the Secretary of State for Wales does now that we have an Assembly in Wales. It was different for the Home Secretary; he had a lot of work. However, do you agree that the Secretary of State for Wales now has such a reduced job that one would have thought that he could have found plenty of time to come here?

Dafydd Wigley: I am sure that the Secretary of State for Wales will find every possible opportunity to come here. Furthermore, I am sure that if he continues to do his job fully, as he is doing, he will be fully occupied. However, I am not sure whether there is a job for a deputy because, as far as I can see, most of his time is taken up by other activities. However, I will not expand on that at the moment.

We look forward to the day when the Assembly will not have to scratch around for legislative crumbs falling from the UK Government's table. We look to be able to draw up our own legislative programme in Wales for at least our devolved functions, as can the people of Scotland and Northern Ireland but, sadly, not the people of Wales.

I take this opportunity to wish the people of Northern Ireland well. They have taken a brave step forward. Through the Council of the Isles, I hope that we can give them every help, support, sympathy and co-operation during the difficult period that is facing them. So many of the issues facing them also face us and we wish them well. I also pay tribute to Paul Murphy for his contribution in securing the Northern Ireland settlement.

ar effaith cymaint o waith caled ar fanylion arnoch dros y blynyddoedd. Yr oedd gennych gynifer o Fesurau i ddygymod â hwy yn y Swyddfa Gartref. Mae cwestiwn difrifol ynghylch a yw'r Protocol a fabwysiadwyd gennym—yn gwbl briodol yr wythnos diwethaf—yn unol ag adran 76 y Ddeddf neu y tu allan iddi. Fodd bynnag, gallwn drafod hynny ymhellach rywdro eto.

Glyn Davies: Bu llawer o erthyglau mewn papurau newydd yn ddiweddar ynghylch yr hyn a wna Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ôl inni gael y Cynulliad yng Nghymru. Yr oedd yn wahanol i'r Ysgrifennydd Cartref; yr oedd ganddo lawer o waith. Fodd bynnag, a gytunwch fod swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gymaint yn llai fel y byddai rhywun yn credu y gallai gael digon o amser i ddod yma?

Dafydd Wigley: Yr wyf yn sicr y manteisia Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar bob cyfle posibl i ddod yma. Yn ogystal â hynny, yr wyf yn sicr, os pery i wneud ei waith yn llawn, fel y mae'n gwneud, y bydd ei amser yn llawn. Fodd bynnag, nid wyf yn sicr a oes gwaith i ddirprwy oherwydd, hyd y gallaf weld, treulir y rhan fwyaf o'i amser ar weithgareddau eraill. Fodd bynnag, nid ymhelaethaf ar hynny ar hyn o bryd.

Edrychwn ymlaen at y diwrnod pan na fydd yn rhaid i'r Cynulliad bigo briwsion deddfwriaethol o fwrdd Llywodraeth y DU. Disgwyliwn allu llunio ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain yng Nghymru ar gyfer ein swyddogaethau datganoledig o leiaf, fel y gall pobl yr Alban a Gogledd Iwerddon ond nid pobl Cymru, gwaetha'r modd.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i bobl Gogledd Iwerddon. Maent wedi cymryd cam dewr ymlaen. Drwy Gyngor yr Ynysoedd, gobeithiaf y gallwn roi iddynt bob cymorth, cefnogaeth, cydymdeimlad a chydweithrediad yn ystod y cyfnod anodd y maent yn ei wynebu. Mae llawer iawn o'r materion sydd yn eu hwynebu hwy yn ein hwynebu ninnau a dymunwn yn dda iddynt. Talaf deyrnged hefyd i Paul Murphy am ei

gyfraniad at sicrhau'r setliad yng Ngogledd Iwerddon.

We want to see the Labour Government in Wales present the Assembly with its own programme for government next year. In doing so, we look for a First Secretary who will give this Assembly a dynamic vision and a programme of action. We should not have to depend on the various interpretations of speeches made in Aberystwyth and elsewhere. This Assembly will win the hearts and minds of Wales when it starts making a real difference in terms of jobs, schools, housing and hospitals for all the people of Wales. We need a programme of government that addresses those needs in the context of our country. Regurgitating an agenda that is orientated towards the needs of south-east England, frankly, does not do that. The sooner we can get this debate out of the way and start applying ourselves to the needs of Wales, the better it will be for our country. In the meantime, we will do everything we can, within the framework of this legislation, to get the best deal for Wales.

Nick Bourne: I propose amendment 1.

1. *Delete the first clause.*
2. *In the second clause, after 'interest', insert 'and concern'. After 'Wales', add 'and regrets that these proposals will add further burdens to people in Wales, particularly people in rural Wales'.*
3. *Add a new clause after the second clause: 'Regrets that the opportunity was not taken to enshrine in legislation provision for assistance in terms of full match funding over and above Barnett for Objective 1 areas in Wales'.*

I also propose amendment 2 on behalf of David Melding. Insert after the second clause

regrets that the Government failed to bring forward measures that would give every NHS patient a guaranteed waiting time based on their clinical need for treatment.

Yr ydym am weld y Llywodraeth Lafur yng Nghymru'n cyflwyno ei rhaglen lywodraethu ei hun i'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. Wrth wneud hynny, yr ydym yn chwilio am Brif Ysgrifennydd a rydd weledigaeth ddynamig a rhaglen weithredu i'r Cynulliad hwn. Ni ddylem orfod dibynnu ar wahanol ddehongliadau o areithiau a wneir yn Aberystwyth ac mewn mannau eraill. Bydd y Cynulliad hwn yn ennill calon a meddwl Cymru pan ddechreuwa wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran swyddi, ysgolion, tai ac ysbytai i holl bobl Cymru. Mae arnom angen rhaglen lywodraethu sydd yn ymdrin â'r anghenion hynny yng nghyd-destun ein gwlad. Nid yw ailgyfogi agenda a gyfeiriwyd at anghenion de-ddwyrain Lloegr yn gwneud hynny, a dweud y gwir. Gorau po gyntaf er mwyn ein gwlad inni orffen â'r ddatl hon a dechrau ymroi i ddiwallu anghenion Cymru. Yn y cyfamser, gwnawn bopeth a allwn, o fewn fframwaith y ddeddfwriaeth hon, i gael y fargen orau i Gymru.

Nick Bourne: Cynigiaf welliant 1.

1. *Dileu y cymal cyntaf.*
2. *Yn yr ail gymal, ar ôl 'o ddiddordeb', rhoi 'a phryder'. Ar ôl 'Cymru', ychwanegu 'a'i fod yn gofidio y bydd y cynigion hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar bobl Cymru, yn arbennig pobl Cymru wledig'.*
3. *Ychwanegu cymal newydd ar ôl yr ail gymal: 'Yn gresynu na fanteisiwyd ar y cyfle i ymgorffori yn y ddeddfwriaeth ddarpariaeth ar gyfer cymorth o safbwynt cyllid cyfatebol llawn y tu hwnt i Barnett i ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru'.*

Yr wyf hefyd yn cynnig gwelliant 2 ar ran David Melding. Ychwanegu ar ôl yr ail gymal

yn gresynu na chyflwynodd y Llywodraeth fesurau a fyddai'n rhoi amser aros penodedig i bob un o gleifion yr NHS ar sail eu hangen clinigol am driniaeth.

I echo Dafydd Wigley in congratulating Paul Murphy on his work in Northern Ireland. Our thoughts and hopes, as are Paul Murphy's no doubt, are with the people of Northern Ireland and I hope that its Assembly goes from strength to strength and is successful.

I welcome the opportunity to discuss the Government's legislative programme for the forthcoming session. The Welsh Conservative Party—the opposition party of Wales is pleased to see the Secretary of State for Wales here today, but it will not thank him for the Government's legislation programme for the forthcoming session. That comment is not personal; it attaches to the role rather than to the individual. That first clause in the Government's motion is all too typical of the self-congratulatory tone that we see far too often in this Chamber from the Labour administration. It is not consistent with the spirit of devolution to bend a knee to Westminster in the way that Edwina Hart said recently that she would not. However, she is not here to make that point now.

In introducing the Queen's Speech, the monarch spoke of the Government's cuts in the basic rates of income tax. That is deeply misleading because the tax burden has increased considerably under this Government and it does not deserve applause for what it has done with tax. There is a tax rate of 10p for the lowest paid; a basic rate tax of 22p; 40 per cent higher rate tax and a super charge rate of over 50 per cent for the severely disabled. That should not be a matter of pride for any government and certainly not the Government in Westminster.

The Queen's Speech then continues with a commitment to promote economic reform in Europe. We in the Welsh Conservative Party will be looking to the Governments in Westminster and Cardiff to stand up for British interests in Brussels and Strasbourg. There has been a deafening silence recently on progress on removing the illegal ban on British beef on the continent and an equally deafening silence in Cardiff—not that that is anything new. It will be interesting, at some

Ategaf eiriau Dafydd Wigley wrth longyfarch Paul Murphy ar ei waith yng Ngogledd Iwerddon. Mae ein meddyliau a'n gobeithion, fel Paul Murphy yr wyf yn siŵr, gyda phobl Gogledd Iwerddon a gobeithiaf yr â ei Gynulliad o nerth i nerth ac y bydd yn llwyddiannus.

Croesawaf y cyfle i drafod rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth am y sesiwn sydd i ddod. Mae Plaid Geidwadol Cymru—yr wrthblaid yng Nghymru—yn falch o weld Ysgrifennydd Gwladol Cymru yma heddiw, ond ni fydd yn diolch iddo am raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y sesiwn sydd i ddod. Nid sylw personol mo hynny; mae'n ymwneud â'r rôl yn hytrach na'r unigolyn. Mae'r cymal cyntaf hwnnw yng nghynnig y Llywodraeth yn nodweddiadol iawn o'r dôn hunanglodforus a glywn yn rhy aml o lawer yn y Siambr hon oddi wrth y weinyddiaeth Lafur. Nid yw'n gyson ag ysbryd datganoli i blygu glin i San Steffan yn y modd y dywedodd Edwina Hart yn ddiweddar na wnâi hi. Fodd bynnag, nid yw yma'n awr i wneud y pwynt hwnnw.

Wrth gyflwyno Araith y Frenhines, soniodd y Frenhines am doriadau'r Llywodraeth yng nghyfraddau sylfaenol y dreth incwm. Mae hynny'n gamarweiniol iawn oherwydd bu cynnydd sylweddol ym maich y trethi o dan y Llywodraeth hon ac nid yw'n haeddu ei channol am yr hyn a wnaeth gyda threthi. Mae cyfradd dreth o 10c i'r rhai isaf eu cyflog; cyfradd dreth sylfaenol o 22c; cyfradd dreth uwch o 40 y cant a chyfradd gordal o dros 50 y cant i rai ag anabledd difrifol. Ni ddylai hynny fod yn fater i'r un llywodraeth ymfalchïo ynddo ac yn sicr nid y Llywodraeth yn San Steffan.

Mae Araith y Frenhines yn mynd ymlaen wedyn i roi ymrwymiad i hybu diwygiad economaidd yn Ewrop. Byddwn ni ym Mhlaid Geidwadol Cymru'n disgwyl i'r Llywodraethau yn San Steffan ac yng Nghaerdydd sefyll dros fuddiannau Prydain ym Mrwsel ac yn Strasbourg. Bu distawrwydd byddarol yn ddiweddar ar y cynnydd ynghylch dileu'r gwaharddiad anghyfreithlon ar gig eidion o Brydain ar y cyfandir a distawrwydd yr un mor fyddarol

stage, to hear what the Secretary for Agriculture and Rural Development is doing on behalf of Welsh farmers with regard to that ban.

The Queen's Speech states that the number one priority for the UK Government is education. That has not been reflected in reduced class sizes in Wales and it is not reflected in the repair programme for school buildings in Wales. I come on to a point made in the Queen's Speech and that is not reflected in the Government's motion—a commitment to rewarding good teaching. We are all in favour of that, but we know that in the Welsh context that means performance-related pay. I warn our Secretary for Education and Children that the opposition parties are united against this. She knows that that has been dropped from the agenda for the forthcoming Committee meeting. Teachers, teachers unions, parents and parent-teacher associations all seem to be against performance-related pay, all except Tony Blair. If it is your policy Rosemary, if it is Rosemary Butler's baby—then, drop it. You should throw the policy out with the bath water because otherwise we will defeat it.

Michael German: Do not give up your day job, Nick.

Nick Bourne: This is my day job. It may not be for some of your Members, but this is my day job. Surprisingly, the Labour motion makes no mention of the provision to reward good teaching mentioned in the Queen's Speech. It is vital to the Assembly's work. We trust that it will be dropped because it would be expensive, unnecessary and damaging.

The UK Government's commitment to reorganisation and reform of the welfare system is also restated in the Queen's Speech. We have heard that one before. We all remember when Frank Field, a politician respected across the political divide, was asked to think the unthinkable. He did, and he was fired. He apparently was not

yng Nghaerdydd—nid bod hynny'n annisgwyl. Diddorol fydd clywed, ar ryw adeg, am yr hyn y mae yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ei wneud ar ran ffermwyr Cymru mewn cysylltiad â'r gwaharddiad hwnnw.

Mae Araith y Frenhines yn datgan mai blaenoriaeth gyntaf Llywodraeth y DU yw addysg. Ni welir hynny mewn meintiau dosbarth llai yng Nghymru ac nis gwelir ychwaith yn y rhaglen atgyweirio ar gyfer adeiladau ysgolion yng Nghymru. Dof at bwynt a wneir yn Araith y Frenhines ac un nas gwelir yng nghynnig y Llywodraeth—ymrwymiad i wobrwyo athrawon da. Yr ydym yn llwyr o blaid hynny, ond gwyddom fod hynny, yng nghyd-destun Cymru, yn golygu tâl ar sail perfformiad. Rhybuddiaf yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant fod pleidiau'r wrthblaid yn gytûn yn erbyn hynny. Gŵyr fod hynny wedi ei ollwng o'r agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Ymddengys fod athrawon, undebau'r athrawon, rhieni a chymdeithasau rhieni-athrawon oll yn erbyn tâl ar sail perfformiad, pawb heblaw Tony Blair. Os mai'ch polisi chi ydyw, Rosemary, os mai baban Rosemary Butler ydyw—yna, gollyngwch ef. Dylech daflu'r polisi gyda'r brych oherwydd fe'i trechwn ef fel arall.

Michael German: Peidiwch â rhoi'r gorau i'ch prif swydd, Nick.

Nick Bourne: Hon yw fy mhrif swydd. Efallai nad ydyw yn achos rhai o'ch Aelodau chi, ond hon yw fy mhrif swydd. Er syndod, nid oes sôn yng nghynnig Llafur am y ddarpariaeth i wobrwyo athrawon da a grybwyllwyd yn Araith y Frenhines. Mae'n holl bwysig i waith y Cynulliad. Hyderwn y caiff ei ollwng oherwydd byddai'n ddrud, yn ddiangen ac yn niweidiol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i ad-drefnu a diwygio'r system les wedi ei ailddatgan yn Araith y Frenhines hefyd. Clywsom y stori honno o'r blaen. Yr ydym oll yn cofio pan ofynnwyd i Frank Field, gwleidydd ac iddo barch ar draws y rhaniad gwleidyddol, ddychmygu'r annychmygol. Fe wnaeth, ac fe'i diswyddwyd. Mae'n amlwg

unsackable. Therefore, we doubt that commitment to thoroughgoing welfare reform. We welcome help for disabled people, if the Government really means it and we welcome the appropriate tightening of the race relations legislation. However, we are concerned about the commitment in the Queen's Speech to withdraw the right to jury trial for certain defendants. That is deeply anti-libertarian and we cannot support that.

A Freedom of Information Bill is not unwelcome. Some Labour Assembly Members already seem to have jumped the gun on that, as we heard earlier. Rhodri and Tom Middlehurst already have experience; obviously, they are in favour of it. We hope that that spreads throughout the Labour Party and the Labour Government in Wales and that we can then hear about matters about which we rely on only a few Assembly Members to tell us. We doubt whether this is a thoroughgoing commitment by the Westminster Government. We have only just learnt about the discussions that took place after the election for a Liberal-Labour alliance. We wonder whether the same discussions are taking place here. We have no doubt that some Assembly Members wish that they were.

Michael German: Point of order. Last week, we heard from Nick that he wanted his party to be called the Conservative Party. Now he wants it to be called the Welsh Conservative Party. In the interest of correctness, there is a Liberal Party registered in Wales. That party is not represented in this Chamber.

Nick Bourne: I stand corrected. However, I notice that there was no correction of my suggestion that there have been discussions about an alliance between the Liberal Party and the Labour Party, so we must draw the inevitable conclusion that they are taking place, or at least that he wishes they were.

The First Secretary: Pathetic.

nad oedd yn anniswyddadwy. Felly, yr ydym yn amau'r ymrwymiad hwnnw i ddiwygiad lles trwyadl. Croesawn y cymorth i bobl anabl, os yw'r Llywodraeth o ddirif yn ei gyloch a chroesawn y tynhau priodol ar ddeddfwriaeth cysylltiadau rhwng yr hiliau. Fodd bynnag, yr ydym yn bryderus ynghylch yr ymrwymiad yn Araith y Frenhines i dynnu yn ôl yr hawl i sefyll prawf gerbron rheithgor yn achos rhai diffynyddion. Mae hynny'n wrthlibertaraidd iawn ac ni allwn gefnogi hynny.

Nid yw Mesur Rhyddid Gwybodaeth yn annerbyniol. Ymddengys fod rhai Aelodau Cynulliad Llafur wedi achub y blaen ar hynny'n barod, fel y clywsom yn gynharach. Mae gan Rhodri a Tom Middlehurst brofiad eisoes; mae'n amlwg eu bod o'i blaid. Gobeithiwn y bydd hynny'n ymledu drwy'r Blaid Lafur a'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru ac wedyn y gallwn glywed am faterion yr ydym yn dibynnu ar ychydig o Aelodau Cynulliad yn unig i'n hysbysu amdanynt. Amheurn a yw hyn yn ymrwymiad trwyadl ar ran Llywodraeth San Steffan. Nid ydym ond newydd glywed am y trafodaethau a fu ar ôl yr etholiad ar gyfer clymblaid Ryddfrydol-Llafur. Yr ydym yn meddwl tybed a yw'r un trafodaethau'n digwydd yma. Nid oes amheuaeth gennym y byddai rhai Aelodau Cynulliad yn dymuno hynny.

Michael German: Pwynt o drefn. Yr wythnos diwethaf, dywedodd Nick wrthym ei fod yn dymuno i'w blaid gael ei galw'n Blaid Geidwadol. Bellach mae am iddi gael ei galw'n Blaid Geidwadol Cymru. Er mwyn cywirdeb, ceir Plaid Ryddfrydol sydd wedi ei chofrestru yng Nghymru. Ni chynrychiolir y blaid honno yn y Siambr hon.

Nick Bourne: Derbyniaf y cywiriad. Fodd bynnag, sylwaf nad oedd cywiriad i'm hawgrym bod trafodaethau wedi digwydd ynghylch clymblaid rhwng y Blaid Ryddfrydol a'r Blaid Lafur, felly rhaid inni ddod i'r casgliad anorfod eu bod yn digwydd, neu o leiaf ei fod yn dymuno y byddent yn digwydd.

Y Prif Ysgrifennydd: Truenus.

Nick Bourne: You are calling off the discussions, are you, First Secretary?

One item of legislation that we are concerned about is the Countryside Bill. I doubt whether this legislation is needed in England and it is not needed in Wales, where large tracts of the Welsh countryside are already open to walkers. There is no call for the Bill.

4:19 p.m.

We are deeply concerned about unrestricted rights to roam across farmland and land throughout Wales. It will impose financial burdens on farmers who are already hard-pressed at a time when there is a deep and worsening rural crisis in Wales, with which Labour seems unable to grapple. We will fight in every legal way we can against the application of this legislation in Wales. It is unnecessary, costly, bureaucratic and it will threaten the countryside that it seeks to open up to people.

The jury is out on the local government legislation. We will examine the legislation and if it is not prescriptive about particular forms of local government we will give it fair consideration. If it is prescriptive, we will oppose it because there should not be one template for the whole of Wales. We are concerned about motoring and transport provisions. The car is not a luxury in rural Wales nor in much of urban Wales. It is a necessity. Proposals to charge for workplace car parking and congestion will hit people who are already hard-hit and who are dependent on motor transport.

There is nothing here for people in rural Wales. There is little here for people in Wales in general but the legislative programme certainly hits hard at rural Wales. David Melding will speak in detail later about the health provisions but we are disappointed that, at a time when waiting lists are increasing and Welsh people are

Nick Bourne: A ydych yn rhoi'r gorau i'r trafodaethau, Brif Ysgrifennydd?

Un eitem o ddeddfwriaeth yr ydym yn bryderus yn ei chylch yw'r Mesur Cefn Gwlad. Amheuf a oes angen y ddeddfwriaeth hon yn Lloegr ac nid oes angen amdani yng Nghymru, lle y mae rhannau helaeth o gefn gwlad Cymru eisoes yn agored i gerddwyr. Nid oes galw am y Mesur.

Yr ydym yn bryderus iawn ynghylch hawliau anghyfyngedig i grwydro dros dir amaeth a thiroedd ledled Cymru. Bydd yn rhoi beichiau ariannol ar ffermwyr sydd eisoes dan bwysau ar adeg pan geir argyfwng dwfn a mwyfwy difrifol yng nghefn gwlad Cymru, na all Llafur ymdrin ag ef i bob golwg. Defnyddiwn bob dull cyfreithlon i ymladd yn erbyn gweithredu'r ddeddfwriaeth hon yng Nghymru. Mae'n ddiangen, yn ddrud, yn fiwrocataidd a bydd yn bygwth yr ardaloedd gwledig y mae'n ceisio eu hagog i bobl.

Yr ydym yn dal i ystyried y ddeddfwriaeth ar lywodraeth leol. Archwiliwn y ddeddfwriaeth ac os nad yw'n rhagnodi ffurfiau penodol o lywodraeth leol rhoddwn ystyriaeth deg iddi. Os ydyw'n rhagnodol, fe'i gwrthwynebwn oherwydd ni ddylid cael ond un patrwm ar gyfer Cymru gyfan. Yr ydym yn bryderus ynghylch darpariaethau moduro a thrafnidiaeth. Nid moethusbeth yw car yng nghefn gwlad Cymru nac yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol Cymru. Mae'n anghenraid. Bydd y cynigion i godi tâl am barcio yn y gweithle a thagfeydd yn ergyd i bobl sydd eisoes wedi eu bwrw'n galed ac sydd yn dibynnu ar gludiant mewn cerbydau modur.

Nid oes dim yma ar gyfer pobl yng nghefn gwlad Cymru. Ychydig sydd yma ar gyfer pobl yng Nghymru'n gyffredinol ond mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn sicr yn taro cefn gwlad Cymru'n galed. Bydd David Melding yn siarad yn fanwl yn ddiweddarach am y darpariaethau iechyd ond yr ydym yn siomedig, ar adeg pan fo rhestrau aros ar

going to England for treatment, there is no provision for tackling that crisis.

On privatisation, Dafydd was kind enough not only to set out his own policy but to try to set out ours as well. I recall all too well that, when it was suggested that air traffic control might be privatised by a Conservative Government, a certain Andrew Smith, now a member of the Labour Cabinet, worked himself up into a frenzy of righteous indignation, signalling that this would be the end of civilisation as we knew it. The Conservative Party never made such a proposal. It seems that things have now changed; indeed they have, as Andrew Smith is now in the Cabinet. We regard safety as being the prime consideration if such a policy is being proposed. That should be true for all transport policies, and certainly for air transport.

We welcome this debate and hope that Assembly Members' views, as they are set out in this debate, will be carried back to Westminster by the Secretary of State for Wales. We consider it important to look at legislative proposals before they are made. The Secretary of State for Wales was open and honest about that and said that would be possible in future. We regret that that has not been the case this time and that we are looking at a Queen's Speech that has already been delivered and trying to reformulate it in a way that is appropriate to the needs and wishes of people in Wales.

The First Secretary's comments about European funding were disparaging and dismissive. This is a serious issue and it is understandable that Assembly Members want to take this opportunity to impress upon the Secretary of State for Wales the great need for full match funding from Westminster. The fact that that has not been done with sufficient clarity and firmness by the Assembly Cabinet makes it all the more important that we do so. We are concerned that money is being hived off from different budgets, such as Pathway to Prosperity. Added to that is £35 million from the

gynnydd a phobl o Gymru'n mynd i Loegr am driniaeth, nad oes darpariaeth i ymdrin â'r argyfwng hwnnw.

Ynglŷn â phreifateiddio, yr oedd Dafydd nid yn unig yn ddigon caredig i nodi ei bolisi ei hun ond hefyd i geisio nodi ein polisi ninnau. Cofiaf yn dda, pan awgrymwyd y gallai rheolaeth ar draffig yr awyr gael ei phreifateiddio gan Lywodraeth Geidwadol, yr ymgollodd rhyw Andrew Smith, sydd bellach yn aelod o'r Cabinet Llafur, mewn dicter cyfiawn, gan nodi mai hynny fyddai diwedd gwareiddiad fel y'i hadnabyddem. Ni wnaeth y Blaid Geidwadol y fath gynnig erioed. Ymddengys fod pethau wedi newid bellach; ydynt, yn wir, gan fod Andrew Smith yn y Cabinet erbyn hyn. Credwn mai diogelwch yw'r brif ystyriaeth os cynigir polisi o'r fath. Dylai hynny fod yn wir am bob polisi trafndiaeth, ac yn sicr am drafnidiaeth awyr.

Croesawn y ddadl hon a gobeithiwn y bydd sylwadau Aelodau'r Cynulliad, fel y'u mynegir yn y ddadl hon, yn cael eu dwyn yn ôl i San Steffan gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Credwn ei bod yn bwysig edrych ar gynigion deddfwriaethol cyn eu gweithredu. Yr oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n agored ac yn onest ynghylch hynny a dywedodd y byddai hynny'n bosibl yn y dyfodol. Mae'n ofid inni nad hynny a ddigwyddodd y tro hwn a'n bod yn edrych ar Araith gan y Frenhines sydd wedi ei thraddodi eisoes ac yn ceisio ei hailffurfio mewn modd sydd yn briodol i anghenion a dymuniadau pobl Cymru.

Yr oedd sylwadau'r Prif Ysgrifennydd am arian Ewropeaidd yn ddilornus ac yn ddiystyriol. Mae hwn yn fater difrifol a gellir deall bod Aelodau'r Cynulliad am fanteisio ar y cyfle hwn i siarsio Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr angen mawr am gyllid cyfatebol llawn o San Steffan. Mae'r ffaith na wnaethpwyd hynny'n ddigon cadarn a phendant gan Gabinet y Cynulliad yn golygu ei bod yn bwysicach fyth i ni wneud hynny. Yr ydym yn bryderus bod arian yn cael ei ddosrannu o wahanol gyllidebau, fel y Ffordd i Ffyniant. Yn ogystal â hynny mae £35 miliwn o gyllideb y

Assembly budget. This is an important issue and we are not dismissive of it. We have been told too often that we do not need to worry about match funding but time marches on and there is still no announcement of full match funds. Secretary of State, I hope you will take a message back to Westminster from this Assembly that this is regarded as an issue of the utmost seriousness. The Welsh Conservative Party regard this as an issue of confidence, which we will push forward in the new year regardless of the attitude of other opposition or quasi-opposition parties.

Alun Cairns: Do you accept that the lack of match funding so far and the delay in any announcement of match funding jeopardises the success of the Objective 1 programme as the private sector is not prepared to come forward with projects? The Cabinet, and the Secretary of State for Wales and the Government are confusing the issue and expecting the private sector to make commitments on unsigned cheques.

Nick Bourne: My response is like Alun Michael's to most of Lynne Neagle's questions. I agree with that comment. Let me finish the point, Alun, then you can come in, as can Lynne if she wishes.

I agree with Alun's comment. It can scarcely help the process because if project leaders do not know that there is full match funding, they cannot be encouraged to put projects forward. People with whom I speak throughout west Wales are concerned about the issue. I am concerned that Rhodri and the Cabinet will say at some juncture, 'we have not had many demands for match funds, we have sufficient money to meet the requirements of these projects'. It is a question of what is driving the process. The money should be there first, generating the projects, rather than the projects generating the money. That concerns me greatly.

The First Secretary: I am grateful to Nick for giving way. There is a great difference because Lynne's contributions are always succinct, to the point and accurate. A series of propositions and wild generalisations have

Cynulliad. Mae hyn yn fater pwysig ac nid ydym yn ddiystyriol ohono. Dywedwyd wrthym yn rhy aml nad oes angen inni boeni am gyllid cyfatebol ond â amser yn ei flaen ac nid oes byth gyhoeddiad am gyllid cyfatebol llawn. Ysgrifennydd Gwladol, gobeithiaf yr ewch â neges yn ôl i San Steffan o'r Cynulliad hwn sef bod hwn yn fater o'r difrifoldeb mwyaf. Mae Plaid Geidwadol Cymru yn ei ystyried yn fater o hyder, y bwriwn ymlaen ag ef yn y flwyddyn newydd beth bynnag fo agwedd y gwrthbleidiau neu'r lled-wrthbleidiau eraill.

Alun Cairns: A dderbyniwch fod y diffyg cyllid cyfatebol hyd yn hyn a'r oedi wrth gyhoeddi cyllid cyfatebol yn peryglu llwyddiant y rhaglen Amcan 1 gan nad yw'r sector preifat yn barod i gyflwyno prosiectau? Mae'r Cabinet, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Llywodraeth yn drysu'r mater ac yn disgwyl i'r sector preifat wneud ymrwymadau ar sail sieciau sydd heb eu llofnodi.

Nick Bourne: Mae'r ymateb sydd gennyf yn debyg i un Alun Michael i'r rhan fwyaf o gwestiynau Lynne Neagle. Cytunaf â'r sylw. Gadewch imi orffen y pwynt, Alun, a chewch chi siarad wedyn, a Lynne hefyd os yw'n dymuno.

Cytunaf â sylw Alun. Prin y gall fod o gymorth i'r broses oherwydd os nad yw arweinyddion prosiectau'n gwybod bod cyllid cyfatebol llawn, ni ellir eu hannog i gyflwyno prosiectau. Mae'r bobl y byddaf yn siarad â hwy drwy orllewin Cymru yn bryderus ynghylch y mater hwn. Pryderaf y bydd Rhodri a'r Cabinet yn dweud ar ryw bwynt, 'ni chawsom lawer o alwadau am gyllid cyfatebol, mae gennym ddigon o arian i ateb gofynion y prosiectau hyn'. Cwestiwn ydyw o beth sydd yn gyrru'r broses. Dylai'r arian fod yno gyntaf, yn creu'r prosiectau, yn hytrach na'r prosiectau'n creu'r arian. Mae hynny'n ofid mawr i mi.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn ddiolchgar i Nick am ildio. Mae gwahaniaeth mawr oherwydd mae cyfraniadau Lynne bob amser yn gryno, yn bwrpasol ac yn gywir. Gwnaethpwyd cyfres o osodiadau a

been made in this contribution. It would take far too long and be an abuse of the Assembly's process to pick up every one. However, you say that you go around west Wales talking to people; it might be useful if you also listened. You discourage those people from having confidence in the fact that we intend to do everything to ensure that the Objective 1 period is effective, and that we will not only draw down the money but use it in every instance to improve the economy, working with partners in business, local government and the voluntary sector. Nick, this does not help. You should encourage confidence in the process, not undermine it.

Nick Bourne: I agree that Lynne Neagle is more succinct and to the point than her leader. I listen when I visit west Wales and I do not talk down the process. I reserve every right to attack the Government of Wales, but I will not attack the process. We have had no commitment to full match funding despite your often repeated formula that Tony Blair will not let Wales down. If that is not a broad generalisation I do not know what is. When you come back with definite cash, let me know and then I will listen to some of your comments. Until then, I will not.

We welcome this opportunity to discuss the Government's legislative programme. It is an important debate and one of our more important ones. I trust that the guillotine will not be applied to these 28 Bills more than is necessary. The guillotine was applied to 18 Measures during the last parliamentary session, so I would have thought that given such a massive programme, some of these will have to be guillotined severely. We are concerned about the countryside measure, road charging measures and the Education and Training Action Group. It was notable that the First Secretary spoke a lot about training but did not speak much about education. There is an academic aspect to education. He did not mention the training and enterprise councils either, and we are concerned about their future. Above all, we are concerned about European funding and

chyffredinoliadau di-sail yn y cyfraniad hwn. Cymerai ormod o amser o lawer i ateb pob un a byddai hynny'n gamarfer ar broses y Cynulliad. Fodd bynnag, dywedwch eich bod yn mynd o amgylch gorllewin Cymru yn siarad â phobl; gallai fod o gymorth hefyd pe baech yn gwrando. Yr ydych yn perswadio'r bobl hynny i beidio ag ymddiried yn y ffaith ein bod yn bwriadu gwneud popeth i sicrhau y bydd cyfnod Amcan 1 yn effeithiol, ac y byddwn nid yn unig yn ymestyn am yr arian ond yn ei ddefnyddio hefyd ym mhob achos i wella'r economi, gan weithio gyda phartneriaid mewn busnes, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Nick, nid yw hyn o gymorth. Dylech annog ymddiriedaeth yn y broses, nid ei thanseilio.

Nick Bourne: Cytunaf fod Lynne Neagle yn fwy cryno a phwrpasol na'i harweinydd. Byddaf yn gwrando pan ymwelaf â gorllewin Cymru ac ni fyddaf yn bychanu'r broses. Cadwaf bob hawl i ymosod ar Lywodraeth Cymru, ond nid ymosodaf ar y broses. Ni chawsom unrhyw ymrwymiad i ddarparu arian cyfatebol llawn er gwaethaf y fformwla a ailadroddwch yn aml sef na fydd Tony Blair yn siomi Cymru. Beth yw hynny ond cyffredinoliad bras? Pan ddeuwch yn ôl ag arian pendant, gadewch imi wybod ac wedyn fe wrandawaf ar rai o'ch sylwadau. Ni wnaf tan hynny.

Croesawn y cyfle hwn i drafod rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Mae'n ddadl bwysig ac yn un o'r rhai pwysicaf a gawsom. Hyderaf na osodir cyfyngiad amser ar y 28 Mesur hyn yn fwy nag sydd raid. Gosodwyd cyfyngiad amser ar 18 mesur yn ystod y sesiwn seneddol diwethaf, felly yng ngolwg rhaglen mor anferth, gallwn gredu y bydd yn rhaid gosod cyfyngiad amser llym ar rai ohonynt. Yr ydym yn bryderus ynghylch y mesur cefn gwlad, mesurau codi tâl ar ffyrdd a'r Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant. Yr oedd yn drawiadol bod y Prif Ysgrifennydd yn siarad yn faith am hyfforddiant ond na ddywedodd lawer am addysg. Mae agwedd academiaidd ar addysg. Ni soniodd am y cynghorau hyfforddi a menter ychwaith, ac yr ydym yn bryderus ynghylch eu dyfodol. Uwchlaw popeth, yr ydym yn bryderus ynghylch arian

we hope that that message is carried back to Westminster as one of fundamental importance.

Michael German: I propose amendment 4. Add after the fourth clause

calls on the Assembly and the UK Parliament to establish a mechanism for continuing dialogue to enable the Assembly as a whole to have input into the drafting of new legislation at each stage of its evolution.

I also propose amendment 5. Add at the end

In noting the UK Government's proposed legislative programme, this Assembly regrets

1. *The lack of new legislation to tackle the problem of increasing waiting times for NHS treatment*
2. *The proposed serious erosion of civil liberties*
3. *That proposals on freedom of information err on the side of caution and secrecy*
4. *The failure to set national road traffic reduction targets*
5. *The failure to make provision for an office of the proposed Strategic Rail Authority in Wales*
6. *That the Child Support Agency is to be reformed rather than scrapped altogether*
7. *That the proposed Pensions Bill will not solve the problem of pensioner poverty*
8. *That the proposed reforms of the Post Office amount to a first step towards privatisation*
9. *That the proposed new systems for local government provide potential for establishing local authorities that are more secretive and less accountable.*

I also propose amendment 6. Add at the end

In order that the Assembly has the flexibility to develop Welsh solutions for Welsh problems, this Assembly calls on the UK

Ewropeaidd a gobeithiwn yr eir â'r neges honno'n ôl i San Steffan fel un sydd o bwys sylfaenol.

Michael German: Cynigiau welliant 4. Ychwanegu ar ôl y pedwerydd cymal

yn galw ar y Cynulliad a Senedd y DU i bennu dull o barhau i drafod fel y gall y Cynulliad cyfan gyfrannu at ddrafftio deddfwriaeth newydd wrth iddi ddatblygu.

Yr wyf hefyd yn cynnig gwelliant 5. Ychwanegu ar y diwedd

Wrth nodi rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU, mae'r Cynulliad hwn yn gresynu

1. *Bod diffyg deddfwriaeth newydd i fynd i'r afael â phroblem amserau aros hwy ar gyfer triniaeth yr NHS*
2. *Y bwriedir lleihau rhyddid sifil yn sylweddol*
3. *Bod y cynigion ynghylch rhyddid gwybodaeth yn tueddu at bwyll a chyfrinachedd*
4. *Na phennwyd targedau lleihau traffig ffordd cenedlaethol*
5. *Na sicrhawyd darpariaeth ar gyfer swyddfa i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol arfaethedig yng Nghymru*
6. *Y bwriedir ad-drefnu'r Asiantaeth Cynnal Plant yn hytrach na chael gwared yn llwyr â hi*
7. *Na fydd y Mesur Pensiynau arfaethedig yn datrys problem tlodi ymhlith pensiynwyr*
8. *Bod yr ad-drefnu arfaethedig ar Swyddfa'r Post yn gam cyntaf i bob pwrpas tuag at ei phreifateiddio*
9. *Y gallai'r systemau newydd arfaethedig ar gyfer llywodraeth leol olygu y bydd awdurdodau lleol yn fwy cyfrinachgar ac yn llai atebol.*

Yr wyf hefyd yn cynnig gwelliant 6. Ychwanegu ar y diwedd

Er mwyn i'r Cynulliad fod yn ddigon hyblyg i ddatblygu atebion Cymreig i broblemau Cymreig, mae'r Cynulliad hwn yn galw ar

Parliament to incorporate as much of the detail of new legislation as is practically possible as subordinate rather than primary legislation.

I thank the Secretary of State for Wales for speaking in today's debate, and I am grateful that he has not appeared dressed in a white suit and hat complete with ostrich feathers. Come to think of it, given that you have delivered the Queen's Speech to us in Wales, we should be grateful that you have come dressed as yourself, and did not arrive in a carriage with an escort of horse guards. Paul Murphy is not the governor general of Wales, he is our Secretary of State, and has an important role to play in setting Wales free of the Government's potential legislative stranglehold.

There is no doubt that we have a complex system for our new legislation, how we handle it and how it is transferred to us. The Secretary of State's relationship with the Assembly is rather like that of a walker out with his dog. We are now in the park and we no longer need to be kept on the lead. The Queen's Speech could let us off that lead. However, there is no need to worry Mr Murphy, we are not rottweilers—at least 59 of us are not. We will not run off and attack the defenceless. However, we are not poodles either, no matter what Paul Flynn thinks of one of our Members. Unfortunately, the Queen's Speech does not let us off the lead; it just barely lengthens the lead, because despite the talk about continuing the process of decentralisation, there is little evidence of action. For example, many Acts and powers still have not been transferred to the Assembly, and the Queen's Speech is silent on when those transfers will be made. We, as Liberal Democrats, believe that the legislation that is brought forward—

The Presiding Officer: Order. I ask that personal attacks, even by insinuation, should not be made on Assembly Members, and that you might reconsider your earlier remarks in the light of the Protocol on Conduct in the

Senedd y DU i ymgorffori cymaint o fanylion y ddeddfwriaeth newydd ag y bo'n ymarferol bosibl fel is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol.

Diolchaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am siarad yn y ddadl heddiw, ac yr wyf yn ddiolchgar na ddaeth yma mewn siwt wen a het â phlu estrys. Ac o feddwl eich bod wedi traddodi Araith y Frenhines i ni yng Nghymru, dylem fod yn ddiolchgar ichi ddod yn eich dillad eich hun, ac na chyraeddaso ch mewn coets gyda gosgordd o farchluroedd. Nid llywodraethwr cyffredinol Cymru mo Paul Murphy, ein Hysgrifennydd Gwladol ni ydyw, ac mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae wrth ryddhau Cymru oddi wrth afael ddeddfwriaethol haearnaidd bosibl y Llywodraeth.

Nid oes dwywaith bod gennym system gymhleth ar gyfer ein deddfwriaeth newydd, sut y'i trafodwn a sut y'i trosglwyddir i ni. Mae perthynas yr Ysgrifennydd Gwladol â'r Cynulliad braidd fel honno rhwng cerddwr â'i gi wrth fynd am dro. Yr ydym yn y parc bellach ac nid oes angen ein cadw ar dennyn mwyach. Gallai Araith y Frenhines ein gollwng o'r tennyn hwnnw. Fodd bynnag, nid oes angen poeni, Mr Murphy, nid cwn Rottweiler mohonom—mae o leiaf 59 ohonom heb fod felly. Ni redwn i ffwrdd ac ymosod ar y diamddiffyn. Fodd bynnag, nid pwds mohonom ychwaith, ni waeth beth a feddylia Paul Flynn am un o'n Haelodau. Gwaetha'r modd, nid yw Araith y Frenhines yn ein gollwng oddi ar y tennyn; nid yw ond yn ymestyn y tennyn fymryn bach, oherwydd er gwaethaf y sôn am barhau â'r broses ddatganoli, prin yw'r dystiolaeth o weithredu. Er enghraifft, mae llawer o Ddeddfau a phwerau heb eu trosglwyddo i'r Cynulliad o hyd, ac nid oes sôn yn Araith y Frenhines ynghylch pa bryd y'u trosglwyddir. Yr ydym ni, fel Democratiaid Rhyddfrydol, yn credu bod y ddeddfwriaeth a roddwyd gerbron—

Y Llywydd: Trefn. Gofynnaf na ddylid gwneud ymosodiadau personol ar Aelodau o'r Cynulliad, hyd yn oed drwy ensyniad, ac y gallech ailystyried eich sylwadau blaenorol yng ngoleuni'r Protocol ar Ymddygiad yn y

Chamber.

Siambr.

4:29 p.m.

Michael German: If I have caused offence to anybody, I regret that. I said it in a spirit of amusement about the role of the Secretary of State for Wales.

Michael German: Os bu imi beri tramgwydd i neb, mae'n ddrwg gennyf am hynny. Dywedais hynny o ran difyrrwch ynghylch rôl Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

The legislation being brought forward must be framed in a way that offers the Assembly the flexibility to develop its own solutions to the problems of Wales. That is the purpose of my amendment 6 and it is also the subject of the Plaid Cymru amendment 3, which we support.

Rhaid i'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gael ei llunio mewn modd sydd yn cynnig hyblygrwydd i'r Cynulliad ddatblygu ei atebion ei hun i broblemau Cymru. Dyna bwrpas gwelliant 6 a gyflwynwyd gennyf fi a thestun gwelliant 3 Plaid Cymru, a gefnogwn.

The Local Government Bill is a useful example. It offers new structures for local authorities but we have strong fears that these could be used to implement structures which are more secretive, which offer more central control, a diminished role for opposition and backbench councillors and less democratic accountability.

Mae'r Mesur Llywodraeth Leol yn enghraifft hwylus. Cynigia strwythurau newydd i awdurdodau lleol ond ofnwn yn gryf y gellid defnyddio'r rhain i weithredu strwythurau sydd yn fwy cyfrinachgar, sydd yn cynnig mwy o reolaeth ganolog, a llai o rôl i gynghorwyr yr wrthblaid a'r meinciau cefn a llai o atebolrwydd democrataidd.

Wales has a history of one-party state councils and these Measures could exacerbate this tendency. We need much more flexibility in the structures that can be adopted, because we do not want a Welsh Jeffrey Archer or a Welsh Red Ken. We want a new form of politics, with consensus, based on policy not personality. Even if Assembly politicians from the other parties do not agree, we should demand our right to debate and decide these matters. I do not think the Assembly would want compulsory mayors thrust upon us by the UK Government.

Mae gan Gymru hanes o gynghorau un-blaid a gallai'r Mesurau hyn waethygu'r duedd honno. Mae arnom angen llawer mwy o hyblygrwydd yn y strwythurau y gellir eu mabwysiadu, oherwydd nid ydym am gael Jeffrey Archer Cymreig neu Red Ken Cymreig. Yr ydym am gael ffurf newydd ar wleidyddiaeth, gyda chonsensws, yn seiliedig ar bolisi ac nid ar bersonoliaeth. Hyd yn oed os na chytuna gwleidyddion y Cynulliad o bleidiau eraill, dylem fynnu ein hawl i drafod a phenderfynu ar y materion hyn. Ni chredaf fod y Cynulliad am weld meiri'n cael eu gorfodi arnom gan Lywodraeth y DU.

As the proposals stand, the structures employed by the Assembly itself would not be acceptable. There is some flexibility in the current Bill before Parliament, which makes it possible for the Assembly to introduce other forms and structures. However, clause 15 (2) of the Local Government Bill insists that there will be a strict distinction between scrutiny and policy formation roles and executive roles and does not allow a cross-fertilisation between the two. In other words, the model which this Assembly is trying to create, with Committees which have a

Yn ôl y cynigion ar eu ffurf bresennol, ni fyddai'r strwythurau a ddefnyddir gan y Cynulliad ei hun yn dderbyniol. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y Mesur sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, sydd yn galluogi'r Cynulliad i gyflwyno ffurfiau a strwythurau eraill. Fodd bynnag, mae cymal 15 (2) y Mesur Llywodraeth Leol yn mynnu y bydd rhaniad pendant rhwng rolau archwilio a rolau ffurfio polisi a'r rolau gweithredol ac nid yw'n caniatáu croesffrwythloni rhwng y ddwy. Mewn geiriau eraill, ni fyddai'r model y mae'r

policy-formation role and an executive working together, would not be permitted as the Bill is currently framed, in particular section 15 (2). However, if the legislation is drafted to give maximum flexibility to the Assembly, we could establish and devise Welsh options or structures that suit Welsh local councils. A local councillor not far from the Secretary of State's constituency has told me that the council would like to consider the option of having a model based upon the Assembly, but that option at the moment is closed.

The Transport Bill is another example and I commend Dafydd's earlier comments. As it stands, the Transport Bill offers us a strategic rail authority without an office in Wales. There is also no opportunity for the Assembly to have an input to the authority. The Assembly should have the right to decide who will represent Wales on this authority. As the Bill stands, John Prescott will make the appointments, so some cheeky Members might say that we are more likely to have a representative for Jaguar working for Wales than someone who experiences the daily chaos of the Valley lines.

Railways in Wales only provide patchy cover at present. We therefore need to go further and promote other forms of public transport as well.

Janet Ryder: On the subject of the strategic rail authority for Wales, would you agree that as this legislation passes through Westminster, it would be much better to give Wales parity with Scotland? I understand that Scotland can instruct and guide the strategic rail authority while Wales will only be consulted. Perhaps the legislation could be amended as it moves through Westminster to give the Assembly the right to be involved, as will happen with the new Foods Standards Agency, along with Scotland and Westminster in the workings and dealings of the strategic rail authority.

Cynulliad hwn yn ceisio'i greu, gyda Phwyllgorau sydd â rôl ffurfio polisi a gweithrediaeth yn gweithio gyda'i gilydd, yn cael ei ganiatáu fel y saif y mesur ar hyn o bryd, yn enwedig adran 15 (2). Fodd bynnag, os caiff y ddeddfwriaeth ei llunio er mwyn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i'r Cynulliad, gallem sefydlu a dyfeisio dewisiadau neu strwythurau yng Nghymru sydd yn addas i gynghorau lleol Cymru. Dywedwyd wrthyf gan gynghorydd lleol nad yw'n bell o etholaeth yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai'r cyngor yn hoffi ystyried y dewis o gael model sydd yn seiliedig ar y Cynulliad, ond nid yw'r dewis hwnnw ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r Mesur Trafnidiaeth yn enghraifft arall a chymeradwyaf sylwadau Dafydd yn gynharach. Fel y mae, mae'r Mesur Trafnidiaeth yn cynnig awdurdod rheilffyrdd strategol heb swyddfa yng Nghymru. Nid oes cyfle i'r Cynulliad gael mewnbwn i'r awdurdod ychwaith. Dylai'r Cynulliad gael yr hawl i benderfynu pwy fydd yn cynrychioli Cymru ar yr awdurdod hwn. Fel y mae'r Mesur yn awr, John Prescott fydd yn penodi, felly gallai rhai Aelodau hy ddweud ein bod yn fwy tebygol o gael cynrychiolydd dros Jaguar yn gweithio dros Gymru na rhywun sydd yn profi anhrefn feunyddiol rheilffyrdd y Cymoedd.

Rhwydwaith rheilffyrdd bylchog a geir yng Nghymru ar hyn o bryd. Felly rhaid inni fynd ymhellach a hybu ffurfiau eraill ar gludiant cyhoeddus hefyd.

Janet Ryder: Ar fater yr awdurdod rheilffyrdd strategol i Gymru, a gytunwch mai gwell, wrth i'r ddeddfwriaeth hon fynd drwy San Steffan, fyddai rhoi cydraddoldeb â'r Alban i Gymru? Deallaf fod yr Alban yn gallu cyfarwyddo ac arwain yr awdurdod rheilffyrdd strategol tra na wneir dim ond ymgynghori â Chymru. Efallai y gellid newid y ddeddfwriaeth wrth iddi fynd drwy San Steffan er mwyn rhoi hawl i'r Cynulliad gymryd rhan, fel y bydd yn achos yr Asiantaeth Safonau Bwydydd, ochr yn ochr â'r Alban a San Steffan yng ngwaith a thrafodion yr awdurdod rheilffyrdd strategol.

Michael German: You have anticipated what I was about to say. The Liberal Democrats would like to see a passenger transport executive for Wales, which has the powers, as Scotland does, to take a strategic view so that buses, trains, planes, motorbikes and cars complement each other and work together. We have a car-dominated régime in Wales and public transport that is uncoordinated, dirty, usually late and either empty or overcrowded. I think a majority within this Chamber would support a passenger transport executive for Wales. It is one way that the legislation can be shaped to give us the powers to take action in a way that commends itself to an Assembly majority.

Some parts of the Queen's Speech are not strong enough. The speech fails to be radical in many ways. It lacks ambition and does nothing to address some of our most pressing problems. For instance, it does nothing to solve the growing problem of NHS waiting times. Since the Labour Government in London came to power in 1997, the number of people in Wales waiting more than six months—

Owen John Thomas: Could Mike German confirm that all his Group members support a strategic rail authority for Wales, or parity with Scotland on that matter? My readings of the press suggests otherwise.

Michael German: I think I stated that clearly. However, I will repeat. In one of the 239 proposals in our manifesto, which I am sure you have all read, the passenger transport executive featured strongly and was a party commitment. It went through the entire democratic process.

Peter Black: I would like to assist my leader. There is a distinction between a passenger transport authority and a strategic rail authority. Scotland has power to direct, but that applies only to railways that start and finish in Scotland. A similar power in Wales would only apply to the Valleys lines. That

Michael German: Yr ydych wedi achub y blaen arnaf. Hoffai'r Democratiaid Rhyddfrydol weld gweithrediaeth trafnidiaeth teithwyr i Gymru, sydd â'r pwerau, fel yn yr Alban, i gymryd golwg strategol fel bod bysiau, trenau, awyrennau, beiciau modur a cheir yn cyflenwi ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd. Mae gennym gyfundrefn yng Nghymru lle y mae ceir yn drechaf a chludiant cyhoeddus sydd yn anghydlynol, yn fudr, yn hwyr fel arfer ac un ai'n wag neu'n orlawn. Credaf y byddai mwyafrif yn y Siambr hon yn cefnogi gweithrediaeth trafnidiaeth teithwyr i Gymru. Mae hon yn un ffordd y gellir llunio deddfwriaeth er mwyn rhoi'r pwerau inni weithredu mewn modd sydd yn dderbyniol i fwyafrif yn y Cynulliad.

Ceir rhai rhannau o Araith y Frenhines nad ydynt yn ddigon cryf. Mae'r araith yn methu â bod yn radical mewn llawer ffordd. Mae'n ddiuchelgais ac ni wna ddim i ymdrin â rhai o'n problemau mwyaf enbyd. Er enghraifft, ni wna ddim i ddatrys problem gynyddol amseroedd aros y GIG. Ers i'r Llywodraeth Lafur ddod i rym yn Llundain yn 1997, mae'r nifer yng Nghymru sydd yn aros mwy na chwe mis—

Owen John Thomas: A oes modd i Mike German gadarnhau bod holl aelodau ei Grŵp yn cefnogi awdurdod rheilffyrdd strategol i Gymru, yn gydradd â'r Alban ar y mater hwnnw? Mae'r hyn a ddarllenais yn y wasg yn awgrymu fel arall.

Michael German: Credaf fy mod wedi datgan hynny'n eglur. Fodd bynnag, fe'i hailadroddaf. Yn un o'r 239 cynnig yn ein maniffesto, yr wyf yn sicr bod pob un ohonoch wedi ei ddarllen, mae lle amlwg i'r weithrediaeth trafnidiaeth teithwyr ac yr oedd yn ymrwymiad gan y blaid. Aeth drwy'r broses ddemocrataidd gyfan.

Peter Black: Hoffwn gynorthwyo fy arweinydd. Mae gwahaniaeth rhwng awdurdod trafnidiaeth teithwyr ac awdurdod rheilffyrdd strategol. Mae gan yr Alban hawl i gyfarwyddo, ond nid yw hynny ond yn ymwneud â rheilffyrdd sydd yn dechrau ac yn gorffen yn yr Alban. Ni fyddai pŵer tebyg

would be a minuscule power and one not worth having. It is far more important that we can use the passenger transport authority to influence the integration of transport in Wales, and that we influence the strategic rail authority through our representatives and through the authority having an office in Wales.

Michael German: That is precisely what I said earlier in my speech.

Owen John Thomas: How do you intend to bring about an integrated transport structure in Wales without having any power over railways?

Michael German: You must recognise that the majority of railways go through England, including all north-south links. We do not have the links that we would like in Wales. Therefore, we suggest that we should have control over what is in Wales. Unless Owen John Thomas is preparing to annex Herefordshire and Shropshire—in which case, I would be pleased to see that in the next Plaid Cymru manifesto—his proposal would be difficult.

I return to NHS waiting times. Since the Labour Government came to power in 1997, the number of people in Wales waiting more than six months for a first outpatient visit has increased fivefold. That is not even the waiting time to receive treatment. It is the waiting time to get onto the waiting list for treatment.

The Queen's Speech does not address the problem of poverty. Gordon Brown's recent pre-budget report takes up to £3,000 a year from the poor and disabled while giving new tax breaks to the already well off. There is nothing in the Queen's Speech to address that. A war chest is being squirreled away in order to bribe the electors with their own money in 18 months' time.

I have concerns about rural communities in Wales. In those communities, the village post

yng Nghymru ond yn berthnasol i reilffyrdd y Cymoedd. Byddai hynny'n bŵer bychan iawn ac ni fyddai'n werth ei gael. Mae'n bwysicach o lawer inni allu defnyddio'r awdurdod trafniadaeth teithwyr i ddylanwadu ar integreiddio trafniadaeth yng Nghymru, a dylanwadu ar yr awdurdod rheilffyrdd strategol drwy ein cynrychiolwyr a drwy gael swyddfa i'r awdurdod yng Nghymru.

Michael German: Dyna'n union a ddywedais yn gynharach yn fy araith.

Owen John Thomas: Sut yr ydych yn bwriadu creu strwythur trafniadaeth integredig yng Nghymru heb gael pŵer dros reilffyrdd?

Michael German: Rhaid ichi gydnabod bod y rhan fwyaf o'r rheilffyrdd yn mynd drwy Loegr, gan gynnwys yr holl gysylltiadau rhwng y de a'r gogledd. Nid oes gennym y cysylltiadau yr hoffem eu gweld yng Nghymru. Felly, awgrymw'n y dylem gael rheolaeth dros yr hyn sydd yng Nghymru. Oni bai fod Owen John Thomas yn paratoi i gyfediannu Swydd Henffordd a Swydd Amwythig—os felly, byddaf yn falch o weld hynny ym maniffesto nesaf Plaid Cymru—byddai ei gynnig yn un anodd.

Dychwelaf at amseroedd aros y GIG. Ers i'r Llywodraeth Lafur ddod i rym yn 1997, mae nifer y bobl yng Nghymru sydd yn aros dros chwe mis am ymweliad cyntaf fel claf allanol wedi cynyddu bum gwaith. Nid yr amser aros i dderbyn triniaeth yw hynny hyd yn oed. Dyna'r amser aros i gael lle ar y rhestr aros i dderbyn triniaeth.

Nid yw Araith y Frenhines yn ymdrin â phroblem tlodi. Mae adroddiad cyn-gyllidebol diweddar Gordon Brown yn cymryd hyd at £3,000 y flwyddyn oddi ar y tlawd a'r anabl gan roi manteision treth newydd ar yr un pryd i rai sydd eisoes yn gefnog. Nid oes dim yn Araith y Frenhines i ymdrin â hynny. Mae celc yn cael ei gasglu mewn cist ryfel er mwyn llwgrwobrwyo'r etholwyr â'u harian eu hunain ymhen 18 mis.

Mae gennyf bryderon ynghylch cymunedau gwledig yng Nghymru. Yn y cymunedau

office is a linchpin, often the only remaining linchpin in places where village schools and pubs and public transport have all been closed down, leaving rural communities with only an ailing farming industry to keep them together. The Government's Postal Services Bill signals an attack on the sub-post office network. Creating a public limited company in which the Government holds the majority of shares is the first step towards privatisation. The Post Office needs commercial freedom, not plc status.

There are no measures in the Queen's Speech to reform the Barnett formula to guarantee the European match funding for Wales, over and above the money given by the Barnett block, to enable us to draw down our full allocation of European funding. That discussion is important to us. It is essential that we have that money if we are to revitalise the most disadvantaged parts of Wales and to tackle the serious problem of a gross domestic product per capita well below the UK average.

The Queen's Speech also fails to set people free from the interfering nanny state. Instead, in an unedifying macho contest with the Tories, Jack Straw proposes a series of Bills that will restrict people's liberties and infringe on their rights. There are several Bills in which the people of Wales will have no impact but which will have a great impact on the people of Wales.

In the Crime and Probation Bill, the Government proposes to introduce mandatory drug testing of all suspects. Drug tests should take place only where drugs are relevant to the offence or where a breathalyser test is carried out on a driver.

4.39 p.m.

The Criminal Justice (Mode of Trial) Bill abolishes the right to trial by jury, which is a dangerous weakening of civil rights, putting economic savings before the quality of justice. The Prevention of Terrorism Bill should be renewed at least once a Parliament.

hynny, swyddfa bost y pentref yw'r gonglfaen, yr unig gonglfaen sydd ar ôl yn aml mewn mannau lle y caewyd ysgolion pentref a thafarnau a chludiant cyhoeddus, gan adael cymunedau gwledig â dim ond diwydiant amaeth gwael i'w cadw gyda'i gilydd. Mae Mesur Gwasanaethau Post y Llywodraeth yn arwydd o ymosodiad ar y rhwydwaith o is-swyddfeydd post. Creu cwmni cyfyngedig cyhoeddus lle y mae mwyafrif y cyfrannau gan y Llywodraeth yw'r cam cyntaf at breifateiddio. Mae ar y Swyddfa Bost angen rhyddid masnachol nid statws cwmni cyfyngedig cyhoeddus.

Nid oes unrhyw fesurau yn Araith y Frenhines i ddiwygio fformwla Barnett er mwyn sicrhau'r cyllid cyfatebol Ewropeaidd i Gymru, uwchlaw'r arian a roddir yng ngrant bloc Barnett, fel y gallwn ymestyn am yr holl arian Ewropeaidd a ddyrannwyd i ni. Mae'r drafodaeth honno'n bwysig i ni. Mae'n hollbwysig inni gael yr arian hwnnw os ydym i adfywio rhannau mwyaf difreintiedig Cymru ac ymdrin â phroblem ddirifol y cynnyrch mewnwladol crynswth y pen sydd yn is o lawer na chyfartaledd y DU.

Nid yw Araith y Frenhines yn rhyddhau'r bobl oddi wrth wladwriaeth y nani fusneslyd ychwaith. Yn lle hynny, mewn gornest *macho* ddiraddiol â'r Torïaid, mae Jack Straw yn cynnig cyfres o Fesurau fydd yn cyfyngu ar ryddid pobl ac yn tresmasu ar eu hawliau. Mae sawl Mesur na chaiff pobl Cymru effaith arnynt ond a gaiff effaith fawr ar bobl Cymru.

Yn y mesur Trosedd a Phrofiannaeth, mae'r Llywodraeth yn cynnig cyflwyno profion cyffuriau gorfodol ar bawb sydd dan ddrwgdybiaeth. Ni ddylai profion cyffuriau ddigwydd heblaw pan fydd cyffuriau'n berthnasol i'r drosedd neu lle y rhoddir prawf anadl i yrrwr.

Mae'r Mesur Cyfiawnder Troseddol (Dull Prawf) yn dileu'r hawl i brawf gerbron rheithgor, sydd yn gwanhau hawliau sifil mewn modd peryglus, gan roi arbedion economaidd o flaen ansawdd cyfiawnder. Dylid adnewyddu'r Mesur Atal Terfysgaeth

If that is not done it should automatically lapse. However, we welcome the extension of the Race Relations Act 1976 to the public service and particularly to the police service.

The Freedom of Information Bill, which the Secretary of State mentioned, is an important Bill. It is a Bill by which the Labour Government's record on freedom should be judged. It demonstrates however, that Labour's understanding of freedom is the freedom for Labour Ministers—not even MPs or Assembly Members—to decide what we need to know. In London, Jack Straw will decide what we need to know. Here, the First Secretary will decide what we need to know. The Bill is weak on disclosure of information that is in the public interest. There are a large number of exemptions relating, for example, to government policy, the police and accident investigations, which means that information will be withheld even if it is harmless.

It does not have to be like that. In Scotland, there is a more radical and free ranging freedom of information proposal. My colleague, Jim Wallace, has given the Scottish information commissioner the power to order the disclosure of information. He or she will be empowered to adjust charges, resolve disputes by mediation, and have a right of access to documents. In Wales, that power will be given to the First Secretary. That power should be given to an independent Welsh information commissioner, so that the power to determine what should be kept secret is not vested in politicians but is independent. That is what we need in Wales but the Queen's Speech does not deliver that. There are also sins of omission. We suffer greatly from the strength of the pound and there should be a Bill that at least prepares us for the single currency, so that we can ensure that the value of the pound does not prejudice our manufacturing industry.

Therefore, while I commend parts of the

unwaith o leiaf mewn Senedd. Os na wneir hynny dylai fynd yn ddi-rym yn awtomatig. Fodd bynnag, croesawn ymestyn Deddf Cysylltiadau rhwng yr Hiliau 1976 i'r gwasanaeth cyhoeddus ac yn enwedig i'r gwasanaeth heddlu.

Mae'r Mesur Rhyddid Gwybodaeth, a grybwyllwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn fesur pwysig. Dylid mesur record y Llywodraeth Lafur ynghylch rhyddid yn ôl y Mesur hwn. Mae'n dangos, fodd bynnag, mai'r hyn a olyga Llafur wrth ryddid yw rhyddid Gweinidogion Llafur—nid ASau neu Aelodau Cynulliad hyd yn oed—i benderfynu'r hyn y mae arnom angen ei wybod. Yn Llundain, Jack Straw fydd yn penderfynu ar yr hyn y mae arnom angen ei wybod. Yma, y Prif Ysgrifennydd fydd yn penderfynu'r hyn y mae arnom angen ei wybod. Mae'r Mesur yn wan ynghylch datgelu gwybodaeth sydd er budd y cyhoedd. Ceir nifer fawr o ryddhadau sydd yn ymwneud, er enghraifft, â pholisi'r llywodraeth, yr heddlu ac ymchwiliadau i ddamweiniau, sydd yn golygu y cedwir gwybodaeth hyd yn oed os yw'n ddiwied.

Nid oes raid iddi fod felly. Yn yr Alban, ceir cynnig mwy radical ac eang ynghylch rhyddid gwybodaeth. Mae fy nghydweithiwr, Jim Wallace, wedi rhoi pŵer i gomisiynydd gwybodaeth yr Alban orchymyn datgelu gwybodaeth. Bydd awdurdod ganddo ef neu hi i newid cyhuddiadau, datrys anghydfodau drwy gymodi, a chaiff hawl i weld dogfennau. Yng Nghymru, rhoddir y pŵer hwnnw i'r Prif Ysgrifennydd. Dylid rhoi'r pŵer hwnnw i gomisiynydd gwybodaeth annibynnol i Gymru, fel nad ymddiriedir y pŵer i benderfynu beth a gedwir yn gyfrinachol i wleidyddion a'i fod yn annibynnol. Dyna'r hyn y mae arnom ei angen yng Nghymru ond nid yw Araith y Frenhines yn ei roi. Ceir pechodau drwy esgeulustod hefyd. Yr ydym yn dioddef yn fawr oherwydd cryfder y bunt a dylid cael Mesur sydd o leiaf yn paratoi ar gyfer yr arian sengl, fel y gallwn sicrhau na fydd gwerth y bunt yn peryglu ein diwydiant cynhyrchu.

Felly, er fy mod yn cymeradwyo rhannau o

Queen's Speech, there is much that is not bold enough and much that fails to reflect the needs of Wales. However, this is not our only chance to say that. As the legislation proceeds, there must be an ongoing dialogue between the Assembly and Parliament. There are points of view across the Assembly Chamber that should be taken forward. That is why we cannot leave this to depend on the relationship between the First Secretary and the Secretary of State for Wales.

Our relationship must not just be Cabinet to Cabinet. It should also be Parliament to Assembly. I take Alun Michael's point that we need to ensure that we have that broader relationship. We need mechanisms and processes that work for change, so that as the legislation proceeds we take every opportunity to shape it to suit Welsh needs. We need maximum freedom over secondary legislative matters.

Lle mae'r ddeddfwriaeth yn betrus, rhaid i ni fod yn fentrus. Lle mae diffyg uchelgais ynddi, rhaid i ni ei chryfhau. Lle nad yw hi'n gweithio drosom ni, rhaid i ni wneud iddi siarad dros Gymru.

The Government's programme is timid, and it lacks ambition and radicalism. However, at least it is a programme for Government. At least we know what the UK Government is planning to do in the next year. That Government can be judged against this legislative programme. Today and next week's debate may be limited by the time available, but at least we will have that debate. We have had no such programme of government in Wales. We have had no such vision, no matter how close it was to the horizon. We now have a chance to have that debate in the Assembly. This Assembly can and must make a difference. We have the challenge to set out our programme, one that makes a difference in Wales and that makes things happen for the people of Wales.

The Secretary of State for Wales: This has

Araith y Frenhines, ceir llawer ynddi nad yw'n ddigon eofn ac sydd yn methu ag adlewyrchu anghenion Cymru. Fodd bynnag, nid hwn yw'r unig gyfle sydd gennym i ddweud hynny. Wrth i'r ddeddfwriaeth fynd yn ei blaen, bydd yn rhaid cael trafod parhaus rhwng y Cynulliad a'r Senedd. Ceir safbwyntiau ar draws Siambr y Cynulliad y dylid eu datblygu. Dyna pam na allwn adael i hyn ddibynnu ar y berthynas rhwng y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Ni chaiff ein perthynas fod yn un rhwng Cabinet a Chabinet yn unig. Dylai hefyd fod yn un rhwng y Senedd a'r Cynulliad. Derbyniaf bwynt Alun Michael fod rhaid inni sicrhau bod y berthynas ehangach honno gennym. Rhaid inni wrth fecanweithiau a phrosesau sydd yn gweithio dros newid, fel ein bod yn manteisio ar bob cyfle wrth i'r ddeddfwriaeth fynd yn ei blaen i'w haddasu i ateb anghenion Cymru. Mae arnom angen y rhyddid mwyaf posibl ynghylch materion is-ddeddfwriaethol.

Where the legislation is timid, we must be bold. Where it lacks ambition, we must add strength. Where it fails to work for us, we must make it speak for Wales.

Mae rhaglen y Llywodraeth yn betrus, mae ynddi ddiffyg uchelgais a radicaliaeth. Fodd bynnag, mae o leiaf yn rhaglen ar gyfer Llywodraeth. Gwyddom o leiaf beth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei wneud y flwyddyn nesaf. Gellir barnu'r Llywodraeth honno ar sail y rhaglen ddeddfwriaethol honno. Efallai y bydd y ddadl heddiw a'r wythnos nesaf wedi ei chyfyngu oherwydd prinder amser, ond fe gawn y ddadl honno o leiaf. Nid oes gennym raglen lywodraethu o'r fath yng Nghymru. Ni chawsom weledigaeth o'r fath, ni waeth pa mor agos ydoedd i'r gorwel. Mae gennym gyfle yn awr i gael y ddadl honno yn y Cynulliad. Gall y Cynulliad hwn wneud gwahaniaeth a rhaid iddo wneud hynny. Cawsom her i gyflwyno'n rhaglen, un a wna wahaniaeth yng Nghymru ac a bair i bethau ddigwydd er mwyn pobl Cymru.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bu hon yn

been an interesting debate and has raised many subjects and issues. I do not intend to reply to them all. Some of them are general political points, also made by the representatives of the parties during the Queen's Speech debate in the House of Commons. We can return to those again. I will confine my remarks to the way that the Assembly deals with primary legislation, the process and some of the specific matters that affect Wales in the Bills that are before the House of Commons.

Dafydd Wigley touched on several important points as far as process and procedure are concerned. Amendments could be laid down by the Government on behalf of the Assembly during the course of the parliamentary procedure in order to incorporate into the legislation changes suggested by the Assembly. Last week, I indicated that work was still unfinished on several matters of the wellbeing clauses of the Local Government Bill. Discussion was still going on and negotiations were still taking place. It was important, therefore, that we took that into account following the introduction of the Bill, rather than hold up the Bill because of the need to debate this and other matters.

I accept that this is an unusual year, in that only six or seven months have gone by. We must look at things in the context of the full parliamentary and Assembly session of 12 months. We need to consider two issues. First, does the Assembly wish to introduce, by way of primary legislation, major policy changes that it has debated and has agreed upon? If that is the case, there must be a mechanism in place to relay that policy issue to us in Whitehall to ensure that there is adequate preparation for such legislation if—and this is a big if—there is time. As everyone has said, the problem with legislation in Westminster is time. The Assembly will have to compete with other bidders for time in the parliamentary process. There are occasions when we can add Welsh matters that have been debated and decided by the Assembly on to various Bills that go through the House of Commons. Those opportunities must also be sought out.

ddadl ddiddorol a chododd lawer o bynciau a materion. Ni fwriadaf ymateb i bob un. Pwyntiau gwleidyddol cyffredinol yw rhai ohonynt, ac fe'u gwnaethpwyd hefyd gan gynrychiolwyr y pleidiau yn ystod y ddadl ar Araith y Frenhines yn Nhŷ'r Cyffredin. Gallwn ddod yn ôl at y rheini eto. Cyfyngaf fy sylwadau i'r modd y bydd y Cynulliad yn ymdrin â deddfwriaeth sylfaenol, y broses a rhai o'r materion penodol sydd yn effeithio ar Gymru yn y Mesurau sydd gerbron Tŷ'r Cyffredin.

Cyfeiriodd Dafydd Wigley at sawl pwynt pwysig o ran proses a gweithdrefn. Gallai'r Llywodraeth gyflwyno gwelliannau ar ran y Cynulliad yn ystod y weithdrefn seneddol er mwyn cynnwys newidiadau a awgrymwyd gan y Cynulliad yn y ddeddfwriaeth. Yr wythnos diwethaf, nodais fod gwaith eto i'w gyflawni ynghylch sawl mater yn y cymalau lles yn y Mesur Llywodraeth Leol. Yr oedd y ddadl yn parhau ac yr oedd trafodaethau'n digwydd o hyd. Yr oedd yn bwysig, felly, inni gymryd hynny i ystyriaeth ar ôl cyflwyno'r Mesur, yn hytrach na gohirio'r mesur oherwydd yr angen i drafod hyn a materion eraill.

Derbyniaf fod hon yn flwyddyn anarferol, yn yr ystyr mai ond chwech neu saith mis sydd wedi mynd heibio. Rhaid inni edrych ar bethau yng nghyd-destun sesiwn llawn y Senedd a'r Cynulliad o 12 mis. Dylem ystyried dau fater. Yn gyntaf, a yw'r Cynulliad yn dymuno cyflwyno, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, newidiadau polisi mawr sydd wedi eu trafod a'u cytuno? Os felly, rhaid sefydlu mecanwaith i drosglwyddo'r mater polisi hwnnw i ni yn Whitehall er mwyn sicrhau y paratwir yn ddigonol ar gyfer deddfwriaeth o'r fath os—ac mae hwn yn os mawr—oes amser. Fel y dywedodd pawb, y broblem ynglŷn â deddfwriaeth yn San Steffan yw amser. Bydd yn rhaid i'r Cynulliad gystadlu ag eraill sydd yn ceisio amser yn y broses seneddol. Ceir achlysuron pan allwn ychwanegu materion Cymreig a drafodwyd ac a benderfynwyd gan y Cynulliad i wahanol fesurau sydd yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin. Rhaid chwilio am y

cyfleoedd hynny hefyd.

That does not mean that all those amendments will always be laid down. There could be implications for the UK as a whole that will not be agreed by the UK Government. After all, we operate in a party political structure. Any government has, within its parliamentary and legislative process, to take its manifesto commitments into account. That is how governments are elected. That applies also with regard to priorities. However, I accept the point made by both Dafydd and Alun about the need to establish protocol; a mechanism by which we can look at that particular way of operating. Cynog raised an issue about the quick passage of Welsh legislation. Margaret Beckett, in a debate on the Procedure Committee report in the Commons, agreed to consider the possibility of Wales-only legislation being considered in a separate and speedier way. Therefore, when the need arose for legislation that applied solely to Wales, there would be a mechanism in place within Parliament in order for that to be taken through. That was said in the context of the Welsh Grand Committee, but there may be others that we need to examine.

Dafydd also referred to finding time for Bills that affect Wales—such as the Care Standards Bill and the Local Government Bill—by amending them through Assembly Orders and setting up a framework within which the Assembly can act by secondary legislation. That point can be met by using that approach to drafting. We can give as much flexibility as possible to the Assembly to deal with those matters. With regard in particular to the Local Government Bill, which has been mentioned by all Members who have spoken, there is an opportunity to introduce flexibility.

The Assembly must decide the type of mechanism by which it decides its own priorities. That mechanism is a matter for the Assembly, not me, to decide. How you work out your own priorities and procedures is a matter for you. Having decided on your priorities, you must work with me and my

Ni olyga hynny y bydd yr holl welliannau hynny'n cael eu cyflwyno bob amser. Efallai y byddai goblygiadau i'r DU gyfan na fydd Llywodraeth y DU yn cytuno arnynt. Wedi'r cwbl, yr ydym yn gweithredu mewn strwythur pleidiol. Rhaid i unrhyw lywodraeth roi ystyriaeth i'r ymrwymadau yn ei manifesto oddi mewn i'w phroses seneddol a deddfwriaethol. Dyna sut yr etholir llywodraethau. Mae hynny'n wir am flaenoriaethau hefyd. Fodd bynnag, derbyniaf y pwynt a wnaethpwyd gan Dafydd ac Alun am yr angen i sefydlu protocol; mecanwaith y gallwn ei ddefnyddio i edrych ar y dull gweithredu arbennig hwnnw. Codwyd mater gan Cynog yn ymwneud â chyflymu hynt deddfwriaeth Gymreig. Cytunodd Margaret Beckett, mewn dadl ar adroddiad y Pwyllgor Gweithdrefnau yn Nhŷ'r Cyffredin, i ystyried y posibilrwydd o ystyried deddfwriaeth i Gymru'n unig yn gyflym ac ar wahân. Felly, pan godai'r angen am ddeddfwriaeth a weithredir yng Nghymru'n unig, byddai mecanwaith wedi ei sefydlu yn y Senedd i gyflawni hynny. Dywedwyd hynny yng nghyd-destun yr Uwch Bwyllgor Cymreig, ond mae'n bosibl y bydd eraill y bydd angen inni eu hystyried.

Cyfeiriodd Dafydd hefyd at ganfod amser ar gyfer Mesurau sydd yn effeithio ar Gymru—fel y Mesur Safonau Gofal a'r Mesur Llywodraeth Leol—drwy eu diwygio drwy Orchmynion y Cynulliad a sefydlu fframwaith lle y gall y Cynulliad weithredu drwy ddeddfwriaeth eilaidd. Gellir ateb y pwynt hwnnw drwy arfer y dull hwnnw o ddrafftio. Gallwn roi cymaint ag y bo modd o hyblygrwydd i'r Cynulliad ymdrin â'r materion hynny. Gyda golwg yn arbennig ar y Mesur Llywodraeth Leol, a grybwyllwyd gan yr holl Aelodau a siaradodd, mae cyfle i gyflwyno hyblygrwydd.

Rhaid i'r Cynulliad benderfynu ar y math o fecanwaith i'w ddefnyddio i benderfynu ei flaenoriaethau ei hun. Mater i'w benderfynu gan y Cynulliad yw hynny, nid gennyf fi. Mater i chi yw sut y byddwch yn llunio'ch blaenoriaethau a'ch gweithdrefnau. Ar ôl penderfynu ar eich blaenoriaethau, rhaid ichi

Cabinet colleagues to see how they can be incorporated into legislation. This is an unusual year, however, in terms of the working of the process. It is only when the new parliamentary year starts a year from now that we can begin to see how things operate. In May the Assembly can start feeding the ideas that it feels should be included in primary legislation into the UK process.

4.49 p.m.

I must mention the fact that the 40 individuals who are representing Wales in the House of Commons have a role to play. When the Bills go through the House of Commons and the House of Lords, where there are a number of Welsh Members with Welsh interests, suggestions, even amendments to these Bills, may be tabled by my parliamentary colleagues in their own right. There is a need for co-operation between Assembly Members and Members of Parliament to see whether specific points should be raised if not by amendments then, certainly, in debates that affect constituencies and Wales as a whole.

It is important for David Hanson to come here to listen to you because he takes a close interest in these matters, and because he has to steer this legislation—clause by clause, line by line and word by word—through the House of Commons. Furthermore, we all hope that at least one Welsh backbencher, if not more, can provide an additional voice for Wales on the Standing Committees of all those Bills which include parts and clauses relevant to Wales.

Many of Nick Bourne's points were party political ones that have been made in the House of Commons and repeated here. Naturally, I disagree with most of them, but that is another issue. I will take those views back to Westminster. However, I accept his point on the significance of Objective 1. That point has also been voiced by every Member who has spoken today including the First Secretary. The Objective 1 status that Wales is getting as a consequence of structural funds is, of course, hugely important. The

weithio gyda mi a'm cydweithwyr yn y Cabinet i weld sut y gellir eu cynnwys mewn deddfwriaeth. Mae hon yn flwyddyn anarferol, fodd bynnag, o ran gweithredu'r broses. Dim ond pan ddechreu'r flwyddyn seneddol newydd ymhen blwyddyn y gallwn weld sut y bydd pethau'n gweithio. Ym Mai gall y Cynulliad ddechrau porthi syniadau y teimla y dylid eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol i broses y DU.

Rhaid imi grybwyll y ffaith bod rôl i'w chwarae gan y 40 unigolyn sydd yn cynrychioli Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin. Pan fydd Mesurau'n mynd drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, lle y mae nifer o Aelodau o Gymru a chanddynt ddiddordebau yng Nghymru, gall fy nghyd-aelodau seneddol gyflwyno awgrymiadau, a hyd yn oed welliannau, i'r Mesurau hyn yn rhinwedd eu swydd. Mae angen cydweithredu rhwng Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol i ganfod a ddylid codi pwyntiau penodol os nad ar ffurf gwelliannau yna, yn sicr, mewn dadleuon sydd yn effeithio ar etholaethau ac ar Gymru gyfan.

Mae'n bwysig i David Hanson ddod yma i wrando arnoch am ei fod yn ymddiddori'n fanwl yn y materion hyn ac am fod rhaid iddo lywio'r ddeddfwriaeth hon—fesul cymal, fesul llinell a fesul gair—drwy Dŷ'r Cyffredin. Yn ogystal â hynny, yr ydym oll yn gobeithio y bydd o leiaf un meinciwr cefn o Gymru, os nad mwy, yn gallu bod yn llais ychwanegol dros Gymru ar Bwyllgorau Sefydlog yr holl Fesurau hynny sydd yn cynnwys rhannau neu gymalau sydd yn berthnasol i Gymru.

Yr oedd llawer o bwyntiau Nick Bourne yn rhai pleidiol a wnaethpwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ac a ailadroddwyd yma. Yn naturiol, anghytunaf â'r rhan fwyaf ohonynt, ond mater arall yw hynny. Af â'r sylwadau hynny yn ôl i San Steffan. Fodd bynnag, derbyniaf ei bwynt am bwysigrwydd Amcan 1. Mynegwyd y pwynt hwnnw gan bob Aelod a siaradodd heddiw, gan gynnwys y Prif Ysgrifennydd. Mae'r statws Amcan 1 a gaiff Cymru o ganlyniad i gronfeydd strwythurol yn aruthrol o bwysig, wrth gwrs.

Prime Minister and the Chancellor of the Exchequer fought throughout the night in Berlin for that Objective 1 status to be given to Wales. That is why it is so important. They would not have fought for it unless they realised that it would be used correctly.

However, we all know that Wales's budget, like the UK's, is subject to the comprehensive spending review. I am conscious of your points. We must take care how we balance our debates on these matters. It was important to address funding over nine years, not seven, because of the way that funding operates. However, it is equally important for the general public to see that Objective 1 is a project-driven scheme. Structural funds depend entirely on the projects and schemes themselves. In the past, even before structural funding details were announced, people in Wales, or in my experience, Northern Ireland, did not stop planning and preparing for these schemes. There are some past examples, elsewhere in Europe and in the UK, of the money being returned because people had not considered their projects in sufficient detail.

We have talked a great deal about Ireland today. It is important to consider best practice elsewhere in Europe but particularly in Northern and Southern Ireland. I know that Rhodri Morgan has visited Dublin. We must look to them to see how Objective 1 moneys can change an economy, raise the GDP and help to re-train people and develop their skills. Looking to Ireland along with the establishment of the British-Irish Council will enable you to deal with structural funding in a more meaningful and significant way.

Nick referred to the guillotining of Bills. The Conservatives, of course, never guillotined any Bills. We will have to wait and see what happens on that matter. However, I will accept that it is a large number of Bills.

Mike German referred to a number of points.

Ymdrechodd y Prif Weinidog a Chanhellor y Trysorlys drwy'r nos ym Merlin i sicrhau statws Amcan 1 i Gymru. Dyna pam y mae mor bwysig. Ni fuasent wedi ymladd drosto oni bai eu bod yn sylweddoli y câi ei ddefnyddio'n gywir.

Fodd bynnag, gwyddom oll fod cyllideb Cymru, fel un y DU, yn ddarostyngedig i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Yr wyf yn ymwybodol o'ch pwyntiau. Rhaid inni fod yn ofalus sut y byddwn yn cydbwysu'n dadleuon ar y materion hyn. Yr oedd yn bwysig ymdrin ag ariannu dros naw mlynedd, nid saith, oherwydd y modd y mae'r ariannu'n gweithio. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig i'r cyhoedd weld bod Amcan 1 yn gynllun a yrrir drwy brosiectau. Mae cronfeydd strwythurol yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y prosiectau a'r cynlluniau eu hunain. Yn y gorffennol, hyd yn oed cyn cyhoeddi manylion yr ariannu strwythurol, nid oedd pobl Cymru, neu bobl Gogledd Iwerddon yn fy mhrofiad i, wedi peidio â chynllunio a pharatoi ar gyfer y cynlluniau hyn. Ceir enghreifftiau o'r gorffennol, mewn mannau eraill yn Ewrop ac yn y DU, lle'r oedd arian wedi ei anfon yn ôl am nad oedd pobl wedi ystyried eu prosiectau'n ddigon manwl.

Yr ydym wedi sôn llawer am Iwerddon heddiw. Mae'n bwysig ystyried yr ymarfer gorau mewn mannau eraill yn Ewrop ond yn enwedig yng Ngogledd a De Iwerddon. Gwn fod Rhodri Morgan wedi ymweld â Dilyn. Rhaid inni edrych arnynt hwy i weld sut y gall arian Amcan 1 newid economi, codi'r cynnyrch mewnwladol crynswth a helpu i ailhyfforddi pobl a datblygu eu sgiliau. Drwy edrych ar Iwerddon a chyda sefydlu Cyngor Prydain-Iwerddon byddwch yn gallu delio ag ariannu strwythurol mewn modd mwy ystyrion ac arwyddocaol.

Cyfeiriodd Nick at gyfyngu Mesurau. Wrth gwrs, nid yw'r Ceidwadwyr erioed wedi cyfyngu Mesurau. Bydd yn rhaid inni aros i weld beth a fydd yn digwydd ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, derbynïaf fod nifer y Mesurau'n fawr.

Cyfeiriodd Mike German at nifer o bwyntiau.

He did not agree with much of my statement and he destroyed any notion that there ever could have been a coalition between the Labour and Liberal Democrat Parties, whatever you may read in Paddy Ashdown's diaries. However, to be fair, he did agree with some of what I said and I accept his point on the transfer order.

On the Local Government Bill, there is no question of having compulsory mayors. I accept points made by many Members about rural Wales. We must adapt our local government system to the areas that it concerns. There are differences between a city and a large town and a rural area and a valley community like the one I represent. There should be flexibility. When you look at the Local Government Bill, you will see that there is a great deal of flexibility for the Assembly to tailor the Bill to Wales's local government needs. However, as a Labour Government, we must bear in mind that people voted for our manifesto as well as for us, and that in that manifesto we said that we must ensure more effective and efficient local government. That effectiveness and efficiency must be balanced with accountability, openness and transparency. It encompasses different methods of government such as Cabinet government or government by mayors, if that is what people want. Government by mayors is not compulsory. As a councillor in Torfaen for 14 years, I understand some of the points. I have spoken to people in councils around Wales, and some of them have very different views about the political management that they would like. The Bill is structured in such a way as to offer—provided the Assembly agrees with that principle—such flexibility. Not by stating that everything in the past was good, but by accepting that to progress there must be other methods. The Assembly should allow local authorities a choice.

The points about the Transport Bill are well made. However, I do not think that there are railways that begin and stop in Wales. All

Ni chytunodd â llawer yn fy natganiad a chwalodd unrhyw syniad y gallesid byth fod wedi cael clymblaid rhwng y Blaid Lafur a Phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol, beth bynnag a ddarllenwch yn nyddiaduron Paddy Ashdown. Fodd bynnag, i fod yn deg, cytunodd â rhywfaint o'r hyn a ddywedais a derbynias ei bwynt ar y gorchymyn trosglwyddo.

Ynglŷn â'r Mesur Llywodraeth Leol, nid oes sôn am gael meiri gorfodol. Derbynias y pwyntiau a wnaethpwyd gan lawer o Aelodau am gefn gwlad Cymru. Rhaid inni addasu'n system llywodraeth leol i'r ardaloedd perthnasol. Ceir gwahaniaethau rhwng dinas a thref fawr ac ardal wledig a chymuned yn y Cymoedd fel yr un a gynrychiolaf fi. Dylid cael hyblygrwydd. Pan edrychwech ar y Mesur Llywodraeth Leol, gwelwch fod llawer o hyblygrwydd i'r Cynulliad deilwra'r Mesur i ateb anghenion llywodraeth leol Cymru. Fodd bynnag, fel Llywodraeth Lafur, rhaid inni gofio bod pobl wedi pleidleisio dros ein maniffesto yn ogystal â drosom ni, a'n bod yn y maniffesto hwnnw wedi dweud bod rhaid inni sicrhau llywodraeth leol effeithiol ac effeithlon. Rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr effeithiolrwydd a'r effeithlonrwydd hwnnw ac atebolrwydd, gwaith agored a thryloywder. Mae'n cwmpasu gwahanol ddulliau o lywodraeth fel llywodraeth drwy Gabinet a llywodraeth gan feiri, os mai dyna ddymuniad y bobl. Nid yw llywodraeth gan feiri yn orfodol. Fel un a fu'n gynghorydd yn Nhor-faen am 14 blynedd, deallaf rai o'r pwyntiau. Yr wyf wedi siarad â phobl mewn cynghorau o amgylch Cymru, ac mae gan rai ohonynt farn wahanol iawn am y rheolaeth wleidyddol y carent ei gweld. Mae'r Mesur wedi ei lunio yn y fath fodd fel ei fod yn cynnig hyblygrwydd o'r fath—ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno â'r egwyddor honno. Nid drwy ddatgan bod popeth yn y gorffennol yn dda, ond drwy dderbyn bod rhaid wrth ddulliau eraill er mwyn cael cynnydd. Dylai'r Cynulliad ganiatáu dewis i awdurdodau lleol.

Gwnaethpwyd y pwyntiau am y Mesur Trafnidiaeth yn dda. Fodd bynnag, ni chredaf fod rheilffyrdd sydd yn dechrau ac yn gorffen

railways, in some way or another, cross the border into England. We must consider railways in a wider sense. If we want a decent railway system, we must examine how it relates to the railway system in England. However, the Transport Bill is not yet finalised and there is still an opportunity for the Assembly to comment. I will take the general points back to Westminster, but Members can rest assured that specific points are already being made to officials.

Nobody is on a lead. The fact that I have the position I have does not indicate that I hold any sort of lead. However, my colleagues in Westminster, myself and all of you here, are in a new situation. Whatever our politics, we are all learning a new job. In this new, young, vibrant democracy and as we move into the next millennium and into the next century we will learn as we go along. There is nothing wrong with that. That is what makes it so exciting. The learning process is not just about how you operate your procedures for the benefit of Welsh people, but also about how I, as the Secretary of State for Wales, operate with you. Therefore, I do not think that next week should be the only opportunity for Members to question me or to debate the legislative programme. I would welcome the opportunity later on as the parliamentary timetable goes through, to come back and give a progress report. However, that is a matter for you, Mr Presiding Officer, and the Assembly. I am in your hands. I do not intend to use my right to sit in my seat in this Chamber all of the time and speak when I want. Rather, I will use that right in a structured way, which I think will be helpful for all of us. The partnership between my Government and the Assembly is a fruitful one. I wish you well in your representation of the Welsh people and in ensuring that the quality of life of people in all parts of Wales is improved by your deliberations. I wish you well in those deliberations, in your debates and in the decisions that you have to make on behalf of Welsh people. [*Applause.*]

yng Nghymru. Mae'r holl reilffyrdd, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn croesi'r ffin i Loegr. Rhaid inni ystyried rheilffyrdd mewn ystyr ehangach. Os ydym am gael system reilffyrdd weddus, rhaid inni edrych ar ei pherthynas â'r system reilffyrdd yn Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'r Mesur Trafnidiaeth wedi ei gwblhau eto ac mae cyfle o hyd i'r Cynulliad gyflwyno sylwadau. Af â'r pwyntiau cyffredinol yn ôl i San Steffan, ond gall yr Aelodau fod yn sicr bod pwyntiau penodol eisoes yn cael eu cyflwyno i swyddogion.

Nid oes neb ar ben tennyn. Nid yw'r ffaith fy mod yn y swydd hon yn golygu bod gennyf unrhyw fath o dennyn. Fodd bynnag, mae fy nghydweithwyr yn San Steffan, a minnau a phawb ohonoch yma, mewn sefyllfa newydd. Beth bynnag yw ein gwleidyddiaeth, yr ydym oll yn dysgu swydd newydd. Yn y ddemocratiaeth newydd, ifanc, fywiog hon ac wrth inni symud i'r mileniwm nesaf ac i'r ganrif nesaf dysgwn wrth fynd ymlaen. Nid oes dim o'i le ar hynny. Dyna sydd yn ei wneud mor gyffrous. Mae'r broses ddysgu yn ymwneud â'r modd y gweithredwch eich gweithdrefnau er budd pobl Cymru, ond yn ogystal â hynny, â'r modd y byddaf fi, fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn gweithredu gyda chi. Felly, ni chredaf y dylai'r wythnos nesaf fod yn unig gyfle i'r Aelodau fy holi neu drafod y rhaglen ddeddfwriaethol. Croesawn y cyfle yn ddiweddarach, wrth i'r amserlen seneddol fynd heibio, i ddod yn ôl a rhoi adroddiad cynnydd. Fodd bynnag, mater i chi yw hynny, Lywydd, a'r Cynulliad. Yr wyf yn eich dwylo chi. Ni fwriadaf ddefnyddio fy hawl i eistedd yn fy sedd yn y Siambr hon drwy'r amser a siarad pan fynaf. Yn hytrach, defnyddiaf fy hawl yn strwythurol, a chredaf y bydd hynny o gymorth i bawb ohonom. Mae'r bartneriaeth rhwng fy Llywodraeth a'r Cynulliad yn un ffrwythlon. Dymunaf yn dda i chi wrth ichi gynrychioli pobl Cymru ac wrth sicrhau y bydd ansawdd bywyd pobl ym mhob rhan o Gymru yn cael ei wella drwy'ch trafodion. Dymunaf yn dda i chi yn y trafodion hynny, yn eich dadleuon ac yn y penderfyniadau a wnewch ar ran pobl Cymru. [*Curo dwylo.*]

The Presiding Officer: The debate will continue on 8 December, when David Hanson, Parliamentary Under-Secretary of State for Wales will be present. On that occasion I will favour Members—other than party leaders—who have not spoken today.

Y Llywydd: Bydd y ddadl yn parhau ar 8 Rhagfyr, pan fydd David Hanson, Isysgrifennydd Seneddol Cymru yn bresennol. Bryd hynny rhoddaf flaenoriaeth i Aelodau—heblaw arweinyddion y pleidiau—nad ydynt wedi siarad heddiw.

4:59 p.m.

Dadl Fer Short Debate

Tuag at Drafnidiaeth Integredig Towards Integrated Transport

Cynog Dafis: Gobeithiaf na fydd fy sylwadau yn parhau am fwy na chwarter awr. Mae Peter Black, David Davies a Sue Essex wedi mynegi dymuniad i gyfrannu i'r ddadl.

Cynog Dafis: I hope my comments will not last longer than a quarter of an hour. Peter Black, David Davies and Sue Essex have expressed a wish to contribute to the debate.

Mae'r ddadl hon ynglŷn â strategaeth genedlaethol ar gyfer trafndiaeth integredig yn un amserol. Clywsom lawer am y pwnc yn barod y prynhawn yma. Mae'r ddadl hon yn barhad o'n dadl ar flaen-raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth San Steffan. Bydd y Mesur Trafnidiaeth yn cael ei gyhoeddi yfory. Mae'n hanfodol fod y Mesur hwn, erbyn diwedd ei rawd, os nad ar y dechrau, yn darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion Cymru. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â hynny yn gynharach y prynhawn yma.

This debate on a national strategy for integrated transport is a timely one. We have already heard a great deal about the subject this afternoon. This debate is a continuation of our debate on the Westminster Government's forward legislative programme. The Transport Bill will be published tomorrow. It is essential that this Bill, by the end of its progress, if not at the outset, provides sufficiently for the needs of Wales. I listened carefully to what the Secretary of State for Wales said about that earlier this afternoon.

Yn ei araith ddiweddar yn Aberystwyth, dechreuodd y Prif Ysgrifennydd drafodaeth ar yr hyn y mae'n ei alw yn 'ddatganoli dynamig'. Mae trafndiaeth yn enghraifft berffaith o'r angen i weithredu datganoli dynamig. Er mwyn gwneud hynny, mae angen cyfuno dau beth. Rhaid cael parodrwydd gan San Steffan i fod yn sensitif i anghenion penodol Cymru. Rhaid cyfuno hyn â datganoli swyddogaethau newydd i'r Cynulliad er mwyn iddo allu gweithredu polisi trafndiaeth yn fwy effeithiol ac er lles ymarferol cymdeithas ac economi Cymru. Nid mater diwinyddol yw hwn, ond mater pragmataidd. Gwn eich bod chi, Mr Llywydd, fel minnau, yn hoff o ddiwinyddiaeth. Mae'r Prif Ysgrifennydd, ar y llaw arall, yn bragmatydd o blith y

In his recent speech at Aberystwyth, the First Secretary initiated a discussion on what he calls 'dynamic devolution'. Transport is a perfect example of the need to implement dynamic devolution. In order to do that, two things must be combined. There must be a willingness on Westminster's part to be sensitive to Wales's specific needs. This must be combined with the devolution of new functions to the Assembly so that it can implement a transport policy more effectively and for the practical benefit of Wales's society and economy. This is not a theological matter, but a pragmatic matter. I know that you, Mr Llywydd, are fond of theology, as I am. The First Secretary, on the other hand, is first and foremost a pragmatist.

pragmatyddion.

Nid yw amser yn caniatáu imi roi disgrifiad manwl o gefndir yr angen am bolisi trafndiaeth integredig, ond nodaf ei fod yn fater aruthrol o bwysig ac yn her anodd. Un peth yw ewyllysio polisi trafndiaeth integredig, peth arall yw dod ag ef i fwcl.

Time does not permit me to give a detailed description of the background to the need for an integrated transport policy, but I note that it is an extremely important matter and a difficult challenge. It is one thing to want an integrated transport policy and another to bring it into existence.

Mae twf cludiant ar y patrwm presennol yn costio'n aruthrol o ran marwolaethau, anafiadau, afiechyd a difrod i'r amgylchedd. Mae cost drom yn economaidd ac yn ariannol. Mae cludiant yn cyfrannu'n helaeth ac yn gynyddol tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd yn bygwth hinsawdd y blaned. Nid oes mater pwysicach na hwn. Traffig ar yr heolydd yw'r pechadur mwyaf, ac yn ôl y rhagolygon bydd yn cynyddu'n aruthrol eto.

Transport growth on the present pattern costs dearly in terms of fatalities, injuries, illness and damage to the environment. There is a heavy economic and financial cost. Transport contributes substantially and increasingly to the emissions of greenhouse gases which threaten the planet's climate. That is the most important issue. Road traffic is the greatest sinner, and according to the forecasts it will increase substantially again.

Mae'n broblem nad ellir ei hosgoi na'i thaelo yn effeithiol o fewn un wlad yn unig. Mae'n rhaid i'r hyn a wnawn yng Nghymru ddigwydd yng nghyd-destun polisi Prydeinig ac Ewropeaidd, sydd â mewnbwn mawr i bolisiau cludiant. Trwy gytundebau megis cytundeb Kyoto, mae hefyd yn digwydd yng nghyd-destun penderfyniadau byd-eang. Os ydym ni yng Nghymru am wneud ein cyfraniad i ateb yr her, rhaid inni gael yr offerynnau polisi angenrheidiol i'n dwylo ni.

It is a problem that cannot be avoided or tackled effectively within one country alone. Whatever we do in Wales must happen in the context of British and European policy, which has great input into transport policies. Through agreements such as the Kyoto agreement, it also happens in the context of global decisions. If we in Wales are to make our contribution to meet the challenge, we must get the necessary policy instruments into our own hands.

Beth ddylai ein hamcanion fod? Awgrymaf amcanion canlynol Plaid Cymru. Yn gyntaf, diogelu'r amgylchedd a gwella diogelwch. Mae'r rhain yn faterion o bwys ac mae diogelwch yn bwysig i bob person sydd yn byw ar ymyl heol fawr yn y wlad hon. Yn ail, sicrhau cysylltiadau digonol â marchnadoedd Prydeinig ac Ewropeaidd. Yn drydydd, hyrwyddo undod cenedlaethol a'r economi Cymreig mewnol trwy wella cysylltiadau o fewn Cymru, yn enwedig rhwng y Gogledd a'r De. Yn bedwerydd, integreiddio gwahanol foddau cludiant gan ffafrio trafndiaeth gyhoeddus a chyfyngu traffig ar yr heolydd. Dyna'r math o amcanion y gobeithiaf y gallwn oll gytuno arnynt.

What should our objectives be? I suggest Plaid Cymru's following objectives. First, protecting the environment and improving safety. These are important issues and safety is important to every person who lives along a highway in this country. Secondly, ensuring adequate communications with British and European markets. Thirdly, promoting national unity and the Welsh internal economy by improving connections within Wales, particularly between the North and the South. Fourthly, integrating different transport modes, favouring public transport and limiting road traffic. Those are the kinds of objectives on which I hope we can all agree.

Sut y mae ceisio cyflawni'r gamp allweddol o symud y pwyslais tuag at drafndiaeth gyhoeddus a newid arferion pobl i gynnwys

How do we try to achieve the key task of shifting the emphasis towards public transport and changing people's habits to

trafnidiaeth gyhoeddus? Awgrymaf y camau angenrheidiol canlynol. Yn gyntaf, lleihau amser siwrniau trên. Yn ail, gwella ansawdd y gwasanaethau bysiau, yn enwedig dros bellteroedd hir, megis y siwrnai o'r Gogledd i'r De. Yn drydydd, gwella heolydd mewn modd sydd yn lleihau amser teithio bysiau. Yn bedwerydd, rheoli traffig mewn trefi a phentrefi, yn enwedig mewn ardaloedd trefol mawr, a rhoi blaenoriaeth i fysiau ym mhob man. Hefyd, mae angen buddsoddi mewn cyfleusterau aros a newid, a darparu gwybodaeth hwylus.

Nid oes gennyf amser i ddisgrifio'n fanwl y fframwaith y byddai Plaid Cymru yn ei argymhell ar gyfer polisi cludiant integredig. Mae hynny wedi ei nodi mewn dogfen bolisi fanwl a baratowyd cyn etholiadau'r Cynulliad. Heddiw, mae'n bwysig ystyried beth y dylid ei wneud drwy'r Mesur Trafnidiaeth newydd, yr ydym wedi clywed llawer o sôn amdano y prynhawn yma, i'n galluogi i gymryd y penderfyniadau cywir. Yr unig beth a ddywedwyd hyd yn hyn yw y bydd gan Gymru aelod ar yr awdurdod rheilffyrdd strategol. 'Big deal' yw fy ymateb i hynny.

Mae dewisiadau anodd i'w gwneud, yn enwedig o fewn cyllideb gyfyngedig ac annigonol y Cynulliad. Er enghraifft, sut orau i greu cyswllt cyflym rhwng Gogledd a De? Sut orau i wella cysylltiadau rhwng Cymoedd y De a'r brifddinas? Sut mae gwella cysylltiadau tua'r Gorllewin?

Un enghraifft benodol yw problem *capacity* yr M4 yn y De-Ddwyrain. Ymddengys i mi ei bod yn darlunio'n glir yr angen am bwerau ychwanegol. Mae'n hollol amlwg fod angen gwneud rhywbeth ynghylch hynny. Os na wneir unrhyw beth, bydd drwg-efeithiau economaidd mawr a phroblem enbyd o orlenwi a thagfeydd traffig ar yr heol.

Trafodir y dewisiadau ynglŷn â hyn yn ddeallus ac yn olau gan yr Athro Stuart Cole mewn erthygl yng nghylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig, *Agenda*. Mae ef yn amlinellu'r ddau ddewis. Mae'r cyntaf yn golygu gwario rhyw £497 miliwn o arian cyhoeddus a phreifat ar hyd newydd o draffordd ar wastadeddau Gwent, lledu'r M4

include public transport? I suggest the following necessary steps. First, reducing the duration of train journeys. Secondly, improving the quality of bus services particularly over long distances, such as the journey from North to South. Thirdly, improving roads in a way that reduces buses' journey times. Fourthly, traffic management in towns and villages, especially in large urban areas, and giving priority to buses everywhere. Also, there is a need to invest in waiting and interchange facilities, and to provide convenient information.

I have no time to describe in detail the framework that Plaid Cymru would recommend for an integrated transport policy. That has been set out in a detailed policy document that was prepared before the Assembly elections. Today, it is important to consider what should be done through the new Transport Bill, of which we have heard much mention this afternoon, to enable us to make the right decisions. The only thing that has been said to date is that Wales will have a member on the strategic rail authority. 'Big deal' is my response to that.

There are difficult choices to be made, especially within the Assembly's limited and insufficient budget. For example, how best to create a fast North-South link? How best to improve links between the Valleys of the South and the capital city? How do we improve links to the West?

One specific example is the capacity problem on the M4 in the South-East. It appears to me that it illustrates clearly the need for additional powers. It is perfectly clear that something needs to be done about that. If nothing is done, there will be terrible economic effects and a serious problem of over-capacity and congestion on the road.

The choices regarding this are discussed intelligently and clearly by Professor Stuart Cole in an article in the Institute of Welsh Affairs's journal, *Agenda*. He outlines the two choices. The first means spending some £497 million of public and private money on a new length of motorway on the Gwent levels, widening the M4 in Coryton, a new

yn Coryton, heol newydd o amgylch Casnewydd a heol gysylltu newydd i'r maes awyr cenedlaethol. Dyna opsiwn yr heolydd.

Yr ail opsiwn y mae Stuart Cole yn ei gynnig yw buddsoddi rhyw £391 miliwn mewn gwahanol welliannau i reilffyrdd a bysiau. Mae hynny'n cynnwys cysylltiad rheilffordd â'r maes awyr a rhai gwelliannau i heolydd. Mae hynny'n gyfuniad o'r ddau beth. Mae ef yn cynnwys gwelliannau i heolydd ac, yn ei ail fodel, yn cynnwys yr heol ddsbarthu ddeheuol i Gasnewydd.

Yr ydym, fel plaid, yn ffafrio'r ail ddewis. Mae mudiad yn ardal Casnewydd o'r enw Calm Alliance sydd yn ffafrio yr ail ddewis. Fodd bynnag, ar ba ochr bynnag i'r ddadl yr ydych, dylai'r dewis fod ar gael. Yn anffodus, mae diffyg pwerau'r Cynulliad ym maes rheilffyrdd yn ei gwneud yn anodd i wneud y dewis hwnnw. Mae'r un diffyg hefyd yn ei gwneud yn anodd inni fynd i'r afael â'r broblem sydd yn tarddu o'r ffaith nad yw Cymru yn ddim byd ym meddyliau cynllunwyr y rheilffyrdd ond *appendix* trafferthus y byddai'n dda ganddynt ei dorri allan a'i daflu i'r bwced. Dyna'r ffaith amdani.

Mae gennym *franchise* Wales and West sydd yn estyn o Aberdaugleddau i Brighton, a *franchise* Central Trains sydd yn estyn o'r Gorllewin—hynny yw gorllewin Cymru—i ddwyrain Lloegr. Barmouth i Yarmouth mewn un *franchise*, a hwnnw'n cynnwys gorllewin canolbarth Lloegr. Mae hynny'n hollol afresymol.

Er mwyn pwerau'r Cynulliad i lunio polisi cludiant integredig, beth ddylai'r Mesur Trafnidiaeth ei wneud? Yn ddelfrydol, dylai wneud un gwelliant bach ond pwysig dros ben i adran 9 Deddf Trafnidiaeth 1968 i alluogi'r Cynulliad i fod yn awdurdod cludiant teithwyr. Awgrymwyd hynny eisoes y prynhawn yma, ac y mae'n symudiad allweddol a hawdd o fewn cyd-destun y Mesur Trafnidiaeth newydd. Mae'r math hwnnw o awdurdod yn bod yng ngorllewin canolbarth Lloegr. Mae'n rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach ond yn awdurdod ar ei ben ei hun.

ring road for Newport and a new link road to the national airport. That is the road option.

The second option proposed by Stuart Cole is to invest some £391 million in various rail and bus improvements. That includes a rail link with the airport and some road improvements. That is a combination of both things. He includes road improvements and, in his second model, includes the Newport southern distributor road.

We, as a party, favour the second choice. There is a movement in the Newport area called Calm Alliance which favours the second choice. However, whichever side of this debate you are on, the choice should be there. Unfortunately, the Assembly's lack of powers in the field of railways makes it difficult to make that choice. The same deficiency also makes it difficult for us to tackle the problem that springs from the fact that Wales is nothing more in the minds of railway planners than a troublesome appendix that they would like to cut out and throw away. That is the truth of the matter.

We have the Wales and West franchise that extends from Milford Haven to Brighton, and the Central Trains franchise that extends from the West—that is west Wales—to the east of England. Barmouth to Yarmouth in one franchise and one which includes the west midlands of England. That is totally unreasonable.

In order to empower the Assembly to form an integrated transport policy, what should the Transport Bill do? Ideally, it should make one small but extremely important amendment to section 9 of the Transport Act 1968 to enable the Assembly to become a passenger transport authority. That has already been suggested this afternoon, and it is a key and easy movement within the context of the new Transport Bill. That kind of authority exists in the west midlands of England. It is part of the wider railway network, but is an authority in its own right.

Byddai hynny'n galluogi'r Cynulliad i ffurfio awdurdod cludiant strategol, yn cyfuno rheilffyrdd a ffyrdd, a fyddai'n gweithio gydag awdurdodau lleol trwy fyrdau rhanbarthol i hyrwyddo cludiant cydblethedig.

That would enable the Assembly to establish a strategic transport authority, combining railways and roads, which would work with local authorities through regional boards to promote integrated transport.

5:09 p.m

Gyda hynny, dylid trosglwyddo cyfran Cymru o'r cymhorthdal i wasanaethau trenau, sef tua £100 miliwn, i'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod yr arian hwnnw yn cael ei wario yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes gennym syniad a yw'r gyfran honno o arian yn cael ei gwario fel cymhorthdal yng Nghymru ai peidio. Mae cyfrinachedd masnachol yn rhwystro hynny.

Along with this, Wales's share of the rail services subsidy, which is about £100 million, should be transferred to the Assembly in order to ensure that that money is spent in Wales. We have no idea at present whether that share of money is spent as a subsidy in Wales or not. Commercial secrecy prevents that.

Pe bai Mr Prescott neu Mr Blair yn rhwystro hynny, yn erbyn gwir ysbryd datganoli, dylid o leiaf greu adran Gymreig o'r awdurdod rheilffyrdd strategol i sicrhau blaenoriaethau Cymreig o fewn y strategaeth Brydeinig. Dyna'r lleiafswm angenrheidiol er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddylanwadu ar y polisi rheilffyrdd.

If Mr Prescott or Mr Blair were to block this, contravening the true spirit of devolution, we should at least establish a Welsh division of the strategic rail authority to ensure Welsh priorities within the British strategy. That is the minimum necessary to enable the Assembly to influence rail policy.

Ym mis Gorffennaf 1998, dywedodd y Llywodraeth y byddai gan Weithrediaeth yr Alban yr hawl i gyfarwyddo a rhoi arweiniad i'r awdurdod rheilffyrdd strategol, yr SRA, y byddai gan awdurdod Llundain y gallu i sicrhau a chaffael gwell gwasanaeth rheilffyrdd gan yr SRA ac i gynnig newidiadau. Cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, y cyfan y byddai'n rhaid i'r SRA ei wneud fyddai ymgynghori â'r Cynulliad. Mae hynny yn sarhaus ac yn annerbyniol. Hyderaf y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y ffordd honno o edrych ar Gymru yn cael ei newid yn yr achos hwn, ac yn ehangach.

In July 1998, the Government said that the Scottish Executive would have the right to direct and guide the strategic rail authority, that the London authority would have the ability to ensure and procure a better rail service by the SRA and to propose changes. As far as Wales is concerned, the only thing that the SRA would have to do is consult with the Assembly. That is an insult and is unacceptable. I am confident that the Government of Wales will ensure that that way of looking at Wales will be changed in this case, and on a wider basis.

Yn ogystal, yn ein barn ni, mae'n rhaid cael penderfyniad clir i lunio *franchise* ar gyfer holl wasanaethau rheilffyrdd Cymru—ac eithrio'r Intercity—ar sail Cymru a'r Gororau. Mae hynny'n ymarferol. Nid yw'n golygu torri Cymru i ffwrdd, a byddai'r *franchise* yn cynnwys rhan o Loegr. Byddai penderfyniadau ar y *franchise* yn cael eu gwneud ar sail trafodaethau gyda'r SRA.

In our opinion, there must also be a clear decision to form a franchise for all rail services in Wales—excluding Intercity—on a Wales and the Marches basis. That is practical. It does not mean cutting Wales off, and the franchise would include part of England. Decisions on the franchise would be made on the basis of discussions with the SRA.

Cyfeiriais ar ddechrau fy araith at ddatganoli dynamig. Pe bai Caerdydd a Llundain yn cytuno i'r camau a ddisgrifiais, byddai hynny yn enghraifft o ddatganoli dynmaig ar waith. Byddai'r Cynulliad, a'r Llywodraeth Lafur o fewn y Cynulliad, yn ennill hygredd. Mae mawr eisiau i'r ddau ohonynt ennill hygredd. Byddai modd dechrau adeiladau strategaeth cludiant integredig yn rhan o ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy. Byddai pobl Cymru ar eu hennill o ran cyfleustra, ffyniant ac ansawdd bywyd.

Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r sialens hon. Mae'r Mesur Trafnidiaeth yn brawf pwysig o'r parodrwydd i wneud rhywbeth ymarferol, gweddol radical a gwahanol yng Nghymru. Cawn weld beth a ddigwydd dros y misoedd nesaf.

David Davies: While I agree that integration in transport modes and getting people onto public transport is important, the problem at the moment is that the Government's integrated transport policy seems to be based on penal tax rates for motorists and hauliers, and a complete lack of acceptance that people will always need cars, especially those who live in the country.

As someone who has worked in haulage nearly all my career, I can say that at some point virtually every item that we buy will have to be moved by lorry, no matter how good the rail transport system. This Government is more concerned with putting money into Gordon Brown's war chest in order to fund a pre-election pledge than with worrying about the interest of hauliers and motorists. The latest manifestation of this is that Severn Bridge tolls are almost certain to rise because of the VAT levies on bridge tolls. This will hit the economy in south Wales and will cause devastation for local hauliers. I hope that Peter Law will get hold of Gordon Brown and urge him to resist any moves to put VAT on bridge tolls.

The problem is that the Secretary of State for

I referred at the beginning of my speech to dynamic devolution. If Cardiff and London were to agree to the measures that I described, this would be an example of dynamic devolution in action. The Assembly, and the Labour Government within the Assembly, would gain credibility. The two greatly need to gain credibility. It would be possible to start building an integrated transport strategy as part of the Assembly's commitment to sustainable development. The people of Wales would benefit in terms of convenience, prosperity and quality of life.

I hope that the Government of Wales will respond to this challenge. The Transport Bill is an important test of the willingness to do something practical, fairly radical and different in Wales. We will see what happens over the next months.

David Davies: Er fy mod yn cytuno ei bod yn bwysig integreiddio moddau cludiant a chael pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, y broblem ar hyn o bryd yw ei bod yn ymddangos bod polisi trafndiaeth integredig y Llywodraeth yn seiliedig ar gyfraddau treth cosbol ar fodurwyr a chlodwyr, ac anallu llwyr i dderbyn y bydd ar bobl angen ceir bob amser, yn enwedig y rhai sydd yn byw yng nghefn gwlad.

Fel un a weithiodd mewn cludiant ar hyd fy ngyrfa bron, gallaf ddweud y bydd yn rhaid i bron bob eitem a brynwn gael ei symud gan lori rywbyrd, ni waeth pa mor dda yw'r system trafndiaeth rheilffyrdd. Mae'r Llywodraeth hon yn poeni mwy ynghylch rhoi arian yng nghist ryfel Gordon Brown er mwyn ariannu addewid cyn yr etholiad nag am fuddiannau cludwyr a modurwyr. Yr arwydd diweddaraf o hynny yw bod y tollau ar Bont Hafren bron yn sicr o godi oherwydd y TAW a godir ar dollau pontydd. Bydd hyn yn ergyd i'r economi yn ne Cymru ac yn peri distryw i gludwyr lleol. Gobeithiaf y caiff Peter Law afael ar Gordon Brown a'i annog i wrthsefyll unrhyw gamau i roi TAW ar dollau pontydd.

Y broblem yw mai'r Ysgrifennydd Gwladol

Transport is John Prescott, who once encouraged everyone to walk to work. He walked to work himself with a load of TV cameras in tow and then had to have his briefcase delivered by chauffeur-driven car because he had forgotten it. That is the heart of the problem with Labour's integrated transport policy: it is a disintegrated transport policy.

Peter Black: It is apt that we are discussing integrated transport today, as the Transport Bill is due to be published tomorrow. The Secretary of State, if not in the Chamber, is hopefully listening to this debate, because it is important for Wales. I want to highlight several issues. I cannot remember the exact figure, but I understand that 80 to 90 per cent of all car journeys are made locally. Therefore, by adopting an integrated transport strategy and dealing with it on a local level, we can make a significant difference to the amount of car usage in Wales and reduce the level of pollution and greenhouse gases emitted by vehicles. It is therefore equally important that we as an Assembly have our own national road traffic reduction targets. I welcome the Environment and Local Government Committee's decision to move in that direction. That would assist local government and local authorities in setting their own road traffic reduction targets.

We have discussed long-distance transport and I support the moves which are afoot to try to introduce more long-distance bus services and more investment in our railways. A passenger transport authority, in particular, is an important way by which we can try to integrate transport throughout Wales.

Sue Essex: I want to add one further issue to the set of objectives that Cynog introduced. That is, the issue of accessibility in combating social exclusion and poverty. I would like to see that included in your list. The key to integration is the principle of joint working, between the public and private sector, at the Wales level, at the regional level and—as Peter Black rightly said—at the local level. We have tools to do that. The

dros Drafnidiaeth yw John Prescott, a anogodd bawb i gerdded i'w gwaith un tro. Cerddodd i'w waith ei hun a llu o gamerâu teledu yn ei ddilyn ac wedyn gorfod cael car â gyrrwr i ddanfon ei fag papurau am ei fod wedi ei anghofio. Dyna hanfod y broblem gyda pholisi trafndiaeth integredig Llafur: polisi trafndiaeth ymddatodedig ydyw.

Peter Black: Mae'n briodol ein bod yn trafod trafndiaeth integredig heddiw, gan fod y Mesur Trafndiaeth i'w gyhoeddi yfory. Gobeithiaf fod yr Ysgrifennydd Gwladol, os nad yw yn y Siambr, yn gwrandao ar y ddadl hon, oherwydd mae'n bwysig i Gymru. Yr wyf am dynnu sylw at sawl mater. Ni allaf gofio'r union ffigur, ond deallaf fod 80 i 90 y cant o'r holl deithiau mewn ceir yn digwydd yn lleol. Felly, drwy fabwysiadu strategaeth trafndiaeth integredig a delio â hynny yn lleol, gallwn wneud gwahaniaeth sylweddol ym maint y defnydd ar geir yng Nghymru a lleihau lefel y llygredd a'r nwyon tŷ gwydr a ollyngir gan gerbydau. Felly mae'r un mor bwysig i ni fel Cynulliad gael ein targedau lleihau traffig ffyrdd cenedlaethol ein hunain. Croesawaf benderfyniad Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol i symud i'r cyfeiriad hwnnw. Byddai hynny o gymorth i lywodraeth leol ac awdurdodau lleol wrth iddynt bennu eu targedau lleihau traffig ffordd eu hunain.

Yr ydym wedi trafod cludiant pellter mawr a chefnogaf y camau sydd ar droed i geisio cyflwyno rhagor o wasanaethau bysiau pellter mawr a mwy o fuddsoddi yn ein rheilffyrdd. Mae awdurdod trafndiaeth teithwyr, yn enwedig, yn ffordd bwysig y gallem ei defnyddio i integreiddio trafndiaeth ym mhob cwr o Gymru.

Sue Essex: Yr wyf am ychwanegu un mater pellach at y set o amcanion a gyflwynodd Cynog, sef mater hygyrchedd wrth ymladd dieithrwch cymdeithasol a thlodi. Hoffwn weld hynny ar eich rhestr. Yr allwedd i integreiddio yw'r egwyddor o gydweithio, rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ar lefel Cymru, ar lefel ranbarthol ac—fel y dywedodd Peter Black—ar lefel leol. Mae'r arfau gennym i wneud hynny. Mae

South Wales Integrated Fast Transit consortium is proving to be a good model of an integrated approach and joint working. I am sure that the Committee will consider its response to the Bill carefully. The important thing, Cynog, is that there are enabling provisions in that Bill. At the moment, I would not want to be prescriptive about having an all-Wales passenger transport authority, for example, or one at a regional level. I am open to suggestions. It is important that the enabling provisions are there and that over time we can examine them to see which ones suit Wales the best.

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): I am grateful to Cynog for taking the opportunity to discuss integrated transport, an important issue. The speech was a bit cynical in parts—if he will forgive me for saying that—but then I must recognise that the nationalists will never be satisfied as far as devolution is concerned. Nationalism looks towards separatism and we are not going down that road here. This is devolution. Having said that, it is important that we use this forum to discuss some of the options that should be available to us.

Transport is an issue that affects us all, wherever we live or work. Each of us has an interest in, and a use for transport, whether for business, social or leisure purposes. The UK integrated transport policy and the various policy documents published by the former Welsh Office have stimulated debate and raised transport issues to a level not experienced before. The aim of the Assembly's integrated transport policy is to develop a transport system that is safe, efficient, clean and fair. We aim for a system that delivers integration between different types of transport, with environment and land use planning, and which is integrated with and supports the policy aims of education, health and wealth creation and therefore forms part of the broader policy of promoting sustainable development.

consortium Cludiant Cyflym Integredig De Cymru yn profi'n batrwm da ar gyfer dull integredig a gweithio ar y cyd. Yr wyf yn sicr y bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth ofalus i'w ymateb i'r Mesur. Y peth pwysig, Cynog, yw bod darpariaethau galluogi yn y mesur hwnnw. Ar hyn o bryd, ni fyddwn am fod yn rhagnodol ynghylch cael awdurdod trafndiaeth teithwyr i Gymru, er enghraifft, neu un ar lefel ranbarthol. Yr wyf yn barod i dderbyn awgrymiadau. Mae'n bwysig bod y darpariaethau galluogi yna ac y gallwn edrych arnynt dros amser i weld pa rai sydd yn gweddu orau i Gymru.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Yr wyf yn ddiolchgar i Cynog am fanteisio ar y cyfle i drafod trafndiaeth integredig, sydd yn fater pwysig. Yr oedd rhannau o'i araith braidd yn sinigaidd—gan obeithio y bydd yn maddau i mi am ddweud hynny—ond rhaid imi gydnabod wedyn na fydd y cenedlaetholwyr byth yn fodlon mewn perthynas â datganoli. Mae cenedlaetholdeb â'i olygon ar ymwahaniaeth ac nid ydym yn dilyn y llwybr hwnnw yma. Datganoli yw hyn. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig inni ddefnyddio'r fforwm hwn i drafod rhai o'r dewisiadau a ddylai fod ar gael i ni.

Mae trafndiaeth yn fater sydd yn effeithio ar bob un ohonom, ym mha le bynnag yr ydym yn byw neu'n gweithio. Mae gan bob un ohonom ddiddordeb mewn trafndiaeth, a defnydd iddi, boed i ddibenion busnes, cymdeithasol neu hamdden. Mae polisi trafndiaeth integredig y DU a'r gwahanol ddogfennau polisi a gyhoeddwyd gan y gyn-Swyddfa Gymreig wedi symbylu trafodaeth ac wedi codi materion trafndiaeth i lefel na welwyd o'r blaen. Nod polisi trafndiaeth integredig y Cynulliad yw datblygu system trafndiaeth sydd yn ddiogel, yn effeithlon, yn lân ac yn deg. Yr ydym yn anelu at gael system sydd yn llwyddo i integreiddio gwahanol fathau o gludiant, gyda chynllunio amgylcheddol a defnydd tir, ac sydd wedi ei hintegreiddio â nodau polisi mewn addysg, iechyd a chreu cyfoeth, ac yn eu hategu, ac sydd felly'n rhan o'r polisi ehangach o hybu datblygu cynaliadwy

We can all identify with the five objectives that Cynog mentioned. We applaud his statement. We also applaud Sue Essex's wise comment on including social exclusion. That is also important. No one would argue with any of those points. However, formulating a framework is one thing and implementing policies that actually work and benefit people and businesses in Wales is another. I point out to David Davies, whose short contribution included a number of cheap points, that Gordon Brown listens to the transport lobby. That is why he has abolished the fuel escalator. The Government is listening to the concerns of the road haulage industry. That was apparent to me when I attended and spoke at the Freight Transport Association annual lunch recently. I also listened to what people there had to say, because that is what this job is about.

5:19 p.m.

There is, therefore, a clear need to translate the aspirations outlined in the policy documents into clear priorities for action, as a result of the response to 'A Better Wales'. Certain priorities have been assessed and generally endorsed by the Assembly, including a requirement to develop a better, co-ordinated and sustainable transport system to support local communities, and the creation of a prosperous economy. We will need commitment, perseverance and a clarity of vision to deliver an effective integrated transport policy agenda.

Earlier this month, the Environment and Local Government Committee recognised that the Assembly needs to develop a coherent strategic view of its objectives, taking into account the interface with land use planning, health and environmental policies. It also acknowledged the need to identify options for action, to determine priorities for developing the trunk and local road network within the constraints of realistic long-term funding prospects. Funding for trunk and local road improvements has been reduced over the last few years. However, hopefully the trend is now being reversed and I was pleased to

Gallwn oll arddel y pum amcan a grybwyllodd Cynog. Canmolwn ei ddatganiad. Canmolwn hefyd sylw doeth Sue Essex ar gynnwys dieithrwch cymdeithasol. Mae hynny'n bwysig hefyd. Nid anghytunai neb â'r un o'r pwyntiau hynny. Fodd bynnag, un peth yw llunio fframwaith a pheth arall yw gweithredu polisïau sydd yn gweithio'n wirioneddol ac yn llesol i bobl a busnesau. Dywedaf wrth David Davies, yr oedd ei gyfraniad byr yn cynnwys nifer o bwyntiau diwerth, fod Gordon Brown yn gwrando ar y lobi drafnidiaeth. Dyna pam y diddymodd y gyfradd gynyddol ar gyfer tanwydd. Mae'r Llywodraeth yn gwrando ar bryderon y diwydiant cludiant ffyrdd. Yr oedd hynny'n amlwg i mi pan oeddwn yn bresennol i siarad yn ddiweddar yng nghinio blynyddol y Gymdeithas Cludiant Nwyddau. Gwrandewais hefyd ar yr hyn a oedd gan y rhai yno i'w ddweud, oherwydd dyna hanfod y swydd hon.

Mae'n amlwg felly fod angen troi'r dyheadau a amlinellir yn y dogfennau polisi yn flaenoriaethau gweithredu pendant, o ganlyniad i'r ymateb i 'Gwell Cymru'. Aseswyd rhai blaenoriaethau a'u cefnogi'n gyffredinol gan y Cynulliad, gan gynnwys y gofyniad i ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy, gydlynol a gwell i gynnal cymunedau lleol, ac i greu economi ffyniannus. Bydd arnom angen ymrwymiad, dyfalbarhad a gweledigaeth glir er mwyn cyflwyno agenda polisi trafndiaeth integredig effeithiol.

Yn gynharach y mis hwn, cydnabu Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol fod angen i'r Cynulliad ddatblygu golwg strategol cydlynol ar ei amcanion, gan gymryd i ystyriaeth y rhyngwyneb â pholisïau cynllunio defnydd tir, iechyd a'r amgylchedd. Cydnabu hefyd fod angen dynodi dewisiadau ar gyfer gweithredu, er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau i ddatblygu'r rhwydwaith o gefnffyrdd a ffyrdd lleol oddi mewn i gyfyngiadau'r rhagolygon ariannu ymarferol tymor hir. Gostyngwyd yr ariannu ar gyfer gwelliannau ar gefnffyrdd a ffyrdd lleol dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Fodd bynnag,

announce on 23 November the award of a £12 million contract to build the A487 Llanwnda-Llanllyfni bypass. I am sorry, however, that the leader of the opposition is not here to hear that because that would be music to his ears.

While the Assembly can provide a strategic overview, it cannot act or be effective in splendid isolation from the other major players in the transport arena. Peter Black made an important point earlier about the good work that is being done in the Environment and Local Government Committee. I appreciate that. It is important to remember that partnership, and working together, is the best way forward for the people of Wales, bearing in mind the powers that are devolved to the Assembly. We need to work with the train operating companies, Railtrack, the strategic rail authority, the Office of Passenger Rail Franchising and also with our local authorities, because local authorities are central to taking forward our vision for transport. I have asked the local authorities to produce local transport plans by next summer, which will act as a crucial component in delivering our policies at a local level. These plans will set out local authority strategies and priorities over a five-year period and will include a range of targets, relating to issues such as reductions or growth in the rate of road traffic, increases in the use of public transport, the number of people walking and cycling, and air quality improvements. Peter Black referred to air quality and it must always be on our minds because it affects the quality of life of people in Wales.

Different areas of Wales have different transport requirements. The local transport plan mechanism is designed to allow local authorities to address local needs in a variety of ways. The more urban areas in south-east and north-east Wales will need to tackle congestion problems, ensure convenient and comfortable alternatives to the private car, and foster a more pedestrian-friendly and

gobeithio bod y duedd yn cael ei gwrthdroi bellach ac ar 23 Tachwedd yr oeddwn yn falch o gyhoeddi dyfarnu contract £12 miliwn i adeiladu ffordd osgoi A487 Llanwnda-Llanllyfni. Mae'n ddrwg gennyf, fodd bynnag, nad yw arweinydd yr wrthblaid yma i glywed hynny oherwydd byddai'n fiwsig i'w glustiau.

Er bod y Cynulliad yn gallu darparu uwcholwg strategol, ni all weithredu neu fod yn effeithiol mewn arwahanrwydd gogoneddus i'r chwaraewyr pwysig eraill ym maes trafndiaeth. Gwnaeth Peter Black bwynt pwysig yn gynharach am y gwaith da a wneir ym Mhwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. Gwerthfawrogaf hynny. Mae'n bwysig cofio mai partneriaeth, a gweithio gyda'n gilydd, yw'r ffordd orau ymlaen i bobl Cymru, gan gofio pa bwerau a ddatganolwyd i'r Cynulliad. Mae angen inni weithio gyda'r cwmnïau gweithredu trenau, Railtrack, yr awdurdod rheilffyrdd strategol, Swyddfa Masnachfreintiau Rheilffyrdd Teithwyr a hefyd gyda'n hawdurdodau lleol, oherwydd mae awdurdodau lleol yn ganolog wrth fwrw ymlaen â'n gweledigaeth ar gyfer trafndiaeth. Gofynnais i'r awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau trafndiaeth lleol erbyn yr haf nesaf, a bydd y rhain yn elfen hollbwysig wrth gyflawni'n polisïau ar lefel leol. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi strategaethau a blaenoriaethau'r awdurdodau lleol dros gyfnod o bum mlynedd a byddant yn cynnwys amrediad o dargedau, yn ymwneud â materion fel gostyngiad neu dwf yng nghyfradd y traffig ffyrdd, cynnydd yn y defnydd ar gludiant cyhoeddus, nifer y bobl sydd yn cerdded ac yn seiclo, a gwelliannau yn ansawdd yr aer. Cyfeiriodd Peter Black at ansawdd aer a rhaid inni gofio hynny bob amser oherwydd mae'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl yng Nghymru.

Ceir anghenion trafndiaeth gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Cynlluniwyd y mecanwaith cynlluniau trafndiaeth lleol fel ei fod yn caniatáu i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion lleol mewn amryw ffyrdd. Bydd yr ardaloedd mwy trefol yn ne-ddwyrain a gogledd-ddwyrain Cymru yn gorfod ymdrin â phroblemau tagfeydd traffig, sicrhau dewisiadau hwylus a chyfforddus

cycle-friendly environment. However, congestion is not generally a problem in rural areas. Local authorities in those areas will be looking to promote accessibility and address issues of community severance. I am grateful to Cynog for getting the Road Traffic Reduction Act 1997 onto the statute book. Under the Act, all local authorities submitted progress reports in August 1999, and are required to produce fully worked up reports in August 2000. These will outline how local authorities are addressing the adverse impacts of traffic and will contain targets for reducing traffic levels or its growth where local authorities consider this appropriate.

Similarly, the Assembly is required to look at the adverse impacts of traffic. The Commission for Integrated Transport has now considered its advice on national road traffic targets and has reported its findings back to the Deputy Prime Minister and the Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions. That Commission decided not to recommend a national traffic reduction target.

The Assembly's Environment and Local Government Committee will be considering these recommendations in January 2000. The Assembly will continue to support local authority projects under the transport grant arrangements. I am currently considering bids for support for 2000-01. A substantial transport grant is being provided this year to support transport packages which aid the development of integrated strategies at the local level. I welcome the cross border partnerships that local authorities have initiated to develop more coherent transport approaches. As Sue Essex said, South Wales Integrated Fast Transit, Transport Integration for the Gwent Economic Region, and South West Wales Transport Consortium, together with the broader economic groupings have contributed valuable joint ideas to the debate and interesting joint proposals for consideration. Other examples include a pilot

eraill yn lle ceir preifat, a meithrin amgylchedd sydd yn fwy addas i gerddwyr a seiclwyr. Fodd bynnag, nid yw tagfeydd yn broblem mewn ardaloedd gwledig, ar y cyfan. Bydd awdurdodau lleol yn yr ardaloedd hynny'n ceisio hybu hygrychedd ac yn ymdrin â materion sydd yn ymwneud â thor-cysylltiad cymunedau. Yr wyf yn ddiolchgar i Cynog am gael y Ddeddf Lleihau Traffig y Ffyrdd 1997 ar y llyfr statud. O dan y Ddeddf, cyflwynwyd adroddiadau cynnydd gan yr holl awdurdodau lleol yn Awst 1999, ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno adroddiadau cyflawn yn Awst 2000. Bydd y rhain yn amlinellu sut y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â drwg-ffeithiau traffig ac yn cynnwys targedau ar gyfer lleihau lefelau traffig neu eu cynyddu lle y mae awdurdodau lleol o'r farn bod hynny'n briodol.

Yn yr un modd, mae'n ofynnol i'r Cynulliad edrych ar ddrwg-ffeithiau traffig. Mae'r Comisiwn Trafnidiaeth Integredig bellach wedi ystyried ei gyngor ar dargedau traffig ffyrdd cenedlaethol ac wedi adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Penderfynodd y Comisiwn hwnnw beidio ag argymhell targed lleihau traffig cenedlaethol.

Bydd Pwyllgor Amgylchedd a Llywodraeth Leol y Cynulliad yn ystyried yr argymhellion hyn ym mis Ionawr 2000. Bydd y Cynulliad yn parhau i gefnogi prosiectau awdurdodau lleol o dan y trefniadau grantiau trafndiaeth. Ar hyn o bryd yr wyf yn ystyried ceisiadau am gymorth ar gyfer 2000-01. Darperir grant trafndiaeth sylweddol eleni i gefnogi pecynnau trafndiaeth sydd yn helpu i ddatblygu strategaethau integredig ar lefel leol. Croesawaf y partneriaethau trawsffiniol a sefydlwyd gan awdurdodau lleol er mwyn datblygu gweithredu mwy cydlynol ynghylch trafndiaeth. Fel y dywedodd Sue Essex, mae Cludiant Cyflym Integredig De Cymru, Integreiddio Trafnidiaeth Rhanbarth Economaidd Gwent, a Chonsortium Trafnidiaeth De Orllewin Cymru, ynghyd â'r grwpiau economaidd ehangach wedi cyfrannu syniadau gwerthfawr ar y cyd i'r drafodaeth a chyd-gynigion diddorol i'w

smartcard scheme for services in Caerphilly within the South Wales Integrated Fast Transit consortium area and a new multi-modal public transport information system for Wales.

We have, also, been running a rail audit of the current provision and the future needs for passengers and freight. Local authorities, train operators, Railtrack passenger representatives and other interests have been involved in that audit. It will give us a comprehensive assessment of what might be possible for Wales. I see the railways performing a key role in ensuring the growth of Welsh industry and tourism. We need to develop a rail system that is easy to access and to use and is reliable and safe. It is not enough to encourage people out of their cars; they need to see the railways as a positive choice. Last week, I saw at first hand the services provided by the Valleys Line. I was impressed by the modernisation that is taking place but we have a considerable way to go in improving quality of services. Reliability and avoiding overcrowding at peak times must be achieved. I support the key objective to improve direct rail services between north and south Wales. I stress that again today. Commitment and dedication is needed to achieve that. It is a major project and there can be no quick fixes. The key must be to make a strong case to the strategic rail authority when any franchise negotiations take place.

We are committed to improving transport links between north and south Wales. I announced in September that the Babcie Group Ltd had been commissioned to undertake a study of existing and potential travel demands. That study will assist us in determining levels of future investment. The study, which should be available early in the new year, will present options for future transport provision by car, bus, rail and air, between north and south Wales. Finally, a study jointly commissioned with the

hystyried. Ymhlith yr enghreifftiau eraill y mae cynllun cerdyn call ar ffurf beilot ar gyfer gwasanaethau yng Nghaerffili oddi mewn i ardal consortiwm Cludiant Cyflym Integredig De Cymru a system gwybodaeth cludiant cyhoeddus amlfoddol i Gymru.

Buom hefyd yn cynnal archwiliad o'r rheilffyrdd ynghylch y ddarpariaeth gyfredol ac anghenion ar gyfer teithwyr a chludo nwyddau yn y dyfodol. Mae awdurdodau lleol, gweithredwyr trenau, Railtrack, cynrychiolwyr teithwyr a buddiannau eraill wedi cymryd rhan yn yr archwiliad hwnnw. Bydd yn rhoi asesiad cynhwysfawr o'r hyn a allai fod yn bosibl yng Nghymru. Rhagwela y bydd y rheilffyrdd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cynnydd diwydiant a thwristiaeth yng Nghymru. Mae angen inni ddatblygu system rheilffyrdd sydd yn hawdd ei chyrraedd a'i defnyddio ac yn ddibynadwy ac yn ddiogel. Nid digon yw annog pobl i ddod o'u ceir; rhaid iddynt weld y rheilffyrdd yn ddewis cadarnhaol. Yr wythnos diwethaf, gwelais â'm llygaid fy hun y gwasanaethau a ddarperir gan Valleys Line. Fe'm trawyd gan y moderneiddio sydd yn digwydd ond mae gennym gryn ffordd o'n blaen er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau. Rhaid sicrhau eu bod yn ddibynadwy ac na cheir gorlenwi ar adegau brig. Cefnogaf yr amcan allweddol o wella gwasanaethau rheilffyrdd uniongyrchol rhwng de a gogledd Cymru. Pwysleisiaf hynny eto heddiw. Mae angen sicrhau ymrwymiad ac ymroddiad ynghylch hynny. Mae'n brosiect mawr ac nid oes modd cael atebion slic. Y peth holl bwysig yw cyflwyno achos cadarn i'r awdurdod rheilffyrdd strategol pan geir unrhyw drafodaethau ynghylch masnachfreintiau.

Yr ydym wedi ymrwmo i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng de a gogledd Cymru. Cyhoeddais ym mis Medi fod Babcie Group Cyf wedi ei gomisiynu i gyflawni astudiaeth o'r galwadau teithio presennol a dichonol. Bydd yr astudiaeth honno'n ein helpu wrth benderfynu ar lefelau buddsoddi yn y dyfodol. Bydd yr astudiaeth, a ddylai fod ar gael yn gynnar yn y flwyddyn newydd, yn cyflwyno dewisiadau ar gyfer darpariaeth trafnidiaeth yn y dyfodol drwy geir, bysiau, rheilffyrdd a'r awyr, rhwng de a gogledd

Department of the Environment Transport and the Regions on the potential for air services will be published for consultation in March 2000. The forthcoming Transport Bill will further focus our priorities. We will make our views known on that as an Assembly, as we should. The Secretary of State for Wales has said this afternoon that he will welcome our views and will listen to what we have to say. An important aspect of the Bill is how it helps central and local government to improve the strategy and delivery of integrated transport.

On railways, the Bill sets up the strategic rail authority, whose duties include promoting rail use. There will be a Welsh member of that authority, and that is positive because it is one more member than we have had before. We will work on that for the future. We need to promote rail use, to plan the strategic development of the network and to work closely with other transport providers and promote integration between transport modes. The Bill includes a grant-giving power to promote improvement.

For buses, we will see the introduction of measures to strengthen the partnership between local authorities and bus operators and powers to act against bus operators who fail to operate services as advertised. The Bill will also include provisions for the introduction of road congestion charges and workplace parking levies, the proceeds of which could be ploughed back to support and improve public transport services. The Assembly has been involved closely in the development of the £15 million European Freight terminal at Wentloog. Construction of this facility has now begun and the terminal is expected to open in October 2000. It is a key development that emphasises the importance of improving rail freight access offering a truly integrated solution to blend sea, rail and road. I am particularly interested in looking at other parts of Wales where the freight facilities grant can be utilised.

Cymru. Yn olaf, cyhoeddir astudiaeth a gydgomisiynwyd gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ar y posibilïadau ar gyfer gwasanaethau awyr er mwyn ymgynghori ym mis Mawrth 2000. Bydd y Mesur Trafnidiaeth sydd ar y ffordd yn rhoi gwedd eglurach byth ar ein blaenoriaethau. Rhoddwn wybod am ein barn ar hynny fel Cynulliad, fel y dylem. Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru brynhawn heddiw y bydd yn croesawu ein barn ac yn gwrandao ar yr hyn sydd gennym i'w ddweud. Agwedd bwysig ar y Mesur yw'r modd y bydd yn helpu llywodraeth ganol a llywodraeth leol i wella strategaeth a darpariaeth trafndiaeth integredig.

Ynglŷn â rheilffyrdd, mae'r Mesur yn sefydlu awdurdod rheilffyrdd strategol, a'i ddyletswyddau'n cynnwys hybu defnydd o'r rheilffyrdd. Bydd aelod o Gymru ar yr awdurdod hwnnw, ac mae hyn yn gadarnhaol oherwydd mae'n un yn fwy nag yr oedd gennym cynt. Gweithiwn ar hynny ar gyfer y dyfodol. Rhaid inni hybu'r defnydd o reilffyrdd, cynllunio datblygiad strategol y rhwydwaith a gweithio'n agos gyda darparwyr cludiant eraill a hybu integreiddio rhwng moddau trafndiaeth. Mae'r Mesur yn cynnwys pŵer i roi grantiau i hybu gwelliannau.

Ar gyfer bysiau, gwelwn gyflwyno mesurau i gryfhau'r bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau a phwerau i weithredu yn erbyn gweithredwyr bysiau sydd yn methu rhedeg gwasanaethau fel y'u hysbysebwyd. Bydd y Mesur hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyflwyno taliadau ynghylch tagfeydd ar ffyrdd a threthi ar barcio yn y gweithle, y gellid defnyddio'r elw ohonynt i'w roi yn ôl i gefnogi a gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus. Bu gan y Cynulliad gysylltiad agos â datblygu'r Orsaf Nwyddau Ewropeaidd £15 miliwn yng Ngwynllŵg. Mae'r gwaith wedi dechrau ar adeiladu'r cyfleuster hwn a disgwylir y bydd yr orsaf yn agor ym mis Hydref 2000. Mae'n ddatblygiad allweddol sydd yn pwysleisio pwysigrwydd gwella'r mynediad at gludiant nwyddau ar y rheilffyrdd gan gynnig ateb gwirioneddol integredig drwy gyfuno'r môr, y rheilffyrdd a'r ffyrdd. Yr wyf yn arbennig o

awyddus i ystyried rhannau eraill o Gymru lle y gellir defnyddio'r grant cyfleusterau cludo nwyddau.

This year's £5 million bus subsidy grant scheme allows Welsh local authorities to increase by more than 60 per cent the provision of socially necessary bus services in Wales, providing a lifeline to people who may previously have suffered from the effects of social exclusion. It is a matter for each local authority to decide how this additional funding is to be used to enhance local bus services, including links to train services. The only condition is that £3 million is invested in rural bus services and £2 million in rural or urban areas. Integration, therefore, is not only about new infrastructure, new vehicles and rolling stock to assist those who have already chosen to use public transport, it is also about ensuring that people feel supported and encouraged to make that choice. I am committed to introducing free concessionary travel for pensioners on buses in Wales by no later than April 2002, and I am working with local authorities and bus operators to ensure that that happens. I emphasise the great importance of partnership to all of these developments.

As I have said throughout this speech, the Assembly has offered a framework through its guidance for promoting integrated solutions in transport plans. However, the expertise and commitment of transport operators and local authorities is essential in ensuring that the right solutions are found to meet local needs. The challenge is enormous but my colleagues and I will work assiduously to plan, develop and implement a transport system worthy of the new millennium and of the people of Wales.

Mae'r cynllun grantiau cymhorthdal i fysiau o £5 miliwn eleni yn caniatáu i awdurdodau lleol Cymru gynyddu'r ddarpariaeth wasanaethau bysiau cymdeithasol angenrheidiol yng Nghymru fwy na 60 y cant, gan ddarparu rhaff achub i bobl a allai fod wedi dioddef cyn hynny o effeithiau dieithrwch cymdeithasol. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut i ddefnyddio'r arian ychwanegol hwn er mwyn gwella gwasanaethau bysiau lleol, gan gynnwys cysylltiadau â gwasanaethau trenau. Yr unig amod yw bod £3 miliwn i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau bysiau gwledig a £2 miliwn mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Felly, mae integreiddio yn amgenach nag isadeiledd newydd a cherbydau newydd ar ffyrdd a rheilffyrdd i helpu'r rhai sydd eisoes wedi dewis defnyddio cludiant cyhoeddus: mae'n ymwneud hefyd â sicrhau bod pobl yn teimlo bod cefnogaeth ac anogaeth iddynt wneud y dewis hwnnw. Yr wyf wedi ymrwymo i gyflwyno teithio rhad ac am ddim i bensïynwyr ar fysiau yng Nghymru nid hwyrach nag Ebrill 2002, ac yr wyf yn gweithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i sicrhau bod hynny'n digwydd. Pwysleisiaf fod partneriaeth o bwys mawr i'r holl ddatblygiadau hyn.

Fel y dywedais drwy gydol yr araith hon, mae'r Cynulliad wedi cynnig fframwaith drwy'r canllawiau a roddodd i hybu atebion integredig mewn cynlluniau trafndiaeth. Fodd bynnag, mae arbenigaeth ac ymrwymiad gweithredwyr trafndiaeth ac awdurdodau lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau'r atebion cywir i anghenion lleol. Mae'r her yn un anferth ond byddaf fi a'm cydweithwyr yn parhau i weithio'n ddiwyd i gynllunio, datblygu a gweithredu system trafndiaeth sydd yn deilwng o'r mileniwm newydd ac o bobl Cymru.

Y Llywydd: Daw hyn â'r sesiwn i ben. Diolch i'r Aelodau. Yn ysbryd y drafodaeth heddiw, byddaf yn anfon neges o ddymuniadau da i'm cyfaill, yr Arglwydd Alderdice, Llywydd a Llefarydd Cynulliad Gogledd Iwerddon, oddi wrth y Cynulliad hwn. Diolch yn fawr.

The Presiding Officer: This brings the session to an end. I thank Members. In the spirit of today's discussion, I will send a message of goodwill to my friend, Lord Alderdice, Presiding Officer and Speaker of the Northern Ireland Assembly, on behalf of this Assembly. Thank you very much.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.32 p.m.
The session ended at 5.32 p.m.*